BIP Caerdydd a'r Fro

# Adroddiad Blynyddol 2023 – 2024

Kind and caring
Caredig a gofalgar

Respectful
Dangos parch

Trust and integrity
Ymddiriedaeth ac uniondeb

Personal responsibility
Cyfrifoldeb personol

CARING FOR PEOPLE
KEEPING PEOPLE WELL

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

## Hygyrchedd

Os oes angen copïau ychwanegol o'r ddogfen hon arnoch, gellir eu lawrlwytho yn Gymraeg a Saesneg o'n gwefan. Fel arall, os oes angen y ddogfen arnoch mewn fformat arall, gallwn ddarparu crynodeb o'r ddogfen hon mewn gwahanol ieithoedd, print mwy neu Braille. Cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod:

Adran Llywodraethu Corfforaethol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Pencadlys Corfforaethol
Tŷ Coetir
Heol Maes y Coed
Y Mynydd Bychan
Caerdydd CF14 4HH

Mae fersiwn PDF llawn ar gael ar ein gwefan.

### Cysylltu â Ni

| | |
|---|---|
| | Llywodraethu Corfforaethol<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>Tŷ Coetir<br>Heol Maes y Coed<br>Caerdydd<br>CF14 4HH |
| | 029 2074 7747 |
| | news@wales.nhs.uk/ Corporate.Meetingcav@wales.nhs.uk |
| | www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/ |
| | @CV_UHB |
| | https://www.facebook.com/cardiffandvaleuhb |
| | https://www.instagram.com/cv_uhb |

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |
| **1. Croeso gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr** | 9 |
| **2. Proffil Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro** | 10 |
| 2.1 Amdanom Ni | 10 |
| 2.2 Ein Cenhadaeth a'n Gweledigaeth | 11 |
| 2.3 Ein Bwrdd | 12 |
| 2.4 Ein Strwythur | 15 |
| 2.5 Y Boblogaeth Rydym yn ei Gwasanaethu | 17 |
| 2.5.1 Demograffeg | 15 |
| 2.5.2 Iechyd yn Ein Hardal | 16 |
| 2.5.3 Anghydraddoldebau mewn Iechyd a Chanlyniadau Iechyd | 17 |
| 2.5.4 Hawliau Dynol | 17 |
| 2.5.5 Corff Llais y Dinesydd (Llais) | 18 |
| 2.6 Egwyddorion Unioni | 18 |
| 2.7 Ein Strategaeth | 19 |
| 2.8 Ymchwil a Datblygu | 20 |
| 2.9 Arloesi a Phartneriaethau | 22 |
| **Rhan 1 – Adroddiad Perfformiad** | |
| 3. Newidiadau Gwasanaeth Allweddol a gyflawnwyd yn 2023-2024 | 25 |
| 3.1 Cyflwyniad | 26 |
| 3.2 Datganiad gan y Prif Weithredwr | 26 |
| 3.3 Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) | 27 |
| 3.4 Arfarnu ac Asesu Perfformiad | 32 |
| 3.5 Tueddiadau Perfformiad Ariannol | 32 |
| 3.6 Dadansoddiad Darpariaeth a Pherfformiad | 38 |
| 3.6.1 Dadansoddiad Perfformiad Gweithredol | 38 |
| 3.7 Dadansoddiad Perfformiad Ansawdd | 45 |
| 3.8 Profiad y Claf | 50 |
| 3.9 Adborth Cleifion | 51 |
| 3.10 Datganiad Llesiant ac Adroddiad Blynyddol y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) | 55 |
| 3.11 Trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud â'r Ddeddf LlCD | 55 |
| 3.12 Cynnydd yn Erbyn ein Hamcanion Lles | 56 |
| 3.13 Astudiaethau Achos ar gyfer yr 'Hirdymor' ac 'Atal' | 56 |
| 3.14 Rheoliadau'r Gymraeg 2018 | 58 |
| 3.15 Adroddiad Cynaliadwyedd | 61 |
| 4. Trefniadau Llywodraethu Ansawdd | 68 |
| 4.1 Gwaith Ansawdd Digidol a Thrawsnewid | 68 |
| 5. Cyflawni mewn Partneriaeth | 70 |
| 5.1 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro | 70 |
| 5.2 Gwasanaethau Gofal Iechyd Rhanbarthol | 72 |
| 5.3 Gwasanaethau Arbenigol a Thrydyddol | 72 |
| 6. Ein Pobl | 73 |
| 6.1 Rheoli'r Gweithlu | 73 |
| 6.2 Denu a Recriwtio | 73 |
| 6.3 Cadw ein Pobl | 75 |
| 6.4 Lles y Gweithlu | 75 |
| 6.5 Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 77 |
| 6.6 Y Cynllun Pobl a Diwylliant | 78 |
| 7. Casgliadau a Rhagolwg | 79 |
| **Rhan 2 - Adroddiad Atebolrwydd** | |
| 8. Cwmpas yr Adroddiad Atebolrwydd | |

| | |
|---|---|
| 8.1 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol | 81 |
| 8.2 Cyfansoddiad y Bwrdd | 81 |
| 8.3 Datganiad o gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 82 |
| 8.4 Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn Perthynas â'r Cyfrifon | 82 |
| 8.6 Datganiad Buddiannau | 83 |
| **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** | |
| 9.1 Cwmpas Cyfrifoldeb | 85 |
| 9.2 Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd | 85 |
| 9.3 Rheolau Sefydlog Enghreifftiol a Chynllun Cadw'n Ôl a Dirprwyo | 86 |
| 9.4 Y Bwrdd a'i Bwyllgorau | 87 |
| 9.5 Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | 89 |
| 9.6 Cyfansoddiad y Bwrdd | 89 |
| 9.7 Pwyllgorau | 90 |
| 9.8 Grwpiau Cynghori a Chydbwyllgorau | 94 |
| 9.9 Penodiadau Cyhoeddus | 96 |
| 9.10 Datganiad Budd y Cyhoedd | 96 |
| 9.11 Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd a Phwyllgorau 2023-2024 | 96 |
| 10. Risg | 96 |
| 10.1 Sicrwydd Archwilio ar Reoli Risg | 100 |
| 10.2 Rheoli Risg | 101 |
| **11. Datgeliadau Gorfodol** | |
| 11.1 Safonau Iechyd a Gofal Diwygiedig | 102 |
| 11.2 Parodrwydd am Argyfwng | 102 |
| 11.3 Cyfarwyddydau Gweinidogol a Chylchlythyron Iechyd Cymru (CICau) | 102 |
| 11.4 Adroddiadau Rheoleiddio ac Arolygu | 103 |
| 11.5 Diogelwch Data a Llywodraethu Gwybodaeth | 103 |
| 11.6 Cynllun Pensiwn y GIG | 104 |
| 11.7 Cod Llywodraethiant Corfforaethol y DU | 105 |
| 11.8 Adolygiad Effeithiolrwydd | 105 |
| 11.9 Effeithiolrwydd y Bwrdd a Phwyllgorau | 106 |
| **12. Archwilio Mewnol** | |
| 12.1 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol | 107 |
| 12.2 Sicrwydd Cyfyngedig | 109 |
| **13. Archwilio Allanol – Archwilio Cymru** | |
| 13.1 Adroddiad Archwilio Blynyddol 2023 | 110 |
| 13.2 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Asesiad Strwythuredig | 111 |
| 14. Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 - Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi | 112 |
| 15. Casgliad | 114 |
| **Atodiadau**<br><br>Atodiad 1 - Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd a Phwyllgorau 2023-2024 | 115<br><br>121 |

| | |
|---|---|
| Atodiad 2 – Dyddiadau cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod 2023-2024<br><br>Atodiad 3 - Cyfarwyddydau Gweinidogol a Chylchlythyron Iechyd Cymru | 123 |
| **16. Rhan 2b Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff** | |
| 16.1 Niferoedd Staff | 130 |
| 16.2 Cyfansoddiad Staff | 130 |
| 16.3 Data Absenoldeb Salwch | 135 |
| 16.4 Polisïau Staff | 135 |
| 16.5 Hawliau Cyflog a Phensiwn Uwch Reolwyr 2023-2024 | 138 |
| 16.6 Gwariant Ymgynghori | 144 |
| 16.7 Sicrwydd Treth i Benodeion Oddi Ar y Gyflogres | 144 |
| **17. Rhan 2c Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru** | |
| 17.1 Rheoleidd-dra Gwariant<br>17.1.2 Cynlluniau Gwariant Hirdymor 2018-2024 | |
| 17.3 Ffioedd a Thaliadau | |
| 17.4 Rheoli Arian Cyhoeddus | |
| 17.5 Rhwymedigaethau amodol annhebygol perthnasol | |
| 17.6 Tystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd | |
| 17.7 Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn y Senedd | |
| **Rhan 3 Datganiad Ariannol Archwiliedig (Cyfrifon Blynyddol)** | |
| 18. Datganiadau Ariannol | |




GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board




Welcome/Croeso


New Possible









## 1. Croeso gan ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-2024. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi cyfle i ni rannu'r cynnydd a wnaed gan dîm y Bwrdd Iechyd gyda chefnogaeth ystod eang o randdeiliaid a'r gymuned rydym yn ei gwasanaethu, tuag at gyflawni ein Cynllun Blynyddol a'r Strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol. Ond hefyd i fyfyrio ar rai heriau sy'n effeithio ar ein tîm a'r rhai sy'n dibynnu arnom i'w cefnogi a gofalu amdanynt, yn aml pan fyddant ar eu mwyaf bregus.

Ym mis Medi 2023, yn dilyn cyfnod o gyd-gynhyrchu ac ymgynghori â'n cydweithwyr a'n rhanddeiliaid, cymeradwywyd ein strategaeth newydd, Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol, gan y Bwrdd. Mae'r strategaeth hon yn rhoi disgrifiad lefel-uchel i ni o'r hyn yr ydym am ei gyflawni erbyn 2035, a'r amcanion strategol y byddwn yn canolbwyntio arnynt i'n tywys yno. Mae pob un o'r amcanion strategol yn cynnwys cerrig milltir allweddol yr ydym yn anelu at eu cyflawni dros y pum mlynedd a'r deng mlynedd nesaf. Nod y strategaeth yw cryfhau ein hymrwymiad diwyro i unioni gwahaniaethau mewn mynediad a chanlyniadau. Mae'n cwmpasu gweithredu modelau gofal cadarn, ffocws ar ansawdd, mabwysiadu technolegau gofal iechyd arloesol, ymdrechion digido, seilwaith modern, a chadw at arfer gorau. Mae'r ymdrechion amlochrog hyn yn hanfodol i wireddu ein huchelgeisiau ac i ddiwallu anghenion y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu'n effeithiol.

Ein gweledigaeth yw bod cyfle person o fyw bywyd iach yr un fath ble bynnag maen nhw'n byw a phwy bynnag ydyn nhw. Rydym yn cydnabod effeithiau negyddol yr argyfwng costau byw ac etifeddiaeth Covid-19, ac fel Bwrdd Iechyd, yn parhau i symud ymlaen tuag at yr uchelgais hirsefydlog o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hirsefydlog o ran canlyniadau rhwng y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig, a gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau ymylol eraill. Mae ein cydweithwyr hefyd wedi cael eu heffeithio gan y ffactorau allanol hyn ond maent yn parhau i weithio'n ddiflino i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cynyddol dinasyddion Caerdydd a Bro Morgannwg gydag ymroddiad, arbenigedd a thosturi mawr a dymunwn gofnodi yma ein diolch a'n balchder yn eu hymrwymiad di-baid. Rydym hefyd yn cydnabod, o ganlyniad i lefelau'r galw, ynghyd â'n heriau seilwaith a staffio, bod unigolion weithiau'n ei chael hi'n anodd cael mynediad i'n gwasanaethau a bod eu profiad wrth eu defnyddio'n anodd hefyd. Hoffem ddiolch i bobl Caerdydd a Bro Morgannwg am eu cefnogaeth a'u hadborth parhaus wrth i ni geisio dysgu a gwella ansawdd mynediad, gofal, triniaeth a phrofiad pawb yn barhaus. Mae gennym amseroedd heriol o'n blaenau, ond rydym yn hyderus y gallwn, drwy fynd i'r afael â'r heriau hyn gyda'n gilydd, gefnogi pobl i fyw bywydau iachach a lleihau'r gwahaniaethau annheg o ran cyffredinrwydd salwch a chanlyniadau iechyd a welwn yn ein cymunedau heddiw.

Mae GIG Cymru wedi profi cyfnodau o weithredu diwydiannol ar draws 2023/24. Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn cydnabod hawl cydweithwyr i weithredu'n ddiwydiannol a'n hymrwymiad drwy gydol hyn yw sicrhau bod gofal yn parhau i gael ei ddarparu'n ddiogel i'n cleifion. Hoffem ddatgan ein diolch i'n timau sydd wedi cyflawni a chefnogi ei gilydd yn rhyfeddol o dda yn ystod y cyfnodau heriol hyn ac sydd wedi sicrhau parhad diogel ein gwasanaethau. Trwy waith partneriaeth a chydweithio effeithiol

rydym wedi cynnal ymateb diogel i'r cyfnodau hyn, ac rydym yn cydnabod y gwaith caled a'r ymrwymiad y gofynnwyd amdano gan gydweithwyr.

Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn parhau i ganolbwyntio'n benodol ar wella mynediad at ofal cynlluniedig a lleihau amseroedd aros i gleifion. Mae cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud a thrwy gydol y flwyddyn hon rydym wedi bodloni neu ragori ar ofynion a chynnal llwybr gwella ar gyfer ein gwasanaethau gofal cynlluniedig. Yn ogystal, mae gwaith i leihau ein rhestrau aros hefyd wedi gweld cynnydd da, gan gynnwys i'r rhai sy'n aros am driniaeth canser.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i roi ffocws cyson a pharhaus ar bob agwedd ar ofal brys ac argyfwng. Mae ein timau'n dangos gwelliant parhaus yn y meysydd hyn, ac rydym wedi cynnal ein hymrwymiad i'n hamcanion o dan y rhaglen Chwe Nod trwy gydol 2023/24. Mae ein Gofal Brys yr Un Diwrnod Meddygol (GBUDM) wedi cyflawni carreg filltir arwyddocaol, gan ragori ar yr uchelgais a osodwyd yn genedlaethol ar gyfer canran y derbyniadau meddygol a welwyd. Mae ein perfformiad strôc wedi gweld gwelliant sylweddol ac o fewn y flwyddyn hon cawsom y sgôr uchaf (A) gan y Rhaglen Archwilio Genedlaethol Strôc Sentinel (SSNAP). Yn ogystal, mae ein Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (CGSB) wedi llwyddo i gwmpasu 86% o ardal ddaearyddol y Bwrdd Iechyd gydag apwyntiadau CGSB a'n bwriad yw sicrhau bod y lefel hon o ddarpariaeth a defnydd yn cael ei chynnal. Ar ben hynny, drwy gydol 2023/24 rydym wedi gwneud gwelliant sylweddol a pharhaus gydag amseroedd trosglwyddo ambiwlansys sydd wedi arwain at well diogelwch i gleifion a galluogi ymateb cymunedol cyflymach i bobl sydd angen gofal brys.

Gwelodd 2023/24 lansiad gwasanaeth ymateb brys integredig amlasiantaethol ac amlbroffesiynol newydd, Diogel Gartref. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhan o'n datrysiad hirdymor i fynd i'r afael â'r bwlch presennol yn ein hystod o wasanaethau gofal canolraddol a'i nod yw darparu dewis amgen di-oed a diogel yn lle cludiant ambiwlans, presenoldeb yr Uned Achosion Brys a derbyniadau i'r ysbyty pan mae hynny'n ddiogel ac yn briodol. Mae'r fenter bartneriaeth hon yn gyfle newydd i wella ein cynnig o ofal iechyd a chymorth i'n cleifion yn y gymuned.

Hefyd, lansiodd y Bwrdd Iechyd offeryn ar gyfer gweithgarwch corfforol yn yr ystafell ddosbarth i blant ysgol 4-6 oed, QuickChange. Crëwyd yr offeryn hwn trwy waith cydweithredol ein Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol a'n Tîm Podiatreg a'i nod yw annog cryfder, cydbwysedd ac ymwybyddiaeth ofalgar. Mae'r offeryn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ymgorffori'r egwyddorion cynaliadwyedd a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydym yn falch o fod yn hwyluso'r cyfle hwn i wella lles cenedlaethau i ddod.

Mae'r pandemig Covid-19 wedi tynnu sylw sylweddol at bwysigrwydd cymorth iechyd meddwl, yn enwedig i bobl ifanc. Agorwyd yr Hangout gan y Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2023 mewn partneriaeth â'r elusen iechyd meddwl Platform. Mae'r Hangout yn rhoi cyfle i ailddiffinio sut mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad at gymorth iechyd meddwl a lles pan fydd ei angen arnynt mewn lleoliad anghlinigol. Mae'r Hangout hefyd yn gweithredu fel canolfan weithgareddau i bobl ifanc. Yn 2023 agorwyd yr Uned Drawma Bediatrig newydd yn Ysbyty Plant Cymru gyda'r nod o wella'r ffordd rydym yn darparu gofal cleifion a darparu amgylchedd gwaith gwell i'n timau.

Yn ystod y flwyddyn hon rydym hefyd wedi cyflwyno'r Peilot Cyffuriau Buvidal drwy ein Gwasanaeth Cymorth Seicolegol Buvidal (GCSB). Defnyddir y cyffur Buvidal i drin dibyniaeth opioid mewn cleifion sy'n derbyn cymorth meddygol, cymdeithasol a seicolegol. Mae'r peilot hwn wedi cynhyrchu canfyddiadau cadarnhaol ac wedi dangos bod BPSS yn fodel effeithiol sy'n galluogi llawer o gleifion i drawsnewid eu bywydau a lleddfu eu dibyniaeth ar opioidau.

Ym mis Awst 2023 daeth y Bwrdd Iechyd yn Aelod o Academi'r Florence Nightingale Foundation (FNF), menter fyd-eang sy'n helpu i ddatblygu, cefnogi a chadw nyrsys a bydwragedd. Mae ein Bwrdd Iechyd yn cymeradwyo egwyddorion craidd y Florence Nightingale Foundation wrth geisio rhagoriaeth mewn gofal iechyd a bydd ein cydweithrediad yn grymuso nyrsys a bydwragedd i gyrraedd uchelfannau newydd a darparu gofal gwell fyth i gleifion.

Ym mis Rhagfyr 2023 agorwyd Canolfan Iechyd Genomig Cymru yn swyddogol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, mae'r cyfleuster o'r radd flaenaf yn cydleoli rhai o arbenigwyr blaenllaw Cymru ym maes genomeg: Partneriaeth Genomeg Cymru, Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (GGFCG), Uned Genomeg Pathogenau a'r Rhaglen Genomeg Iechyd y Cyhoedd, a Pharc Geneteg Cymru. Bydd yr amgylchedd cydweithredol hwn yn gartref i labordai clinigol ac ymchwil o'r radd flaenaf, mannau clinigol pwrpasol, a bydd yn tanio arloesedd. Bydd hyn yn cefnogi Cymru i ddod yn genedl flaenllaw yn y maes gofal iechyd hwn, gan wella bywydau'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn y pen draw a dod â manteision enfawr i boblogaeth Cymru.

Ni fyddai llwyddiannau fel hyn wedi bod yn bosibl heb gydweithwyr hyblyg ac arloesol sydd wedi cefnogi a chreu'r newidiadau hyn, a llawer mwy. Maent wedi cyflawni canlyniadau gwell i bobl a gostyngiad sylweddol yn yr amser y mae'n ei gymryd i gael eich asesu, trin neu dderbyn.

Dyma rai enghreifftiau yn unig o le mae cydweithwyr, partneriaid, cleifion a phobl wedi gweithio ar y cyd, yn aml mewn amgylchiadau heriol, gyda brwdfrydedd, proffesiynoldeb a chreadigrwydd mawr i ddarparu, gwella ac addasu gwasanaethau. Rydym yn cael ein hysbrydoli'n barhaus a diolchwn i chi i gyd am eich cefnogaeth barhaus dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn edrych ymlaen at gryfhau ein gwaith mewn partneriaeth ac i wrando, deall a dysgu fel y gallwn barhau i wella a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r rhai sy'n gweithio gyda ni ac sy'n dibynnu arnom.



**Charles Janczewski**
Cadeirydd



**Suzanne Rankin**
Prif Weithredwr


# 2. Proffil Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro

## 2.1 Amdanom Ni

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn un o’r sefydliadau GIG mwyaf yn Ewrop. Wedi'i sefydlu yn 2009, mae'n darparu ystod o wasanaethau iechyd a lles i'w boblogaeth. Rydym yn gwario tua £1.86 biliwn bob blwyddyn ar ddarparu'r ystod lawn o wasanaethau iechyd a lles i'n cymunedau, gan gynnwys:

- **Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol:** Meddygfeydd, Deintyddion, Fferylliaeth ac Optometreg a llu o wasanaethau therapi a arweinir gan y gymuned drwy dimau iechyd cymunedol. Rydym hefyd yn darparu gofal ysbyty cymunedol cam-i-lawr, camu-i-fyny o Ysbytai Dewi Sant a'r Barri.
- **Gwasanaethau acíwt drwy ein dau brif Ysbyty Athrofaol ac Ysbyty Plant:** yn darparu ystod eang o driniaethau ac ymyriadau meddygol a llawfeddygol.
- **Iechyd y Cyhoedd:** rydym yn cefnogi cymunedau Caerdydd a'r Fro gydag amrywiaeth o gyngor ac arweiniad iechyd cyhoeddus ac ataliol.
- **Canolfan drydyddol:** rydym hefyd yn gwasanaethu poblogaeth ehangach ledled Cymru ac yn aml y DU gyda thriniaeth arbenigol a gwasanaethau cymhleth fel niwrolawdriniaeth a gwasanaethau cardiaidd.

Mae'r diagram isod yn dangos y gwahanol wasanaethau rydym yn eu darparu.




## 2.2 Ein Cenhadaeth a'n Gweledigaeth

Ein Gweledigaeth i'r bobl a wasanaethwn, drwy gydweithio, yw helpu i wella bywydau fel bod pobl, erbyn 2035, yn iachach a bod gwahaniaethau annheg mewn canlyniadau iechyd wedi'u lleihau. Bydd y gofal rydym yn ei ddarparu i bobl sydd angen ein gwasanaethau a'r rheini sy'n darparu'r gwasanaethau yn rhagorol, gyda chanlyniadau a phrofiadau i bawb sy'n cymharu'n dda â'r sefydliadau cymheiriaid sy'n perfformio orau.

Dylai pawb gael y cyfle gorau posibl i fyw bywyd iach a boddhaus - lle mae'r gwahaniaethau annheg mewn canlyniadau iechyd, sy'n effeithio ar ddisgwyliad oes, yn cael eu lleihau. Byddwn yn cyflawni hyn drwy weithio gyda chymunedau lleol a phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fynd i'r afael â'r materion sy'n achosi salwch y gellir ei atal a marwolaethau cynamserol.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, rydym wedi datblygu ein hamcanion strategol – nodau llesiant y Bwrdd Iechyd - sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i ymgorffori'r egwyddorion cynaliadwyedd a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd i'w cyflawni.

Rydym hefyd yn anelu at ddarparu gofal iechyd rhagorol, lle mae'r canlyniadau'n adlewyrchu ein bod yn Fwrdd Iechyd Prifysgol sy'n weithgar iawn o ran ymchwil ac yn debyg i sefydliadau cymheiriaid sy'n perfformio'n dda. Byddwn yn mesur ein perfformiad yn erbyn sefydliadau gofal iechyd sydd fel ni o ran maint a chymhlethdod

gwasanaethau, addysgu ac ymchwil y Bwrdd Iechyd, ar lefel y DU ac yn rhyngwladol.

### 2.3 Ein Bwrdd

Mae ein Bwrdd yn cynnwys 20 o aelodau, gan gynnwys Cadeirydd, Is-gadeirydd a Phrif Weithredwr. Mae gan y Bwrdd Iechyd 11 Aelod Annibynnol, pob un ohonynt yn cael eu penodi gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a thri Aelod Cyswllt.

Mae'r Bwrdd yn darparu arweiniad a chyfarwyddyd i'r sefydliad ac mae'n gyfrifol am lywodraethu, craffu ac atebolrwydd cyhoeddus, gan sicrhau bod ei waith yn agored ac yn dryloyw trwy gynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus.

Yn ogystal â'u cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau a nodir yn eu telerau ac amodau penodi, mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn cyflawni nifer o rolau Pencampwr lle maent yn gweithredu fel llysgenhadon ar gyfer y materion hyn.

Cefnogir y Bwrdd gan nifer o Bwyllgorau, pob un yn cael ei gadeirio gan Aelod Annibynnol.

Mae ein cyfarfodydd pwyllgor wedi parhau i gael eu cynnal yn rhithwir yn ystod y flwyddyn. Mae aelodau'r cyhoedd wedi gallu gweld recordiadau o'n cyfarfodydd Pwyllgor rhithwir ers mis Chwefror 2022 drwy ein gwefan. Mae'r Pwyllgorau, sy'n cyfarfod yn gyhoeddus, yn darparu eu cofnodion i bob cyfarfod Bwrdd i gyfrannu at ei asesiad o sicrwydd ac i graffu yn erbyn y gwaith o gyflawni amcanion.

O fis Mai 2022 fe wnaethom ailddechrau cynnal cyfarfodydd y Bwrdd yn gyhoeddus, gydag aelodau o'r cyhoedd yn gallu arsylwi cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn bersonol ers 26 Mai 2022.

Mae copïau o'r papurau a'r cofnodion ar gael gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol ac maent hefyd ar wefan y Bwrdd Iechyd (gweler y ddolen: https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/cyfarfodydd-bwrdd/). Mae'r wefan hefyd yn cynnwys crynodeb o gyfrifoldebau a Chylch Gorchwyl pob Pwyllgor. Mae'r holl gamau sy'n ofynnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgorau wedi'u cynnwys mewn Cofnod Gweithredu, ac ym mhob cyfarfod caiff cynnydd ei fonitro. Cyhoeddir y Cofnodion Gweithredu hyn hefyd ar wefan y Bwrdd Iechyd.

Mae pob Pwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl a'i Gynlluniau Gwaith yn flynyddol i gefnogi busnes y Bwrdd, yn ogystal â llunio Adroddiad Blynyddol i ddangos cydymffurfiaeth â'i Gylch Gorchwyl priodol. Mae pwyllgorau hefyd yn gweithio gyda'i gilydd ar ran y Bwrdd i sicrhau bod gwaith yn cael ei gynllunio'n gydlynol ac yn canolbwyntio ar faterion o'r risg mwyaf a fyddai'n ein hatal rhag cyflawni ein cenhadaeth a'n hamcanion. Er mwyn sicrhau cysondeb a chysylltiadau rhwng Pwyllgorau, mae gan y Bwrdd Iechyd Grŵp Cydgysylltu Llywodraethu, dan gadeiryddiaeth Cadeirydd y Bwrdd Iechyd.

# Aelodau o'n Bwrdd

## Aelodau Annibynnol



**Charles Janczewski**
Cadeirydd



**Ceri Phillips**
Is-gadeirydd



**Susan Lloyd-Selby**
Aelod Annibynnol — Awdurdodau Lleol



**David Edwards**
Aelod Annibynnol - Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu



**Akmal Hanuk**
Aelod Annibynnol - Y Gymuned Leol



**Sara Moseley**
Aelod Annibynnol - Trydydd Sector (Sector Gwirfoddol)



**Dr Rhian Thomas**
Aelod Annibynnol - Cyfalaf ac Ystadau



**John Union**
Aelod Annibynnol - Cyllid



**Mike Jones**
Aelod Annibynol Undeb Llafur

## Cyfarwyddwyr Gweithredol a Swyddog-Aelodau



**Suzanne Rankin**
Prif Weithredwr

**Richard Skone**
Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro



**Catherine Phillips**
Cyfarwyddwr Gweithredol - Cyllid



**Marie Davies**
Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol

**Emma Cooke**
Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapiau a Gwyddor Iechyd



**Claire Beynon**
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd



**Jason Roberts**
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio



**Paul Bostock**
Prif Swyddog Gweithredu



**Rachel Gidman**
Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant

## Cyfarwyddwyr Eraill




**Matt Phillips**
Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol



**David Thomas**
Cyfarwyddwr Deallusrwyddlechyd a Digidol

## 2.4 Ein Strwythur

Mae gennym weithlu o tua 17,862 o staff sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn gyson i'n holl gleifion.  Mae ein sefydliad wedi'i strwythuro a'i ddylunio i saith Bwrdd Clinigol a grëwyd ym mis Mehefin 2013 sydd wedi llwyddo i ddarparu arweinyddiaeth gref mewn meysydd clinigol ac arwain at gyflymu'r broses o wneud penderfyniadau gweithredol, gan wella'r canlyniadau i gleifion yn eu gofal yn fawr. Mae'r Byrddau Clinigol yn cael eu dwyn i gyfrif drwy'r Cyfarwyddwyr Gweithredol.




Mae ein gwasanaethau corfforaethol a chynllunio yn rhan annatod o strwythur cyffredinol a rhediad esmwyth y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Strategaeth, Cynllunio a Chomisiynu
- Cyllid gan gynnwys Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau
- Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
- Deallusrwydd Iechyd a Digidol
- Cyfathrebu, y Celfyddydau, Elusen Iechyd ac Ymgysylltu
- Llywodraethu Corfforaethol
- Ymchwil a Datblygu ac Arloesi a Gwella

Creffir ar y cyfarwyddiaethau Gwasanaethau Corfforaethol trwy gyfuniad o atebolrwydd llywodraethu, Cyfarwyddwr Gweithredol ac uwch reolwyr ac mae cynnydd yn cael ei fapio yn erbyn prosiectau allweddol yn eu meysydd arbenigedd.

## 2.5 Y Boblogaeth Rydym yn ei Gwasanaethu

### 2.5.1 Demograffeg

Mae bron i 500,000 o bobl yn byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Mae gan Gaerdydd boblogaeth gymharol ifanc, yn bennaf oherwydd y boblogaeth myfyrwyr yn y ddinas. Mae cyfran y bobl hŷn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru yn y Fro; mae nifer y bobl hŷn a chyfran y bobl hŷn yn cynyddu ar draws y ddwy ardal.

Mae tueddiadau blaenorol mewn twf poblogaeth yn ein hardal wedi arafu, gyda chynnydd rhagamcanol o 3-4% dros y 10 mlynedd nesaf, neu tua 15-20,000 yn fwy o drigolion.

Bob blwyddyn, mae pobl yn mudo i mewn ac allan o Gaerdydd a'r Fro. Yn 2021-22 effaith net hyn oedd tua 500 o bobl yn symud i'n hardaloedd awdurdod lleol o fannau eraill yn y DU; roedd cynnydd sylweddol hefyd yn nifer yr ymfudwyr rhyngwladol a symudodd i'n hardal, gydag effaith net o dros 10,000 o bobl yn symud i Gaerdydd a dros 500 i'r Fro o dramor. Gyda'i gilydd, roedd hyn yn cynnwys dros hanner nifer yr ymfudiadau rhyngwladol i Gymru gyfan. Mae ymfudo yn cynnwys derbyn ffoaduriaid Wcrain, Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Afghanistan (ACRS) a phoblogaethau ceiswyr lloches eraill.

Mae Caerdydd yn fwy ethnig amrywiol na'r rhan fwyaf o weddill Cymru, gydag ychydig dros chwarter y bobl yn nodi nad ydyn nhw'n Brydeinwyr Gwyn yng Nghyfrifiad 2021. Y ffigur cyfatebol ar gyfer Bro Morgannwg oedd 8%. Yng Nghaerdydd mae hyn yn cynnwys poblogaethau sylweddol sy'n nodi ethnigrwydd Du Affricanaidd, Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Arabaidd a Tsieineaidd; ynghyd ag ethnigrwydd gwyn nad yw'n Brydeinig.

Mae Caerdydd a'r Fro yn cynnwys rhai o ardaloedd mwyaf cyfoethog Cymru, ochr yn ochr â rhai o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf. Yng Nghaerdydd, mae pocedi amddifadedd ledled y ddinas ond mae llawer wedi'u lleoli yn yr 'arc ddeheuol', gan gynnwys Trelái, Caerau, Grangetown, Glan-yr-afon, Llanrhymni a Llaneirwg; yn y Fro eto mae pocedi gwasgaredig o amddifadedd drwyddi draw, gyda chrynodiad uwch yng nghanol y Fro, yn y Barri ac o'i hamgylch. Mae tua 23.1% o oedolion yng Nghaerdydd a 30% o oedolion yn y Fro yn gallu siarad Cymraeg.

### 2.5.2 Iechyd yn Ein Hardal

Gallwn gael darlun o iechyd ein preswylwyr drwy asesiadau fel Asesiadau Lles (ar gyfer Caerdydd a'r Fro) a'r Asesiad Anghenion y Boblogaeth ar gyfer y rhanbarth, ynghyd ag asesiadau anghenion iechyd unigol a data gwyliadwriaeth arferol a phwrpasol.

Ymysg y materion penodol yn ein hardal sy'n effeithio ar iechyd pobl mae:

*Ffactorau ehangach*

- Ansawdd aer
- Digwyddiadau tywydd difrifol (tywydd poeth, llifogydd) oherwydd newid hinsawdd
- Mynediad at fwyd iach a fforddiadwy
- Mynediad at dai fforddiadwy o ansawdd da
- Mynediad at fyd natur a mannau gwyrdd, a cholli bioamrywiaeth

- Trafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd uchel, a rhwydweithiau cerdded a beicio
- Allgáu cymdeithasol ac unigrwydd

*Ymddygiadau iechyd*

- Defnyddio tybaco a fepio (e-sigaréts)
- Manteisio ar imiwneiddio
- Bod yn gorfforol egnïol yn rheolaidd
- Sicrhau a chynnal pwysau iach
- Yfed alcohol

*Gofal iechyd*

- Mynediad amserol at ofal sylfaenol ac eilaidd

Nododd dros dri chwarter yr oedolion (76%) yn ein hardal eu bod mewn iechyd da neu dda iawn, y ganran uchaf yng Nghymru. Dywedodd bron i draean (31%) o bobl eu bod wedi'u cyfyngu gan un neu fwy o afiechydon hirdymor, ond unwaith eto dyma'r gyfradd isaf yng Nghymru. Y disgwyliad oes i ddynion yn ein hardal ni yw bron 79, a bron 83 i fenywod. Mae’r ddau yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae nifer y bobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor yn cynyddu, ynghyd â'r nifer sy'n byw gyda mwy nag un salwch. Rhagwelir y bydd nifer yr achosion newydd o ddiabetes math 2 yn benodol yn cynyddu'n sylweddol yn y degawd nesaf, ac mae deiet gwael, smygu a bod dros bwysau yn ffactorau risg hysbys.

Amcangyfrifir bod dros un rhan o bump o farwolaethau yng Nghymru a Lloegr yn rhai y gellid eu hosgoi, oherwydd cyflyrau y gellir eu hatal neu eu trin.

### 2.5.3 Anghydraddoldebau mewn Iechyd a Chanlyniadau Iechyd

Yng Nghaerdydd a'r Fro mae yna wahaniaeth mawr mewn disgwyliad oes rhwng pobl sy'n byw yn ein hardaloedd â’r amddifadedd mwyaf a lleiaf. Mae hyn ymysg y gwaethaf yng Nghymru.  Os ydych chi'n byw yn un o'n hardaloedd â’r amddifadedd lleiaf, gallwch ddisgwyl byw 8.3 mlynedd yn hirach fel menyw neu 9.3 mlynedd yn hirach fel dyn, na rhywun yn ein hardaloedd â’r amddifadedd mwyaf. Er gwaethaf ymdrech ar y cyd i leihau'r bwlch hwn dros y degawd diwethaf, mae'r bwlch wedi cynyddu mewn gwirionedd.

Mae'r bwlch hwn hyd yn oed yn ehangach wrth edrych ar flynyddoedd bywyd sy'n iach – disgwyliad oes iach. Gall pobl yn ein hardaloedd â’r amddifadedd mwyaf ddisgwyl byw rhwng 14 a 18 yn llai o flynyddoedd o fywyd iach na rhywun sy'n byw yn ein hardaloedd mwyaf cyfoethog.

Ynghyd â chanlyniadau iechyd gwaeth, mae'r rhan fwyaf o'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a ddisgrifir uchod hefyd yn waeth mewn ardaloedd â’r amddifadedd mwyaf.

Mae lleihau anghydraddoldebau a blaenoriaethu atal yn rhedeg drwy gydol ein strategaeth hirdymor ddiwygiedig, Llunio Ein Llesiant i’r Dyfodol. Disgrifir y gwaith

gweithredol o gyflawni blaenoriaethau iechyd y boblogaeth yn ein cynllun iechyd cyhoeddus lleol sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol.

### 2.5.4 Hawliau Dynol

Mae gan y Bwrdd Iechyd Bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol sy'n nodi'r ymrwymiad sefydliadol i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol mewn perthynas â chyflogaeth. Mae hefyd yn sicrhau bod recriwtio staff yn cael ei wneud mewn modd cyfartal.

### 2.5.5 Corff Llais y Dinesydd (Llais)

Trwy gydol y flwyddyn hon rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Corff Llais y Dinesydd newydd (Llais), y corff annibynnol cenedlaethol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais cryfach i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym yn cydweithio â Llais i drafod y ffordd rydym yn darparu a datblygu'r gwasanaethau a ddarparwn, ac rydym yn croesawu adroddiadau ganddynt ac yn ddiolchgar am eu cyngor, eu her a'u cefnogaeth.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Llais Caerdydd
Parc Tŷ Glas, Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU
Ffôn: 02920 750112
E-bost: enquiries@llaiscymru.org

## 2.6 Egwyddorion Unioni

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi croesawu'r rheoliadau yn llawn sy'n llywio'r modd y mae’n ymdrin â phryderon ac yn ymateb iddynt (cwynion a digwyddiadau) a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2011. Yn ogystal, mae dull y Bwrdd Iechyd o ymdrin â phryderon yn adlewyrchu'n fawr yr 'Egwyddorion Unioni' a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

### a) Gwneud pethau’n iawn

- Rydym yn cydnabod pan fyddwn yn nodi pethau y gellid bod wedi'u gwella.
- Rydym yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol wrth benderfynu ar y rhwymedi priodol, gan sicrhau tegwch i'r achwynydd a, lle bo hynny'n briodol, i eraill

sydd wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r un camweinyddu neu wasanaeth gwael.

- Rydym yn ymddiheuro ac yn esbonio'r camweinyddu neu'r gwasanaeth gwael.
- Rydym yn ceisio deall a rheoli disgwyliadau ac anghenion pobl.
- Rydym bob amser yn ceisio delio â phobl yn broffesiynol ac yn sensitif.

### b) Canolbwyntio ar gwsmeriaid

- Rydym yn cydnabod ac yn derbyn cyfrifoldeb am fethiant os a phryd y bydd yn digwydd.
- Rydym yn esbonio'n glir pam y digwyddodd y methiant ac yn mynegi edifeirwch diffuant am unrhyw anghyfiawnder neu galedi sy'n deillio o hynny.

### c) Bod yn agored ac yn atebol

- Rydym yn ceisio bod yn agored ac yn dryloyw.
- Rydym yn ymdrechu i drin pobl heb duedd, gwahaniaethu anghyfreithlon neu ragfarn.

### d) Gweithredu’n deg ac yn gymesur

- Rydym yn ystyried pob math o unioni (megis ymddiheuriad, esboniad, camau adferol neu iawndal ariannol).

### e) Gweithio i wella

- Rydym yn canolbwyntio ar ddefnyddio gwybodaeth am y canlyniad a'r themâu o bryderon i wella gwasanaethau.

### f) Chwilio am welliant parhaus

- Rydym yn ceisio cynnig ymchwiliad ac ymateb cymesur, rhesymol sy'n ceisio nodi'r cyfleoedd i wella gwasanaethau.

## 2.7 Ein Strategaeth

Ym mis Medi 2023 cymeradwywyd ein strategaeth newydd, Llunio Ein Llesiant i’r Dyfodol, gan y Bwrdd, a gellir cael copi ohoni drwy'r ddolen ganlynol: Hafan - Llunio Ein Llesiant i’r Dyfodol

Mae'r strategaeth hon yn rhoi disgrifiad lefel-uchel i ni o'r hyn yr ydym am ei gyflawni erbyn 2035, a'r amcanion strategol y byddwn yn canolbwyntio arnynt i'n tywys yno. Mae pob un o'r amcanion strategol yn cynnwys cerrig milltir allweddol y byddwn yn anelu at eu cyflawni dros y pum a'r deng mlynedd nesaf i gyflawni strategaeth y Bwrdd Iechyd. Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar Llunio Ein Llesiant i’r Dyfodol

2015 - 2025, a ddatblygwyd yn 2013 ac sy'n dal i adlewyrchu llawer o'i hegwyddorion sylfaenol.

Mae gennym amseroedd heriol o'n blaenau, ond rydym yn hyderus y gallwn, drwy fynd i'r afael â'r heriau hyn gyda'n gilydd, gefnogi pobl i fyw bywydau iachach a lleihau'r gwahaniaethau annheg o ran cyffredinrwydd salwch a chanlyniadau iechyd a welwn yn ein cymunedau heddiw. Rydym yn anelu at roi gofal a thriniaeth ragorol i bobl pan fydd ei angen arnynt, ble mae ei angen arnynt; gofal sy'n cymharu'n dda â'r gorau yn y byd, ond i wneud hynny, mae angen i ni drawsnewid sut rydym yn darparu gwasanaethau dros y degawd nesaf a thu hwnt.

Rydym yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan werthoedd a bydd ein nodau'n cael eu gwireddu dim ond os yw ein gwerthoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Wedi'u creu gan gydweithwyr, cleifion a'u teuluoedd a'u gofalwyr, ein gwerthoedd yw:

- Rydym yn **garedig ac yn ofalgar**
- Rydym yn **barchus**
- Rydym yn meddu ar **ymddiriedaeth a gonestrwydd**
- Rydym yn cymryd **cyfrifoldeb personol**

O fewn y Strategaeth ddiwygiedig, rydym wedi gosod pedwar amcan strategol, a bydd eu cyflawni yn ein galluogi i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer iechyd gwell a gofal rhagorol.

Y rhain yw:

**Rhoi Pobl yn Gyntaf** - Byddwn yn lle gwych i hyfforddi, gweithio a byw ynddo, lle rydym yn gwrando ar bobl a'u grymuso i fyw bywydau iach. Erbyn 2035, byddai cydweithwyr yn ein hargymell fel lle gwych i weithio, bydd ein gweithlu'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau a bydd mwy o bobl yn byw bywydau iachach.

**Darparu Ansawdd Rhagorol** - Byddwn yn darparu gwasanaethau rhagorol sy'n deg, yn amserol ac yn ddiogel, lle mae pobl yn cael eu trin â charedigrwydd ac yn cael eu cefnogi i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt. Byddwn wedi lleihau anghydraddoldebau o ran atal, gwell mynediad at wasanaethau clinigol a chanlyniadau clinigol.

**Cyflawni yn y Lleoedd Cywir** - Erbyn 2035 byddwn yn defnyddio data integredig amser real i lywio penderfyniadau ar y cyd a gweithio mewn tîm amlddisgyblaethol, gan roi mynediad a pherchnogaeth i bobl dros eu data i'w galluogi i reoli eu hiechyd a'u llesiant. Byddwn eisoes ar ein taith i ddarparu gofal yn y man iawn, mewn cyfleusterau sy'n addas i'r diben, sy'n hyblyg ac yn hyrwyddo adferiad.

**Gweithredu Dros y Dyfodol** - Byddwn yn gweithio i sicrhau nad yw'r hyn a wnawn heddiw yn peryglu llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn diogelu'r amgylchedd ac yn datblygu ac yn defnyddio technolegau, triniaethau a thechnegau newydd i ddarparu'r canlyniadau iechyd gorau posibl a gofal iechyd cynaliadwy i'r dyfodol. Erbyn 2030 byddwn wedi lleihau ôl troed carbon y Bwrdd Iechyd 34% (sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd) a byddwn wedi cynyddu ein gweithgareddau ymchwil ac arloesi clinigol.

Er mwyn cyflawni ein strategaeth byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n gyfranogol. Mae hyn yn golygu galluogi a grymuso pobl i fod yn rhan o lunio ein cynlluniau a chymryd rôl weithredol yn eu gofal a'u hiechyd fel partneriaid cyfartal. Bydd cydgynhyrchu wrth wraidd sut rydym yn gwella ein gwasanaethau a byddwn yn gweithredu ar adborth rheolaidd ac amserol gan y rhai sy'n defnyddio ac yn darparu

ein gwasanaethau. Byddwn yn mynd ati i geisio cyfranogiad ein partneriaid wrth gynllunio a darparu gwasanaethau – mae hyn yn cynnwys pawb sy'n gweithio yn y Bwrdd Iechyd, partneriaid y GIG, awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector, a phartneriaid prifysgol. Byddwn yn cymryd rhan effeithiol yn y partneriaethau ffurfiol yr ydym yn aelodau ohonynt – Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) Caerdydd a Bro Morgannwg a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Caerdydd a Bro Morgannwg, ein partneriaethau cynllunio a darparu gwasanaethau rhanbarthol (byrddau iechyd De-ddwyrain Cymru ac, ar gyfer gwasanaethau trydyddol ac arbenigol, ein partneriaeth â BIP Bae Abertawe), Partneriaeth Prifysgol Caerdydd, a phartneriaethau comisiynu cydweithredol fel Comisiynydd Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (CGIAC).

Bydd Atal wrth wraidd ein llwybrau gofal; atal salwch yn y lle cyntaf, ymyrryd yn gynnar a mynd i'r afael â dirywiad y gellir ei atal pan geir diagnosis o gyflwr iechyd. Byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n rhagweld anghenion pobl, gan ddefnyddio data amser real integredig i gynllunio a darparu cynlluniau gofal iechyd a thriniaeth bersonol ar gyfer y teulu cyfan, a defnyddio deallusrwydd yn gywir i ddarogan newid yn y galw i'n helpu i gynllunio a rheoli ein gwasanaethau yn y dyfodol.

### 2.8 Ymchwil a Datblygu

Mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o'i ddynodiad statws Prifysgol hirsefydlog a'i hanes o ddarparu ymchwil a datblygu clinigol arloesol o ansawdd uchel. Mae hyn yn cadarnhau un o egwyddorion craidd strategaeth barhaus y GIG a'r Bwrdd Iechyd, sef i gofleidio ymchwil a datblygu ac arloesedd i gynhyrchu gwybodaeth newydd a sbarduno newid a thrawsnewid o fewn gofal iechyd.

Mae cofleidio ymchwil ar draws y sefydliad nid yn unig yn caniatáu gwell mynediad i gleifion at gyfranogiad astudio ond hefyd y potensial ar gyfer therapiwteg newydd a all newid trywydd clefydau. Mae manteision treialon i lawr yr afon yn cynnwys newid mewn ymarfer, addysg, profiad clinigol, enillion ariannol, recriwtio staff, cadw a thwf o ran enw da.

O ystyried maint y gyllideb, mae YaD yn gorgyflawni'n sylweddol. Mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn her, fel sy'n wir ar draws y GIG cyfan a'r system gofal iechyd. Mae ein perfformiad yn well o lawer na Byrddau Iechyd Prifysgol eraill yng Nghymru ac yn cyfrif am oddeutu 40% o'r holl recriwtio yng Nghymru.

Cymeradwywyd 169 o astudiaethau 'a letywyd' i agor eleni, ond credwn y gallwn gyflawni mwy. Mae angen ehangu'r tîm cyflawni er mwyn gallu cefnogi nifer y treialon y mae ein hymchwilwyr am eu cyflawni. Rydym yn bwriadu parhau i archwilio cyfleoedd i ddatblygu gweithlu cyflenwi mwy cynaliadwy a all ateb y galw.

Yn rhannol, bydd hyn yn cael ei bweru trwy ddatblygu ein hymchwilwyr ein hunain, gan fanteisio i'r eithaf ar incwm grant. Eleni mae ymchwilwyr Caerdydd a'r Fro wedi parhau i gyflawni llwyddiant wrth sicrhau grantiau mawr gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR). Mae'r rhain yn cynnwys yr Astudiaeth ELIPSE - hap-dreial rheoledig sy'n cymharu effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd tynnu nod lymff mewn cleifion sy'n cael llawdriniaeth iachaol

ar gyfer canser y prostad risg-uchel lleol. Mae'r prosiect wedi sicrhau £2m drwy grant Asesiad Technoleg Iechyd NIHR ac yn cael ei arwain gan Krishna Narahari. Bydd yr astudiaeth yn ymestyn i recriwtio ledled y DU yn 2024-25.

Cafodd naw o brosiectau ymchwil dan arweiniad ymchwilwyr eu datblygu a'u sefydlu eleni gan staff Caerdydd a'r Fro. Y gobaith yw y bydd llwyddiant ein hymchwilwyr ein hunain yn parhau i dyfu gyda chefnogaeth y Swyddfa Ymchwil ar y Cyd a chydweithrediad gyda'n partneriaid academaidd ym Mhrifysgol Caerdydd.

Cydweithrediad pwysig arall sy'n parhau i aeddfedu yw Canolfan Ymchwil Canser Caerdydd sy'n gydweithrediad rhwng Caerdydd a'r Fro, Canolfan Ganser Felindre (dan arweiniad Mererid Evans) a Phrifysgol Caerdydd (dan arweiniad Awen Gallimore). Bydd hyn nid yn unig yn darparu mynediad ehangach i dreialon cam cynnar risg canolig ac uchel a therapïau celloedd datblygedig ond hefyd y cyfle i ddatblygu therapïau mainc i’r gwely, gwrth-drosi a diagnosteg newydd.

Mae cyhoeddi adolygiad yr Arglwydd O'Shaughnessy, 'Commercial clinical trials in the UK', wedi arwain at newid pwyslais yn NIHR ac YGIC ac mae'n ymgais i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn gweithgarwch treialon masnachol yn y DU. Mae Moderna a BioNTech yn edrych i fuddsoddi yn y DU, gan ganolbwyntio'n benodol ar dreialon brechlynnau. Mae YGIC wedi ymrwymo i gydweithrediad â BioNTech i hwyluso'r broses o gyflawni eu piblinellau treialon brechlynnau. Mae Caerdydd a'r Fro mewn cydweithrediad â Felindre yn adeiladu'r seilwaith i gefnogi'r astudiaethau hyn. Mae hwn yn gyfle gwych, nid yn unig i gleifion, ond hefyd o ran y manteision ymhellach i lawr y gadwyn ar gyfer gofal iechyd ataliol a'r baich ar y GIG yng Nghymru. Mae BIP Caerdydd a’r Fro yn arwain ar ddatblygu rhaglen frechu yng Nghymru gyda chanolfan frechu wedi'i lleoli yn y Cyfleuster Ymchwil Glinigol dan arweiniad Andrew Freedman.

Mae meithrin gwytnwch ein henw da fel sefydliad ymchwil gweithredol blaenllaw yn hanfodol ar gyfer denu a chadw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol talentog. Un prawf o hyn yw cyhoeddi mewn cyfnodolion effaith uchel rhyngwladol ac mae ein hymchwilwyr wedi cyhoeddi yn y tri chyfnodolyn gofal iechyd byd-eang blaenllaw, New England Journal of Medicine, Journal of the American Medical Association a Lancet dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae llawer o gyfleoedd ychwanegol ynghylch datblygu arbenigedd wrth ddarparu treialon gofal heb ei drefnu, therapïau uwch a defnyddio'r seilwaith rhagorol sy'n bodoli yng Nghaerdydd megis Canolfan Ymchwil Technoleg Iechyd Cedar, yr uned Clefydau Heintus â Chanlyniadau Pellgyrhaeddol (HCID), Canolfan Delweddu PET Ymchwil a Diagnostig Cymru (PETIC) a Chanolfan Ymchwil Delweddu'r Ymennydd Prifysgol Caerdydd (CUBRIC).

## 2.9 Arloesi a Phartneriaethau

Nid yw adnabod, gweithredu a defnyddio datrysiadau arloesol yn eang i wella canlyniadau iechyd yn rhywbeth y gall un Bwrdd Iechyd neu sefydliad GIG ei gyflawni ar ei ben ei hun. Mae cydweithredu a phartneriaeth yn hanfodol, boed gyda chydweithwyr yn y sefydliad, a all helpu i nodi a blaenoriaethu'r angen, neu gyda sefydliadau allanol boed o fewn y GIG, yn fasnachol, y trydydd sector a’r sector nid-

er-elw, cyrff Llywodraeth a chyrff hyd braich. Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'n grŵp cymheiriaid estynedig ledled Cymru i nodi cyfleoedd i helpu i symleiddio a chyflymu'r gwaith o ddatblygu, mabwysiadu a gweithredu atebion newydd ar draws pob rhan o'r Bwrdd Iechyd, mewn meysydd clinigol ac anghlinigol. Ar ôl cyfrannu at strategaeth y Llywodraeth a gyhoeddwyd yn 2023, Cymru'n Arloesi: Creu Cymru Gryfach, Decach, Wyrddach, rydym wedi cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu'r cam nesaf. Yn benodol, ar lefel genedlaethol, gwnaed cynnydd da o ran nodi meysydd ar gyfer mabwysiadu nodau cyffredin a dull wedi'i gysoni; er enghraifft, wrth greu cyfeirlyfr rhaglen ganolog, dull gweithredu posibl o ran rheoli eiddo deallusol, fframweithiau polisi, cyfleoedd ariannu a mabwysiadu. Gwnaethom hefyd greu pecyn hyfforddi cyflwyniad i arloesi 'cryno', sydd wedi cael adborth da gan gydweithwyr, gyda'r bwriad o 'ysgogi creadigrwydd' a helpu pawb i ddeall yn well ble y gallai'r cyfleoedd arloesi fod yn eu maes nhw a sut y gallai'r tîm arloesi helpu i archwilio'r rheini a helpu i'w gwireddu. Yn galonogol, y fenter hon oedd y catalydd i fenter genedlaethol ehangach i ddatblygu ystod o fodiwlau ychwanegol, achrededig ar wahanol lefelau i Gymru.

Yn lleol, rydym hefyd wedi parhau â gweithgareddau parhaus, fel yr 'Her Endosgopi' a ariennir gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, gyda'r bwriad o fynd i'r afael â rhestrau aros drwy ddatblygu datrysiadau a dulliau technolegol galluogol; prosiect Menter Ymchwil Busnesau Bach Cymru i ddatblygu system a all brosesu Entonox (nwy lleddfu poen) a anedlir allan i leihau amlygiad diangen; a chydweithwyr sydd wedi bod yn gweithio ar newidiadau llwybr arloesol ar y cyd â Chomisiwn Bevan. Wrth edrych i'r dyfodol, rydym yn archwilio ffyrdd newydd o weithio mewn partneriaeth yn barhaus ac yn cynnal ein digwyddiad 'arddangos' cyntaf. Gan weithio gyda Chanolfan Gwyddorau Bywyd Cymru, daethom â nifer o gwmnïau at ei gilydd yn Ysbyty Athrofaol Llandochau gyda chynhyrchion i'w defnyddio ym maes dementia, ynghyd â chydweithwyr clinigol ac anghlinigol i archwilio sut y gellir cymhwyso'r rhain o fewn ein sefydliad. Yn yr un modd arloesol, rydym yn archwilio partneriaeth aml-ffordd gyda sawl cwmni Fferyllol mawr i weld sut y gallwn wella rheolaeth lipid mewn cleifion â methiant y galon. Rydym ar y cam cynllunio ar hyn o bryd ac yn anelu at 'fynd yn fyw' yn 2024.

Gan gydnabod y symudiad i weithio'n agosach gyda chydweithwyr a sefydliadau ym maes gofal cymdeithasol a'r newid i fodelau gofal integredig, mae ein tîm Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol wedi parhau i weithio'n agos gyda'n Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Yma rydym wedi nodi a helpu i gefnogi ymwybyddiaeth a mabwysiadu arfer gorau, er enghraifft mewn presgripsiynu cymdeithasol, trwy gyswllt uniongyrchol â thimau, trefnu a hwyluso gweithdai, yn ogystal â thrwy 'adrodd straeon' trwy gyfryngau ysgrifenedig a ffilm. Gwnaeth y tîm hefyd gefnogi mentrau eraill yn uniongyrchol - yn ogystal â phresgripsiynu cymdeithasol - ym maes gofal diwedd oes, trwy helpu unigolion i dreulio'r amser hwnnw mewn lleoliad priodol, a thrwy ddatblygu dull cofnod gofal digidol i alluogi adnabod unigolion yn gywir ar draws systemau cofnodi iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y prosiectau pwysig hyn hefyd yn parhau i gael eu cefnogi eleni.

# Rhan 1

# Adroddiad Perfformiad

# Newidiadau Gwasanaeth Allweddol a Gyflawnwyd yn 2023/24

## C1

**GIG 111 Gwasgwch 2**
Lansio Gwasgwch 2 ar gyfer iechyd meddwl

**Mamolaeth – Cynllun Ockenden**
Cymeradwyo achos busnes i ymateb i adroddiad Ockenden ym maes Mamolaeth

**Cynllun Brechu Anadlol y Gaeaf**
Lansio cynllun gweithredu aml-asiantaeth

## C2

**Tîm Cleifion mewn Perygl (P@RT)**
P@RT yn dechrau 24/7 – yn darparu cymorth i gleifion ar draws y sefydliad

**Model Meddygaeth Acíwt Newydd**
Unedau Asesu yn symud o'r Adran Achosion Brys i Lawr 1af YAC – model newydd wedi'i weithredu

## Ch 3

**Ehangu'r Adran Achosion Brys**
Mae adrannau achosion brys pediatrig ac oedolion yn cael eu hehangu a'u hadnewyddu

**Unedau Penderfyniadau Clinigol**
Mae Unedau Penderfyniadau Clinigol newydd yn cael eu hagor mewn adrannau brys pediatrig ac oedolion

**Endosgopi**
Dwy ystafell endosgopi newydd yn cael eu hagor yn Ysbyty Athrofaol Llandochau

**Canolfan Iechyd Genomig Cymru**
Cydleoli partneriaid genomeg ledled Cymru mewn cyfleusterau newydd o'r radd flaenaf

**The Hangout**
Hyb cymorth iechyd meddwl a lles emosiynol i bobl ifanc yn agor

**Clinig Trawma Pediatrig**
Clinig trawma pediatrig newydd yn agor

## Ch 4

**Bumblebee yn Agor**
Uned achosion dydd pediatrig newydd yn agor

**Diogel Gartref**
Lansiad gwasanaeth ymateb brys integredig amlasiantaethol ac amlbroffesiynol newydd

**Ward Adsefydlu Iechyd Meddwl**
Ward Collen yn symud i Uned Llanfair i gydleoli wardiau adsefydlu

**Adnewyddu'r Marwdy**
Dechrau'r gwaith adnewyddu ar marwdy YAC

**Yr Hyb Lles yn Y Maelfa** Hyb yn agor sy'n darparu cyfleusterau aml-partner i feithrin cydgynhyrchu a gwaith ar y cyd

# 3. Trosolwg Perfformiad

## 3.1 Cyflwyniad

Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei Gynllun Blynyddol terfynol wedi'i osod mewn cyd-destun tair blynedd ym mis Mawrth 2023. Mae cyflwyno'r cynllun dros y 12 mis diwethaf wedi parhau i fod yn heriol ac rydym wedi parhau i weithio'n galed, ar y cyd â'n partneriaid, i adfer a gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ein strategaeth newydd 'Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol hyd at 2035' ym mis Gorffennaf 2023. Mae'r strategaeth hon yn dangos ein gweledigaeth a'n pwrpas cyffredin, yn ailddatgan ein gwerthoedd sefydliadol, ac yn creu'r fframwaith strategol ar gyfer cyflawni mewn cyd-destunau tymor byr, canolig a hir. Mae ein pwyslais wedi parhau i fod ar sicrhau bod ansawdd a gwerth yn sail i'n dull gweithredu gydag ymrwymiad i warchod neu wella diogelwch cleifion, ansawdd, mynediad at wasanaethau a lles staff. Mae'r adran Trosolwg Perfformiad hon yn rhoi crynodeb o rai o'r cyflawniadau, heriau a risgiau sefydliadol allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

## 3.2 Datganiad gan y Prif Weithredwr

Nodweddwyd ein perfformiad sefydliadol dros 2023-24 gan adferiad graddol a chyson wrth i'n timau gydbwyso effeithiau parhaol y pandemig Covid-19 gyda'r angen i adfer ac ailgynllunio ein gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Cafodd dull y Bwrdd Iechyd o ran perfformiad ei ategu gan y Blaenoriaethau Gweinidogol a'r "amodau atebolrwydd" a gyhoeddwyd yn ddiweddarach yn 2022/23. Nodir isod nodyn ar ein dull gweithredu a'n darpariaeth yn erbyn pob un o'r blaenoriaethau hyn, gyda'r manylion wedi'u darparu trwy gydol y Trosolwg Perfformiad a chynnwys ehangach yr Adroddiad Blynyddol.

### Cymru Iachach - fel y cyd-destun polisi cyffredinol

Mae Cymru Iachach yn nodi gweledigaeth hirdymor y dylai pawb yng Nghymru gael bywydau hirach, iachach a hapusach. Mae'n cynnig dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol sy'n deg, a lle mae gwasanaethau wedi'u cynllunio o amgylch unigolion a grwpiau yn seiliedig ar eu hanghenion unigryw a'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â chanlyniadau ansawdd a diogelwch. Mae cyflwyno'r ethos hwn wedi parhau i fod yn rhan annatod o'n gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau ac mae wedi bod yn sail i greu ein strategaeth 'Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol hyd at 2035'.

### Iechyd y boblogaeth

Mae ein hymrwymiad i wella iechyd y boblogaeth wedi'i lunio o amgylch ein cynllun 'Llunio Iechyd Ein Poblogaeth i'r Dyfodol'. Cyhoeddwyd y cynllun hwn ym mis Chwefror 2022, ac mae wedi ein helpu i nodi dull systemau o nodi a mynd i'r afael â materion iechyd y boblogaeth nawr ac yn y dyfodol, gwella iechyd, atal afiechyd, a lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd ymhlith preswylwyr a chymunedau yn ein hardal.

### Adferiad y GIG

Mae ein cynnydd o ran adfer ac ailgynllunio gwasanaethau wedi bod yn sylweddol wrth i ni barhau i fynd i'r afael â'r heriau a ddeilliodd o’r ymateb Covid-19 ar y cyd â'n heriau gweithlu. Rydym wedi gweld ymrwymiad parhaus i gyflawni ein hamcanion o dan y rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn ogystal â'n hamcanion ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd. Mae’r ddarpariaeth gwasanaethau wedi bod yn unol â’n hymrwymiadau Cynllun Blynyddol yn y mwyafrif o feysydd. Darperir rhagor o fanylion am ein cyflawniadau a meysydd y mae angen eu gwella'n barhaus yn yr adran Arfarnu Perfformiad isod.

### Iechyd meddwl a lles emosiynol

Mae gwasanaethau Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol wedi gweld cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau dros y flwyddyn ddiwethaf ac rydym yn falch ein bod, er gwaethaf hyn, wedi cyflawni targedau craidd ar gyfer asesu a thriniaeth. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar welliannau mewn gwasanaethau, megis Niwroddatblygiad lle mae angen i ni leihau amseroedd aros a pharhau i gryfhau ein cydlyniant â gwasanaethau addysg.

### Cefnogi'r gweithlu iechyd a gofal

Mae iechyd a lles ein pobl yn parhau i fod o'r pwys mwyaf. Mae effaith y pandemig wedi cael goblygiadau eang a dwfn i'n timau. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi a gwella lles ein pobl. Ein huchelgais o hyd yw gwneud y Bwrdd Iechyd yn lle gwych i weithio ac rydym yn parhau i wneud cynnydd o ran ymgorffori'r uchelgeisiau a nodir yn ein Cynllun Pobl a Diwylliant a lansiwyd yn 2022.

### Cyllid y GIG a rheoli o fewn adnoddau

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi rheoli ei adnoddau ariannol yn ystod blwyddyn ariannol 2023/2024.

### Gweithio ochr yn ochr â Gofal Cymdeithasol

Dim ond drwy waith partneriaeth agos a chefnogol y gellir mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu ein system Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgorffori'r dull hwn ar draws ein sefydliadau partner ar lefel weithredol, lefel strategol a lefel y Weithrediaeth. Mae datblygu Tîm Rheoli Digwyddiadau Rhanbarthol i fynd i'r afael â phroblemau cyffredin dybryd yn tanlinellu'r pwysigrwydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i roi ar weithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol partner, gyda thimau uwch yn cyfarfod ddwywaith y mis i weithio ar fentrau gan gynnwys cyd-gynllunio'r gweithlu a chomisiynu capasiti gofal cymdeithasol ychwanegol dros y gaeaf.

## 3.3 Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI)

Yng Nghymru ac ar draws y DU, rydym yn gweithredu o fewn yr amgylchiadau mwyaf heriol y mae'r GIG wedi'u hwynebu ers ei sefydlu. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i etifeddiaeth Covid a Brexit, yr amgylchedd economaidd anwadal, effaith


yr argyfwng costau byw ar ein staff a'n preswylwyr, a'r galw cynyddol ar ein gwasanaethau.

Yn 2023/2024, yn erbyn cefndir amgylchiadau digynsail ac ansicr, cyflwynodd ein sefydliad gynllun blynyddol o fewn cyd-destun tair blynedd. Ni fu’n bosibl i ni gyflawni'r lefel o arbedion cylchol a nodwyd gennym yn ein cynllun ar gyfer 2022/2023 na lliniaru pwysau cost cynyddol.

Mae cyflawni cynllun ariannol 2023/24 wedi bod yn heriol a bydd y gwaith o gyflawni Cynllun Blynyddol 2024/25 yn parhau â’n hymgyrch i ddarparu rhaglen cynaliadwyedd ariannol gadarn a gwario mwy o arian ar atal yn unol â'n strategaeth, mewn amgylchedd gweithredol ac ariannol sy’n parhau i fod yn anodd iawn.


Hysbyswyd y Cynllun Blynyddol gan ein Bwriadau Comisiynu (fel y'u crynhoir yn y diagramau isod). Cafodd y Bwriadau Comisiynu ar gyfer 2024-2027 eu llywio gan y Clwstwr Gofal Sylfaenol a'r Cynlluniau Traws-Glwstwr, ar y cyd ag asesiadau anghenion poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg ac asesiadau Lles y ddwy ardal awdurdod lleol i sicrhau ein bod yn cyflawni canlyniadau sy'n bwysig i'n poblogaeth. Mae'r rhain yn amlygu anghenion iechyd penodol ein poblogaeth ac yn cael eu hategu gan y proffiliau anghenion ar gyfer ein tair ardal leol. Mae'r Bwriadau Comisiynu yn ffurfio'r bont rhwng ein strategaeth 10 mlynedd a'n CTCI trwy barhau i amlinellu ein hamcanion strategol ond hefyd edrych tuag at flaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer ein sefydliad. Cytunodd y Bwrdd ar ein bwriadau comisiynu ym mis Gorffennaf 2023 ac fe'u diweddarwyd ochr yn ochr â’r gwaith o ddiwygio ein strategaeth.

## Diagramau yn dangos crynodeb o'n Bwriadau Comisiynu






Yn yr un modd, mae ein Cynllun Blynyddol yn ymateb i ofynion comisiynu ein byrddau iechyd cyfagos a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC) ar gyfer y gwasanaethau arbenigol a thrydyddol rydym yn eu darparu ar gyfer eu poblogaethau a'u cleifion.



Mewn ymateb i Gynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o Amodau Atebolrwydd sydd angen eu bodloni ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i egwyddorion datblygu cynaliadwy "Pum Ffordd o Weithio" Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (fel a ganlyn) fod yn ganolog i ddull gweithredu'r Bwrdd Iechyd.

## “Pum Ffordd o Weithio”



### Hirdymor

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a’r angen am ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd



### Integreiddio

Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o’r nodau llesiant, ar bob un o’u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff chyoeddus eraill



### Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu



### Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu’r corff i fodloni ei amcanion llesiant



### Atal

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion

## 3.4 Arfarnu ac Asesu Perfformiad

Nodweddwyd perfformiad cyffredinol y Bwrdd Iechyd gan nifer o welliannau mewn mynediad ac ansawdd mewn perthynas â llwybrau iechyd brys ac argyfwng, arbenigol a meddyliol ochr yn ochr â heriau parhaus mewn gwasanaethau gofal a gynllunnir. Mae cyflawni gwelliannau, er gwaethaf effaith cyfnodau parhaus a sylweddol o weithredu diwydiannol, yn rhoi sicrwydd bod y sefydliad yn symud ymlaen tuag at ei amcanion, er bod hynny ar gyfradd arafach na'r bwriad gwreiddiol. Mae heriau ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn enwedig mewn perthynas â phwysau ar y gweithlu a gostyngiad mewn capasiti gofal cymdeithasol, wedi bod yn anodd iawn eu goresgyn. Er mwyn lliniaru'r rhain cystal â phosibl, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio cadw ein ffocws ar ansawdd a gonestrwydd bob amser.

Er mwyn asesu ein perfformiad, rydym wedi adolygu ein huchelgeisiau cyflawni a amlinellwyd yn ein cynllun blynyddol. Mae Ffigur 1 yn rhoi darlun lefel-uchel o gyflawniad yn erbyn rhai o'r uchelgeisiau perfformiad allweddol a osodwyd gennym eleni. Lle na chyflawnwyd yr uchelgais, gellir dod o hyd i esboniad pellach o'r perfformiad yn yr adran Dadansoddi Darpariaeth a Pherfformiad.

Mae angen rhagor o waith ar y mesurau sy'n weddill, yn enwedig mewn perthynas â pherfformiad gofal cynlluniedig, a'u cynnwys fel blaenoriaethau diwygiedig yn ein cynllun blynyddol ar gyfer 2024/25.

## 3.5 Tueddiadau Perfformiad Ariannol

Mae gan y bwrdd iechyd rwymedigaeth statudol i aros o fewn ei adnoddau ar fesur treigl tair blynedd.

Ar ôl nifer o flynyddoedd o ddiffyg, llwyddodd y bwrdd iechyd i fodloni'r gofyniad hwn ar ddiwedd 2021-22.

Ni chyrhaeddwyd y targed yn 2022-23 wrth i'r cyllid pandemig Covid ostwng ar adeg pan roedd yn rhaid i'r bwrdd iechyd ymdopi â phwysau chwyddiant a phwysau systemau, a achoswyd yn rhannol gan etifeddiaeth y pandemig Covid-19.

Ni chyflawnwyd y targed eto yn 2023-24 o ganlyniad i'r pwysau sylweddol a wynebodd y bwrdd iechyd yn ystod y flwyddyn wrth iddo barhau i ddarparu gwasanaethau o ôl troed gweithredol a oedd yn dal i fod wedi'i gynllunio'n bennaf i fynd i'r afael â gofynion Covid a rheoli heintiau.

Mae datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru 2023-24.

Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y llawlyfr hwnnw yn dilyn Llawlyfr Adrodd Ariannol 2023-24 (FReM) yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006, i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r GIG yng Nghymru.


Mae'r Llawlyfr Cyfrifon yn ei gwneud yn glir y dylid paratoi cyfrifon ar sail busnes hyfyw lle rhagwelir y bydd gwasanaeth yn parhau yn y dyfodol. Mae'r dybiaeth wedi'i gwneud y bydd gwasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i weithredu. O ganlyniad, mae'r sail busnes hyfyw wedi'i mabwysiadu

## Perfformiad yn erbyn y ddyletswydd mantoli ariannol 3 blynedd

| | Gwarged / (diffyg) sefyllfa diwedd blwyddyn £'m | Gwarged / (diffyg) dyletswydd mantoli 3 blynedd treigl £'m | Pasio neu fethu dyletswydd ariannol |
|---|---|---|---|
| 2014/15 | (21.364) | dd/b | dd/b |
| 2015/16 | 0.068 | dd/b | dd/b |
| 2016/17 | (29.243) | (50.539) | Methu |
| 2017/18 | (26.853) | (56.028) | Methu |
| 2018/19 | (9.872) | (65.968) | Methu |
| 2019/20 | 0.058 | (36.667) | Methu |
| 2020/21 | 0.090 | (9.724) | Methu |
| 2021/22 | 0.232 | 0.380 | Pasio |
| 2022/23 | (26.789) | (26.467) | Methu |
| 2023/24 | (16.404) | (42.961) | Methu |

**Perfformiad Adnoddau Refeniw**

| | 2019-20 £'000 | 2020-21 £'000 | 2021-22 £'000 | 2022-23 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau gweithredu net am y flwyddyn** | 1,043,916 | 1,220,369 | 1,228,135 | 1,309,705 | 1,388,556 |
| Tynnu gwariant gwasanaethau offthalmig cyffredinol a gwariant heb derfyn arian parod arall | (17,276) | (13,386) | (14,237) | (13,361) | (13,794) |
| Tynnu canlyniadau refeniw heb eu hariannu o ddod â chynlluniau MCP i SoFP | (1,028) | (1,028) | (222) | (222) | (222) |
| Cyfanswm y gwariant gweithredol | 1,025,612 | 1,205,955 | 1,213,676 | 1,296,122 | 1,374,540 |
| Dyrannu Adnoddau Refeniw | 1,025,670 | 1,206,045 | 1,213,908 | 1,269,333 | 1,358,136 |
| **Tanwariant/Gorwariant yn erbyn Dyraniad** | **58** | **90** | **232** | **(26,789)** | **(16,404)** |




## Terfyn Adnoddau Cyfalaf

Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i ymdopi o fewn ei ddyraniad Adnoddau Cyfalaf blynyddol trwy reolaeth ragweithiol Grŵp Rheoli Cyfalaf y bwrdd iechyd sy'n goruchwylio cynigion cyfalaf a chynnydd ar brosiectau cyfalaf mawr i ystwytho cynlluniau gwariant yn briodol a defnyddio dyraniad cyfalaf bob blwyddyn yn effeithiol.


| | Terfyn Adnoddau Cyfalaf | Gwarged / (diffyg) sefyllfa diwedd blwyddyn wirioneddol £'000 | Gwarged / (diffyg) dyletswydd mantoli 3 blynedd treigl £'000 | Pasio neu fethu dyletswydd ariannol |
|---|---|---|---|---|
| 2021/22 | 70,989 | 41 | 233 | Pasio |
| 2022/23 | 55,410 | 88 | 233 | Pasio |
| 2023/24 | 45,603 | 72 | 201 | Pasio |


## Perfformiad Taliadau’r Sector Cyhoeddus

Cyflawnodd yr BIP ei darged perfformiad sector cyhoeddus yn 2023-24 a pharhaodd i wella ei gydymffurfiad taliadau'r GIG o fewn y lefel gyffredinol hon o berfformiad.

| Perfformiad Taliadau'r Sector Cyhoeddus | 2019-20 Nifer | 2020-21 Nifer | 2021-22 Nifer | 2022-23 Nifer | 2023-24 Nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y GIG** | | | | | |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd | 8,216 | 7,488 | 6,314 | 7,864 | 7,305 |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed | 6,401 | 6,169 | 5,072 | 6,684 | 6,353 |
| Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed | 77.9% | 82.4% | 80.3% | 85.0% | 87.0% |
| **Y tu allan i'r GIG** | | | | | |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd | 305,232 | 286,413 | 306,094 | 362,856 | 313,943 |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed | 292,518 | 275,422 | 284,850 | 345,405 | 303,193 |
| Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed | 95.8% | 96.2% | 93.1% | 95.2% | 96.6% |
| **Cyfanswm** | | | | | |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd | **313,448** | **293,901** | **312,408** | **370,720** | **321,248** |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed | **298,919** | **281,591** | **289,922** | **352,089** | **309,546** |
| Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed | **95.4%** | **95.8%** | **92.8%** | **95.0%** | **96.4%** |

| Perfformiad Taliadau'r Sector Cyhoeddus | 2019-20 £000 | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 | 2022-23 £000 | 2023-24 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y GIG** | | | | | |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd | 233,809 | 275,720 | 299,775 | 344,958 | 362,462 |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed | 222,077 | 265,247 | 286,700 | 336,633 | 351,782 |
| Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed | 95.0% | 96.2% | 95.6% | 97.6% | 97.1% |
| **Y tu allan i'r GIG** | | | | | |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd | 646,369 | 786,048 | 880,894 | 1,024,980 | 1,033,511 |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed | 621,255 | 758,016 | 842,548 | 980,609 | 994,919 |
| Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed | 96.1% | 96.4% | 95.6% | 95.7% | 96.3% |
| **Cyfanswm** | | | | | |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd | **880,178** | **1,061,768** | **1,180,669** | **1,369,938** | **1,395,973** |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed | **843,332** | **1,023,263** | **1,129,248** | **1,317,242** | **1,346,701** |
| Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed | **95.8%** | **96.4%** | **95.6%** | **96.2%** | **96.5%** |





Perfformiad Taliadau'r Sector Cyhoeddus £'000
100.0%
99.0%
98.0%
97.0%
96.0%
95.0%
94.0%
93.0%
2019-20
2020-21
2021-22
2022-23
2023-24
Y GIG
Y tu allan i'r GIG
Cyfanswm

Ffigur 1 – Perfformiad ciplun yn erbyn rhai uchelgeisiau allweddol



### 3.6 Dadansoddi Darpariaeth a Pherfformiad

### 3.6.1 Dadansoddiad Perfformiad Gweithredol

### Gofal Brys ac Argyfwng

Mae ein ffocws ar Ofal Brys ac Argyfwng wedi arwain at rai gwelliannau sylweddol mewn gwasanaethau allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi parhau i ddefnyddio ein Bwrdd Cyflawni 6 Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng i weithredu newidiadau a arweinir yn glinigol ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae ein dull o ymdrin â'r gwaith hwn yn cwmpasu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, acíwt a thrydyddol. Mae timau gofal sylfaenol a chymunedol yn parhau i fod yn sylfaen i'n system gofal brys ac argyfwng. Yn ystod 2023/24 cyflawnodd y Bwrdd Iechyd dros 225,000 o ymweliadau nyrsio ardal sydd wedi helpu i gefnogi ein cleifion i gael gofal yn eu man preswyl arferol. Mae ein timau cymunedol wedi cynyddu'r opsiynau mynediad sydd ar gael i'n cleifion. Mae hyn wedi cynnwys lansio ein cynllun peilot Diogel Gartref, sef gwasanaeth ymateb brys integredig amlasiantaethol ac amlbroffesiynol newydd sy'n anelu at gynnig dewis amgen di-oed a diogel i gludiant ambiwlans, Unedau Achosion Brys a derbyniadau i'r ysbyty lle bo hynny'n ddiogel ac yn briodol. Mae'r tîm yn cynnwys Meddygon Teulu, ymarferwyr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Nyrsys, Therapyddion a Gweithwyr Cymorth.

Rydym wedi parhau i gefnogi gofal sylfaenol drwy ehangu Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (CGSB). Mae'r canolfannau hyn wedi darparu capasiti ychwanegol gwerthfawr i helpu i wella mynediad i gleifion ac i leddfu'r pwysau ar feddygfeydd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC). Erbyn hyn mae dros 1100 o apwyntiadau CGSB ar gael bob wythnos yng Nghaerdydd a'r Fro, gydag 86% o feddygfeydd yn cael mynediad uniongyrchol. Mae mynediad at ofal sylfaenol a chymunedol hefyd wedi parhau i esblygu trwy gyflwyno GIG 111 a pharhau i ddarparu ein gwasanaeth Caerdydd a'r Fro 24/7. Mae nifer y galwadau i wasanaeth Tu Allan i Oriau (TAO) Caerdydd a'r Fro wedi cynyddu gyda chyfartaledd o dros 15,100 y mis.

Fel System Iechyd, rydym wedi wynebu pwysau tebyg i rannau eraill o Gymru, gyda her benodol wrth ryddhau cleifion a sicrhau bod y gweithlu Gofal Cymdeithasol a chefnogaeth gymunedol ar gael i gleifion nad oes angen gofal ysbyty acíwt arnynt mwyach. Mae gweithio gyda phartneriaid ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi parhau i fod o'r pwysigrwydd sefydliadol uchaf. Mae gweithio mewn partneriaeth wedi'i wreiddio drwy'r Bwrdd Iechyd ac mae'n cynnwys cyfarfodydd gweithredol dyddiol gyda'r Awdurdod Lleol a Gwasanaethau Rhyddhau Integredig. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gennym 221 o gleifion a oedd wedi gweld oedi wrth drosglwyddo o'r ysbyty.

Roedd 2023/24 yn flwyddyn pan gyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ymrwymiad i ddechrau trawsnewid y gofal a ddarparwn yn ein Hadran Achosion Brys. Cynhaliwyd rhaglen ad-drefnu yn yr adran, gan ddarparu capasiti ychwanegol mewn brysbennu, pobl ifanc a phediatreg a darparu lle ar gyfer cyflwyno Unedau Penderfyniadau Clinigol ar gyfer oedolion a phlant. Er bod llawer o welliannau i'w


gwneud o hyd, bydd y newidiadau hyn yn sail i'n hymrwymiad parhaus i drawsnewid profiad cleifion o fewn ein system gofal brys ac argyfwng.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i fod yn berfformiwr cadarnhaol unigryw yng Nghymru mewn perthynas â pherfformiad trosglwyddo ambiwlansys. Ni yw'r unig Fwrdd Iechyd o hyd i beidio â chael unrhyw gleifion yn aros mwy na 4 awr mewn ambiwlans, a gostyngodd ein munudau colledig cyfartalog fesul derbyniad o 30 munud yn 2022/23 i 22 munud yn 2023/24. Mae'r gwelliannau hyn wedi'u cyflawni drwy ymateb system-gyfan, ond gydag arweinyddiaeth glinigol sylweddol gan dimau. Er y gwelliant hwn, rydym yn canolbwyntio ar leihau'r arosiadau hyn ymhellach yn ogystal â gwella profiad cleifion trwy leihau'r amser y mae'n ei gymryd i'w hasesu a'u trin neu eu derbyn yn ein hadran achosion brys. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan ein bod yn gwybod bod nifer y cleifion sy'n aros dros 12 awr cyn cael eu derbyn neu ryddhau yn dal yn llawer uwch na'r safon a ddisgwylir.


Mae osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty wedi bod yn ffocws dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae cynnydd wedi'i gyflawni drwy barhau i ddarparu ein Hunedau Gofal Brys yr Un Diwrnod (GBUD) 7-diwrnod a wardiau rhithwir.

Mae ein perfformiad yn rhai o'r prif lwybrau argyfwng, fel strôc a thoriadau clun, wedi bod yn llwyddiant mawr yn 2023/24.  Mae Ffigurau 2 a 3 yn dangos y gwelliannau yng % y dioddefwyr strôc sy'n cael eu derbyn i'r ward strôc o fewn 4 awr a % y cleifion sy'n derbyn sgan CT o fewn 1 awr.

Ffigur 2 – Derbyn i'r Ward Strôc o fewn 4 awr





Ffigur 3 – Cleifion strôc sy'n cael sgan CT o fewn 1 awr




Mae Ffigur 4 yn dangos y gwelliant sydd wedi'i wneud i sicrhau bod cleifion sydd wedi torri eu clun yn cael eu derbyn i'r ward o fewn 4 awr. Mae'r graff yn dangos bod ein gwelliant mewn perfformiad bob mis yn golygu ein bod yn llawer gwell na'r cyfartaledd o blith yr ysbytai sy'n perfformio orau ledled y DU yn y mesur hwn.

Ffigur 4 – Cleifion clun sy’n cael eu derbyn i'r ward o fewn 4 awr




## Canser

Mae perfformiad o fewn y Gwasanaethau Canser wedi bod yn gwella'n raddol o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae atgyfeiriadau wedi cynyddu 8% eleni o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Er nad ydym wedi cyflawni ein huchelgais o gael 75% o gleifion wedi’u trin o fewn 62 diwrnod, fe wnaethom gyflawni ein perfformiad gorau erioed o 70.2% o gleifion yn ystod mis Rhagfyr 2023. Ers mis Ionawr 2024 rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros dros 62 a 104 diwrnod am driniaeth, yn ogystal â gostyngiad ym maint cyffredinol y rhestr aros.  Mae ein dull o gyflawni'r gwelliannau hyn wedi'i alinio â'r llwybrau canser cenedlaethol. Mae'r tîm

Canser wedi rhannu ein hadroddiadau perfformiad yn ôl cam llwybr sydd wedi sbarduno gwelliannau o ran yr amser cyn apwyntiadau cleifion allanol cyntaf a'r amser cyn diagnosteg, yn ychwanegol at y cynnydd a wnaed wrth leihau yr ôl-groniad o gleifion dros 62 a 104 diwrnod.

## Gofal wedi'i Gynllunio a Diagnosteg


Rydym wedi gweithio'n galed i leihau ein rhestrau aros ar draws gofal wedi'i gynllunio. Gwnaed gwelliannau er gwaethaf y pwysau gweithredol heriol ar draws y Gwasanaeth Iechyd a'r gweithredu diwydiannol digynsail. Mae ein darpariaeth newid gwasanaeth wedi cael ei harwain drwy ein rhaglen gofal wedi'i gynllunio ac mae hyn yn cynnwys gweithio rhanbarthol agos ledled De-ddwyrain Cymru mewn arbenigeddau fel Offthalmoleg, Orthopaedeg ac Endosgopi. Mae cyfanswm nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth ar restr aros Atgyfeirio am Driniaeth wedi cynyddu i 147,620 ym mis Mawrth 2024. Un o'r blaenoriaethau gweinidogol allweddol oedd lleihau nifer y cleifion oedd yn aros dros 2 flynedd am driniaeth. Bu'n bosibl i'r Bwrdd Iechyd gwrdd â'r safon o gael llai na 3% o'r rhestr aros yn aros dros 2 flynedd ym mis Rhagfyr. Gwnaethom gynnydd pellach dros y gaeaf, gan leihau hyn i lai na 2% ym mis Mawrth. Roedd hyn yn golygu bod gennym 2681 o gleifion yn aros ar restrau aros Atgyfeirio am Driniaeth am dros ddwy flynedd ac er ein bod yn falch o leihau nifer yr arbenigeddau sy'n adrodd yr arosiadau hir hyn o 14 i 7 dros y flwyddyn, gwyddom fod cleifion yn dal i aros yn rhy hir ac rydym yn parhau i wneud hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Er gwaethaf ein gostyngiadau mewn cleifion sy'n aros yn hir iawn (dros 2 flynedd), mae nifer y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos am driniaeth wedi cynyddu i 31,124. Mae hyn oherwydd cyfuniad o alw cynyddol, pwysau gweithredol, gweithredu diwydiannol a ffocws ar y cleifion sy'n aros yn hir iawn.


Yn ein clinigau cleifion allanol rydym wedi bod yn pryderu am y nifer uchel o gleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol. Rydym yn gwybod bod risg glinigol bosibl o fewn y garfan hon o gleifion ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed i wella'r sefyllfa. Mae gan bob apwyntiad dilynol ddyddiad targed. Ym mis Ebrill 2024 roedd dros 54,000 o gleifion wedi aros dros ddwywaith cyhyd â'u dyddiad targed. Mae'r nifer hwn wedi gostwng i 28,000 ym mis Mawrth 2024. Er ei bod yn dal yn llawer rhy uchel, mae yna ymdrech ar y cyd i leihau'r holl oedi o ran apwyntiadau dilynol yn ystod 2024/25.

Mae rhagor o fanylion am y gwelliannau a wnaed i leihau amseroedd aros i'w gweld yn ffigyrau 5, 6, a 7 isod.


Ffigur 5 - nifer y cleifion sy'n aros mwy na 52 wythnos am apwyntiad cleifion allanol newydd




Ffigur 6 - nifer y cleifion â chyfanswm arhosiad o fwy na dwy flynedd





Ffigur 7 - nifer y cleifion â chyfanswm arhosiad o fwy na thair blynedd




Rydym wedi parhau â'n ffocws ar Wasanaethau Plant, gan roi sylw arbennig i'r effaith anghymesur y gall amseroedd aros hir ei chael ar ddatblygiad plentyn a'r cyfle i fyw bywyd iach. Mae nifer y plant ar restr aros Atgyfeirio am Driniaeth wedi gostwng o 11,442 ym mis Mawrth 2023 i 10,697 ym mis Mawrth 2024.


Mae diagnosteg yn rhan sylfaenol o'r llwybr gofal a gynllunnir, ac mae ein perfformiad cyffredinol yn y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn is na'r safonau yr ydym wedi dyheu amdanynt. Mae Ffigur 8 yn dangos bod cyfanswm y cleifion sy'n aros dros 8 wythnos am brawf diagnosteg wedi cynyddu'n sylweddol, gan gyrraedd uchafbwynt o dros 14,000. Nid yw hwn wedi bod yn ddarlun cyffredinol gyda gwelliannau mewn arosiadau 8 wythnos ar gyfer Ecocardiogramau, tapiau Holter, Angiogramau a sganiau CT. Y prif ysgogwyr ar gyfer y cynnydd mewn arosiadau diagnostig fu MRI ac Uwchsain anobstetrig gyda'r olaf yn cyfrif am bron i hanner cyfanswm ein toriadau 8 wythnos a adroddwyd. Yn ogystal â'r rhain, mae capasiti Endosgopi wedi canolbwyntio ar gleifion gwyliadwriaeth Canser, Brys ac arosiadau hir ac effaith hyn yw dirywiad yn nifer yr arosiadau 8 wythnos ar gyfer colonosgopi, sigmoidosgopi hyblyg a gastrosgopi.

Ffigur 8 – Arosiadau Diagnostig




Mae Ffigur 9 yn dangos y gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros mwy na 14 wythnos am therapïau, sydd wedi cynyddu o 952 ym mis Mawrth 2023 i 1337 ym mis Mawrth 2024.

Ffigur 9 - Arosiadau therapi >14 wythnos




## Iechyd Meddwl

Mae'r galw am Wasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion a Phlant wedi parhau i fod yn uchel, er enghraifft mae atgyfeiriadau i wasanaethau oedolion unwaith eto wedi cynyddu dros 10% ar y flwyddyn flaenorol a dros 40% ar lefelau 2020.

Yn Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant rydym wedi bodloni'r safon asesu 28 diwrnod i raddau helaeth ond yn gyson wedi syrthio'n is na'r safon ymyrraeth 28 diwrnod. Mae ein heriau yn gyfuniad o bwysau gweithlu a galwadau cynyddol ac mae ein timau wedi nodi llwybr gwella i leihau'r arosiadau hyn yn ystod 2024/25.


Ffigur 10 – Perfformiad Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant





Mae gwasanaethau niwroddatblygiadol yn darparu asesiad amlddisgyblaethol, ymyrraeth, gwybodaeth a chyngor i blant a phobl ifanc a allai fod ag anhwylder niwroddatblygiadol, a'u teuluoedd.  Ers dechrau'r pandemig mae'r atgyfeiriadau at y gwasanaethau hyn wedi cynyddu'n sylweddol ac arweiniodd hyn at gleifion yn aros am amser hir i gael eu hasesu. Mae ein timau wedi gweithredu nifer o welliannau yn 2023 sydd wedi helpu i leihau nifer cyffredinol y cleifion sy'n aros, ac mae gennym gynlluniau i leihau'r arosiadau hir yn 2023/24 ond mae'r rhain yn sylweddol o hyd.

Yn y gwasanaethau oedolion, rydym wedi cyflawni'n gyson ar y safonau asesu ac ymyrraeth 28 diwrnod. Nid yw'r ddarpariaeth hon wedi bod heb rai heriau gan fod y cynnydd yn y galw wedi achosi amrywiadau mewn perfformiad.

Ffigur 11 – Safon asesu 28 diwrnod oedolion




Ffigur 12 – Safon ymyrraeth 28 diwrnod oedolion




Mae gwasanaethau Anhwylderau Bwyta Oedolion a Phediatrig wedi gweld gostyngiad ym maint eu rhestrau aros a nifer yr wythnosau aros ar gyfer eu cleifion sy'n aros hiraf. Mae gwasanaethau Therapi Seicolegol wedi gweld gostyngiad yn nifer y cleifion ar eu rhestrau aros, a gostyngiad yng nghyfran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos am apwyntiad.

Ar ddiwedd 2023 gwelwyd y Bwrdd Iechyd yn ehangu'r defnydd o GIG 111 drwy lansio ein llinell Iechyd Meddwl sy'n darparu cymorth arbenigol a blaen-gyfeirio i gleifion a fyddai'n elwa o gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol neu eilaidd. Yn ystod 2023/24 mae nifer y galwadau wedi cynyddu gyda dros 200 o alwadau'r wythnos yn cael eu derbyn ym mis Mawrth 2024.

## Gofal Sylfaenol a Chymunedol wedi'i Gynllunio

Mae Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol wedi parhau dan bwysau sylweddol yn ystod 2023/24 ac mae hyn wedi'i nodweddu gan gynnydd yn nifer y meddygfeydd

sy'n adrodd lefelau uwchgyfeirio uchel. Er gwaethaf y pwysau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i flaenoriaethu'r ddarpariaeth o wasanaethau yn y gymuned fel rhan o'n hymgyrch i ddarparu gofal yn nes at y cartref i gleifion. Mae rhai mesurau perfformiad allweddol yn cynnwys:

- 98% o'r holl fferyllfeydd cymunedol cymwys yn darparu Gwasanaethau Fferylliaeth Gymunedol Glinigol
- Cynnydd o 32% yn nifer yr ymgynghoriadau a ddarperir yn annibynnol gan fferyllfeydd
- 98% o feddygfeydd yn cyflawni'r safonau mynediad craidd (mewn oriau)
- Cyflawniad 139% yn erbyn y safon apwyntiadau cleifion newydd mewn Deintyddiaeth
- Gostyngiad mewn atgyfeiriadau o optometreg i ofal eilaidd o 25%

## 3.7 Dadansoddiad Perfformiad Ansawdd

Mae ansawdd wrth wraidd popeth a wnawn - rhaid i'n gwasanaethau fod yn ddiogel i'n cleifion a darparu profiad a chanlyniadau da i gleifion. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gennym bwyslais allweddol ar ansawdd yn y gwasanaethau a ddarparwn ac rydym yn creu diwylliant sy'n ymrwymedig i ddysgu a datblygiad sefydliadol parhaus drwy fesur arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gyflawni gwelliannau amlwg mewn gofal cleifion.

### Archwiliad Clinigol

Mae BIP Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i ddarparu archwiliad clinigol effeithiol yn yr holl wasanaethau clinigol y mae'n eu darparu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried archwiliad clinigol yn hanfodol i esblygu, datblygu a chynnal gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf yn barhaus. Mae'r sefydliad wedi mabwysiadu polisi ar lywodraethu ac ymarfer archwilio clinigol, sy'n berthnasol i'r holl staff. Bydd cyflawni'r amcanion a nodir yn y strategaeth hon yn sicrhau bod polisi'r BIP yn cael ei weithredu ac yn effeithiol, gan arwain at welliannau parhaus i ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion.


Yn 2022 cyhoeddodd y BIP strategaeth archwilio clinigol tair blynedd. Nod y strategaeth hon yw defnyddio archwiliad clinigol fel proses i sicrhau ansawdd clinigol ar bob lefel o'r sefydliad dros y tair blynedd nesaf. Mae blaengynllun archwilio clinigol y BIP yn cynnwys pob archwiliad clinigol cenedlaethol gorfodol yn ogystal ag archwiliadau clinigol Haen 2 a gynhelir i gefnogi sicrwydd a llywio gwelliant ansawdd sy'n ymwneud ag ansawdd a Diogelwch Cleifion. Mae'r blaengynllun Archwilio Clinigol yn rhaglen dreigl sy'n esblygu ac yn newid trwy gydol y flwyddyn. Cyflwynwyd cynlluniau archwilio clinigol 2023-24 ar gyfer pob Bwrdd Clinigol i bwyllgor Archwilio BIP ym mis Hydref 2023 a chyflwynir canlyniadau Archwilio Clinigol Cenedlaethol i'r Pwyllgor Diogelwch a Phrofiad Ansawdd bob dwy flynedd drwy Bwyllgor Effeithiolrwydd Clinigol BIP.

### Mentrau Gwella Ansawdd

Mae gwella ansawdd parhaus yn elfen sylfaenol o weithrediad Dyletswydd Ansawdd yn y bwrdd iechyd. Mae mentrau gwella ansawdd yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys rhaglenni archwilio clinigol, hyfforddiant a datblygiad staff, mecanweithiau adborth cleifion, a phrosiectau ailgynllunio gwasanaeth sydd â'r nod o optimeiddio canlyniadau a phrofiadau cleifion.

Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn derbyn adroddiadau Dangosyddion Ansawdd rheolaidd, sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Dyletswydd Ansawdd a Gofal Diogel.  Mae'r adroddiadau hyn yn ymdrin ag adrodd ar ddigwyddiadau, marwolaethau, canlyniadau mamolaeth, rheoli heintiau, amseroedd trosglwyddo ambiwlansys, profiad cleifion, cydymffurfiaeth llwybr strôc, gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd, anghydraddoldebau iechyd, ac ystadegau pryderon ac adborth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r diagram isod yn dangos Strwythur y Pwyllgor a’r Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.




Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith fod gwaith yn parhau ar weithredu'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol nad yw wedi'i derfynu eto. Bydd y pwyllgor yn darparu trosolwg lefel uwch o ddysgu a nodwyd gan sicrhau ei fod yn gadarn ac yn gynaliadwy yn ogystal â darparu cefnogaeth lefel uwch i ddysgu ar draws y Bwrdd Iechyd.   Bydd y Pwyllgor Dysgu Sefydliadol yn cipio dysgu o adborth cleifion a staff,  canmoliaeth, digwyddiadau, cwynion, achosion unioni, achosion Ombwdsmon, honiadau, ymchwiliadau, archwiliadau lleol a chenedlaethol, adroddiadau AGIC a data

Tendable.  Bydd y Pwyllgor Dysgu Sefydliadol yn gweithio gyda'r tîm Arloesi a Gwella, prifysgolion, a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Nodir rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'n mentrau gwella ansawdd yn ein hadroddiad Dyletswydd Ansawdd ar gyfer 2023-2024.

## Enghreifftiau Gwella Ansawdd ar gyfer 2023-2024

### Hunanladdiad a Hunan-niweidio




- Mae'r Hyfforddiant Lliniaru ac Ymwybyddiaeth Hunanladdiad yn parhau i gael ei gyflwyno y tu hwnt i'r gwasanaethau cleifion mewnol iechyd meddwl ac i wasanaethau cymunedol Iechyd Meddwl. Mae trafodaethau ar y gweill ynghylch y potensial i gynnig hyfforddiant y tu allan i'r Bwrdd Clinigol iechyd meddwl a beth fyddai'r trefniadau o ran llywodraethu hynny.
- Mae'r Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl wedi sefydlu Grŵp Gweithredu Hyfforddiant Hunanladdiad i oruchwylio a chefnogi'r broses gyflwyno. Mae'r grŵp hwn bellach yn cynnwys cynrychiolaeth o Brofiad Byw.
- Mae Cyfarwyddwr Nyrsio y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl wedi cael y dasg o sefydlu is-grŵp Hunanladdiad a Hunan-niwed i'r Grŵp Diogelwch Clinigol.

### Atal Cwympiadau

#### Cymuned

- Mae'r gwaith o hyrwyddo Llwybr Atal Cwympiadau Cymunedol i bartneriaid mewn gofal sylfaenol, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn parhau.
- Hyrwyddir negeseuon a gwasanaethau Atal Cwympiadau ar ein cyfryngau cymdeithasol a sianeli cyfathrebu staff
- Elderfit - cyhoeddwyd astudiaeth achos ar wefan y BIP
- Wythnos Atal Cwympiadau – Ymarfer 'safle trosedd' atal cwympiadau fel yn y lluniau isod

- Rhaglen gymunedol 'Heneiddio'n Dda' yn cael ei datblygu gyda Fforwm Cyd-gynhyrchu'r bwrdd iechyd sy'n cynnwys partneriaid o iechyd, gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector.

- Datblygwyd cerdyn 'Sgwrs Dosturiol' ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd er mwyn hwyluso sgyrsiau am gwympo ac atal cwympiadau.
- Cyrsiau FaME wedi'u darparu gan Elderfit yn Hybiau Cyngor Caerdydd fel yn y lluniau isod








### Cleifion mewnol

- Cyflwyno Hyfforddiant Atal a Rheoli Cwympiadau ar gyfer staff clinigol ar draws Meddygaeth.
- Adolygiad o wahanol dechnolegau canfod cwymp a threialu 2 gynnyrch gwahanol ar draws 2 leoliad ward gwahanol yn Ysbyty Athrofaol Llandochau ac Ysbyty Dewi Sant.

### Atal Hunanladdiad:

- Mae'r Hyfforddiant Lliniaru ac Ymwybyddiaeth Hunanladdiad yn parhau i gael ei gyflwyno y tu hwnt i'r gwasanaethau cleifion mewnol iechyd meddwl ac i wasanaethau cymunedol Iechyd Meddwl.

- Mae’r Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl wedi sefydlu Grŵp Gweithredu Hyfforddiant Hunanladdiad i oruchwylio a chefnogi'r broses gyflwyno. Mae'r grŵp hwn bellach yn cynnwys cynrychiolaeth o Brofiad Byw.

**Gwella Gofal Diwedd Oes:**

- Mae addysg yn parhau ledled y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys darpariaeth gan ein gwasanaethau comisiynedig City Hospice a Marie Curie i dimau nyrsio cymunedol a chartrefi nyrsio. Darparodd Nyrsys Clinigol Arbenigol gofal lliniarol arbenigol ysbytai dros 100 awr o addysg ffurfiol yn 23-24 gan gynnwys pynciau fel rheoli symptomau, Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd a Gofal Diwedd Oes, galar a cholled, cyfathrebu cymhleth a chynllunio rhyddhau cymhleth.
- Datblygu a chyflwyno proses safonol, strwythuredig ac adnoddau gwybodaeth ar gyfer gofalwyr anffurfiol sy'n cefnogi cleifion i fynd adref ar gyfer Gofal Diwedd Oes. Gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ddefnyddio’r broses hon i lywio'r sgyrsiau sydd eu hangen a'r ffordd y mae gofalwyr anffurfiol yn cael eu paratoi ar gyfer rhyddhau. Caiff ei theilwra i bob claf ac yna bydd yn mynd adref gyda'r claf i atgyfnerthu'r holl wybodaeth a thrafodaethau sydd wedi digwydd, ac mae'r adnodd gwybodaeth hefyd yn gweithredu fel offeryn cyfathrebu rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ysbytai a chymunedol.

## 3.8 Profiad y Claf



Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon yn unol â'n hamcanion strategol ac felly mae wedi ymrwymo i wella profiad y claf. Er bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i wneud yr hyn sy'n iawn i'n cleifion, mae adegau pan fyddwn yn cael pethau’n anghywir, ac mae'n hanfodol ein bod yn gwrando ar adborth pobl er mwyn dysgu. Mae "profiad y claf" yn crynhoi pob agwedd ar ein gofal clinigol ac anghlinigol gan gynnwys yr amgylchedd gofal, agwedd staff a chyfathrebu, gweithio mewn tîm, problemau mynediad, cymryd rhan mewn penderfyniadau am ddewisiadau triniaeth a'n gallu i fod yn ymatebol a datrys problemau'n gyflym. Mae hefyd yn ymwneud â thrin cleifion â gonestrwydd, urddas a pharch. Mae'n berthnasol ar draws yr holl wasanaethau a ddarperir i gleifion yn y Bwrdd Iechyd.


Defnyddir nifer o wahanol offer i gofnodi profiadau cleifion gan gynnwys;

- Arolygon amser real
- Arolygon ôl-weithredol

- Arolygon rhagweithiol/adweithiol

O dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 (a elwir yn Gweithio i Wella neu 'GiW'), mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu sicrwydd a thystiolaeth i gymuned a rhanddeiliaid y sefydliad yr ydym yn parhau i ddelio â nhw a dysgu o bryderon.

**<u>Monitro Perfformiad 2023-2024</u>**

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y cwynion a dderbyniwyd | Cyfanswm = 4,259<br>Ffurfiol = 2,136<br>Datrysiad Cynnar = 2,123 |
| Prif Themâu sy'n codi o Gwynion | 1. Pryderon ynghylch apwyntiadau (amseroedd aros/canslo)<br>2. Cyfathrebu<br>3. Triniaeth Glinigol ac Asesu |
| Canran y Cwynion ffurfiol yr ymatebwyd iddynt mewn 30 diwrnod gwaith (targed fframwaith Cyflawni'r GIG o 75%) |  |
| Digwyddiadau "byth"<br>Digwyddiadau a Adroddir yn Genedlaethol | 6<br>134 |
| Hawliadau Cyfreithiol a Gofrestrwyd | 130 o hawliadau newydd (Esgeulustod Clinigol ac Anaf Personol) |
| Ceisiadau Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n gofyn am ymateb pellach | 3 |
| Canmoliaethau a dderbyniwyd | 780 |

## 3.9 Adborth Cleifion

Adborth Cleifion 

Rydym wedi parhau i gasglu adborth gan gleifion sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn ystod 2023-2024, gyda rhywfaint o weithgarwch allweddol wedi'i restru isod;

- ✓ Tua 800 o negeseuon testun yn cael eu hanfon bob dydd i gasglu adborth am weithgareddau ysbyty
- ✓ 154,384 o negeseuon testun adborth wedi'u hanfon yn ystod y 12 mis diwethaf gyda chyfradd ymateb o 17%
- ✓ Mae 85% o'r bobl a holwyd yn hapus â'u profiad




Arolwg Dweud Wrthym Mewn 2

Beth rydym yn ei wneud?

- ✓ Mae posteri, sticeri ac arwyddion yn cael eu gosod o amgylch safleoedd ysbytai acwrth ar ochrau gwelyau sy'n arddangos cod QR, gan wahodd cleifion i rannu eu profiadau diweddar o'n gwasanaethau.
- ✓ Mae'r cod QR yn rhoi mynediad unigol i'r arolwg "Dweud Wrthym Mewn 2" - holiadur dienw 2-funud byr y gellir ei gwblhau yn Gymraeg neu'n Saesneg.
- ✓ Mae'r holiadur yn gofyn am farn agored a gonest am brofiadau cleifion fel y gall y Bwrdd Iechyd rannu canmoliaeth, arfer gorau neu awgrymiadau, i ddysgu o brofiadau a helpu i lunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.
- ✓ Mae'r cwmwl geiriau isod yn seiliedig ar y sylwadau a dderbyniwyd yn ein hadborth o'r arolwg Dweud Wrthym Mewn 2. Mae'r gwyrdd yn amlygu teimladau cadarnhaol a'r coch yn tynnu sylw at deimladau negyddol.


"well done"
vulnerable
"felt safe"
frustrating
outstanding
kindly
wonderful
anxious
welcoming
pleasant
fantastic
scared
stressful
delay
comfortable
eventually
wish
awful
supportive
amazing
compassionate
pleased
excellent
thanks
rude
delayed
frustrated
crying
nervous
kindness
friendly
happy
reassured
unacceptable
anxiety
lovely
"at ease"
terrible
superb
brilliant
impressed
"was kind"
reassuring
disgusting
exceptional
satisfied
compassion
difficulties
incredibly
"my concerns"

## Beth Ddwedoch Chi, Beth Wnaethom Ni, Mentrau ar gyfer 2023-2024

**PROBLEM**

❖ Ar ôl derbyn y diagnosis gofidus, ceisiais gysylltu dros y ffôn â'r adran i drafod ymhellach, ond methais â mynd drwodd i siarad â neb. Pam mae cyfathrebu mor wael?

**DATRYSIAD**

✓ Wedi cyflwyno cardiau cyswllt i bob meddyg ymgynghorol eu rhoi i gleifion fel bod ganddynt y rhif uniongyrchol ar gyfer eu hysgrifennydd a fydd hefyd â chyfleuster peiriant ateb os na allant ateb.



---

**PROBLEM**

❖ Pam nad oes mecanwaith ar waith i roi gwybodaeth i gleifion fel eu bod o leiaf yn ymwybodol bod problemau gan fy mod yn credu bod hyn yn anwybyddu pobl sydd eisoes mewn cyflwr gorbryderus.

**DATRYSIAD**

✓ Bydd yr Adran Offthalmoleg yn arddangos sgrin pe bai unrhyw oedi yn y dyfodol, bydd hyn ar gael yn y clinig i gleifion fod yn ymwybodol o'r amgylchiadau.



**PROBLEM**

❖ Thema aml i gleifion oedd y Diflastod o fod yn yr ysbyty.

**DATRYSIAD**

✓ Troli Llyfrgell Ddigidol - Trolïau llyfrgell sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr sy'n mynd o gwmpas y wardiau bob dydd gyda llyfrau, DVD a pheiriannau DVD, llyfrau posau, Gemau a gweithgareddau i Gleifion eu benthyca.





### 3.10 Datganiad Llesiant ac Adroddiad Blynyddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD) (Cymru)

Yn ystod 2023-24 gwnaethom adolygu a diweddaru ein hamcanion lles o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD), gyda'n hamcanion newydd yn adlewyrchu ein strategaeth hirdymor ddiwygiedig. Cyflawni ein strategaeth trwy ein cynlluniau CTCI a blynyddol a monitro trwy strwythurau perfformiad presennol yw ein mecanwaith ar gyfer cyflawni ein hamcanion lles.

Datblygwyd y strategaeth a'r amcanion yn dilyn ymgynghoriad helaeth ac adborth gan drigolion lleol, sefydliadau partner, a'n staff.  Mae'r strategaeth ei hun yn seiliedig ar egwyddorion atal a chyfranogi, ac rydym wedi gosod cerrig milltir clir hyd at 2035 ar gyfer gwella iechyd, lleihau anghydraddoldebau, a symud mwy o'n gwariant i fyny'r gadwyn tuag at atal.

### 3.11 Trefniadau Llywodraethu sy'n ymwneud â’r Ddeddf LlCD

Wrth i ni ddechrau gweithredu ein strategaeth ddiwygiedig, rydym hefyd wedi achub ar y cyfle i adolygu'r trefniadau llywodraethu mewnol ar gyfer cyflawni’r Ddeddf LlCD. Bydd gweithredu'r Ddeddf yn y BIP yn rhan o'r strwythur llywodraethu ar gyfer cyflawni'r Strategaeth Llunio ein Llesiant i’r Dyfodol. Bydd y byrddau sy'n gyfrifol am gyflawni pob amcan hefyd yn gyfrifol am un neu fwy o'r saith nod LlCD, fel y maent wedi’u mapio isod. Mae ein hamcanion hefyd yn cyd-fynd ag amcanion y ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yr ydym yn eistedd arnynt.

| Amcan lles / rhaglen strategol | Nod/nodau LlCD y mae'n gyfrifol amdanynt |
|---|---|
| Rhoi pobl yn gyntaf | Cymru lewyrchus<br><br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu |
| Darparu ansawdd rhagorol | Cymru iachach<br><br>Cymru fwy cyfartal |
| Cyflawni yn y lleoedd cywir | Cymru o gymunedau cydlynol |
| Gweithredu dros y dyfodol | Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang<br><br>Cymru gydnerth<br><br>Cymru lewyrchus |

Bydd y dull llywodraethu diwygiedig hwn yn cael ei weithredu o Ch1 2024/25, gydag arweinyddiaeth barhaus gan Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, a chyswllt â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol; y ddau yn rhan annatod o'n dull gweithredu.

Yn ardal y bartneriaeth, rydym yn cyfrannu at yr Asesiadau Lles a'r Cynlluniau Lles statudol (un ar gyfer Caerdydd; un ar gyfer y Fro) drwy gymryd rhan yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a chyflawni camau allweddol yn y cynlluniau, yn unigol ac ar y cyd â sefydliadau partner.

Wrth ddatblygu ein CTCI neu gynllun blynyddol, rydym yn plethu gofynion y Ddeddf drwy'r cynllun, ac mae ein prosesau gwneud penderfyniadau yn gofyn i ni ystyried goblygiadau'r ddeddfwriaeth wrth wneud ein penderfyniadau.

Mae atal wedi'i sefydlu trwy gydol ein gwaith, gydag ymyriadau iechyd cyhoeddus arbenigol ychwanegol yn cael eu disgrifio yn ein cynllun Iechyd Cyhoeddus Lleol. Yn Ch4 2023/24 dechreuom weithio ar gynllun iechyd cyhoeddus hirdymor newydd ar gyfer ein hardal, a fydd yn cael ei ddatblygu a'i gwblhau ymhellach yn ystod 2024/25, ar y cyd â phartneriaid allweddol.

## 3.12 Cynnydd yn Erbyn ein Hamcanion Lles

Gan mai ein hamcanion corfforaethol yw ein hamcanion lles, dangosir cynnydd yn erbyn ein hamcanion lles trwy ein hadroddiadau perfformiad arferol yn erbyn ein CTCI neu gynllun blynyddol, a'r strategaeth deng mlynedd. Gallwch ddarganfod mwy am ein perfformiad, a lle mae'n cael ei adrodd, yn adran Perfformiad yr adroddiad hwn.


## 3.13 Astudiaethau Achos ar gyfer yr 'Hirdymor' ac 'Atal'

Dysgu trwy 'Caru Cennin' - Ym mis Chwefror 2024, lansiodd Synnwyr Bwyd Cymru y fenter 'Caru Cennin', mewn cydweithrediad ag Instituto Maniva, Brasil, fel prosiect peilot i ennyn diddordeb plant gyda chynnyrch lleol trwy goginio a dysgu. Cyflwynwyd y prosiect, a ysbrydolwyd gan Tapiokit Instituto Maniva, i Ysgol Gynradd Pentre-baen yng Nghaerdydd, gan arddangos pwysigrwydd cennin yn niwylliant a maeth Cymru. Nod yr ymdrech ryngwladol hon, a ariannwyd gan Gynghrair Systemau Bwyd Cydwybodol yr UNDP, oedd uno diwylliant bwyd arloesol Brasil â threftadaeth Cymru, o dan arweiniad Tîm Deieteg Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yr hanesydd bwyd Carwyn Graves, a gyda chefnogaeth ffigurau nodedig o Gymru. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Synnwyr Bwyd Cymru: [Synnwyr Bwyd Cymru yn gweithio gydag arweinwyr systemau bwyd ym Mrasil i ddatblygu a gweithredu'r prosiect 'Caru Cennin' yng Nghaerdydd - synnwyrbwydcymru.org.uk]





## Animeiddio Newid Cyflym: Prosiect Ymyrraeth Effaith Cydweithredol



Mae'r prosiect cydweithredol hwn wedi archwilio syniadau ffres arloesol gan weithwyr proffesiynol Tîm Podiatreg ac Iechyd Cyhoeddus Lleol BIP Caerdydd a'r Fro, gan weithio ar draws ffiniau clinigol/anghlinigol i roi atal wrth wraidd ein darpariaethau gwasanaeth gofal iechyd. Mae llwyddiant y prosiect peilot wedi'i gydnabod gan Gofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU drwy wobrwyo Newid Cyflym am 'Wella Ymarfer Iechyd y Cyhoedd i Leihau Anghydraddoldebau Iechyd' ym mis Hydref 2023, gyda'r beirniaid yn tynnu sylw at y ffaith ei fod yn brosiect sydd wedi'i gynllunio'n dda, gyda gwaith partneriaeth da yn cael ei ddangos drwyddi draw.







### 3.14 Rheoliadau'r Gymraeg 2018

Mae Safonau'r Gymraeg wedi rhoi'r cyfle i'r sefydliad wella lefel y gwasanaethau Cymraeg rydym yn eu darparu ar gyfer ein cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r boblogaeth ehangach.

Yn 2023/2024, gwnaethom barhau i weithio gyda nhw i wella a chryfhau ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Mae'r holl Safonau wedi cael eu hadolygu gan y Bwrdd Iechyd gan ddefnyddio meddalwedd Microsoft List i fonitro gweithrediad a chynnydd ein gweithredoedd i fodloni Safonau'r Gymraeg. Mae'r Tîm Tegwch a Chynhwysiant yn adrodd ar faterion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant sydd yn ei dro yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfiaeth a pha gamau y byddant yn eu cymryd i sicrhau gwell cydymffurfiaeth â'r Safonau. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio ag 83 o'r 120 o safonau. Mae'r 40 olaf o'r safonau hyn nad yw'r sefydliad yn cydymffurfio â hwy yn gofyn am gynllunio hirdymor. Mae'r tîm Pobl a Diwylliant yn gweithio gyda phob maes i sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio yn ystod 2024/2025.


Mae'r gweithgareddau allweddol a gynhaliwyd yn 2023-24 yn cynnwys:


- Datblygu a dosbarthu'r cerdyn Ymadrodd Cymraeg sy'n dangos ymadroddion Cymraeg sylfaenol i'w defnyddio dros y ffôn. Mae bron i 15,000 wedi'u dosbarthu ar draws y bwrdd.
- Parhau i annog aelodau staff i gofrestru ar gyfer y cyrsiau dysgu Cymraeg sydd ar gael gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg.
- Datblygu cwrs Cymraeg 'Meithrin Hyder' mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Dysgu Cymraeg. Nod y cwrs yw meithrin hyder staff sy'n siarad Cymraeg i'w hannog i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg.
- Parhau i hyrwyddo gwersi Cymraeg drwy ddiwrnodau ymwybyddiaeth penodol gan gynnwys Diwrnod Shwmae, Diwrnod Hawliau'r Gymraeg, Dydd Miwsig Cymru, Dydd Santes Dwynwen, a Dydd Gŵyl Dewi.
- Sefydlu Rhwydiaith, sy'n rhwydwaith staff i ddefnyddwyr Cymraeg eu hiaith.
- Gweithio gyda Byrddau Clinigol i wella'r gwasanaeth Cymraeg y maent yn ei ddarparu ar gyfer y cleifion a'r defnyddwyr gwasanaeth.
- Parhaodd y Tîm Cyfieithu i ddarparu gwasanaeth cyfieithu effeithiol i'r Bwrdd Iechyd, gan gyfieithu dros 1m o eiriau'r llynedd.
- Rydym wedi derbyn cyfanswm o bedair cwyn yn 2023/2024 gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r holl bryderon wedi bod yn destun ymchwiliadau ac yna argymhellion y disgwylir i'r Bwrdd gydymffurfio â hwy. Mae'r argymhellion a gyflawnwyd wedi golygu bod y Bwrdd Iechyd wedi gweithio i wella ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg o amgylch derbynfeydd, gwasanaethau ffôn, gwasanaethau ymwelwyr iechyd, a recriwtio staff sydd â sgiliau Cymraeg.
- Mae'r sefydliad wedi hysbysebu'r nifer ganlynol o swyddi gwag fel rhai hanfodol:


| **Cyfanswm y swyddi gwag a hysbysebwyd yn 2023-204** fel: | |
|---|---|
| Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol | 3 |
| Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol | 2487 |
| Mae angen dysgu sgiliau Cymraeg yn dilyn penodiad i'r swydd | 0 |
| Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol | 49 |
| **Cyfanswm y swyddi gwag a hysbysebwyd 01/04/2023 - 31/03/2024** | **2539** |

## Sgiliau Iaith Gymraeg a gofrestrwyd gan y Gweithlu 2023-2024

| Listening/Speaking Welsh | Headcount |
|---|---|
| 0 - No Skills / Dim Sgiliau | 4624 |
| 1 - Entry/ Mynediad | 997 |
| 2 - Foundation / Sylfaen | 242 |
| 3 - Intermediate / Canolradd | 153 |
| 4 - Higher / Uwch | 192 |
| 5 - Proficiency / Hyfedredd | 303 |
| Not Assessed | 11351 |
| **Grand Total** | **17862** |






### 3.15 Adroddiad Cynaliadwyedd

### Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Mae cyflawni ein cyfrifoldebau i leihau ein hôl troed carbon wedi bod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd ers cydnabod yr argyfwng hinsawdd ym mis Ionawr 2019.

Mae effeithiau newid hinsawdd eisoes yn cael eu gweld ledled y byd, gan gynnwys digwyddiadau tywydd eithafol, codiadau yn lefel y môr, colli rhywogaethau a difodiant. Bydd yr effeithiau hyn yn cael effeithiau dramatig yng Nghymru a'r DU gan effeithio ar seilwaith, argaeledd bwyd, iechyd a mudo. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r

Fro yn cydnabod bod angen mesurau brys i ddiogelu ein planed a sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Mae'r angen i ddiogelu ein planed hefyd yn cael ei gydnabod o dan ein Strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol ddiwygiedig, Strategaeth 2023-2035: Byw'n Dda, Gofalu'n Dda, Gweithio Gyda'n Gilydd, ac mae wedi gosod uchelgais i leihau allyriadau sydd o fewn ein rheolaeth gan 40% erbyn 2027, 68% erbyn 2035 a dod yn garbon niwtral hefyd erbyn 2035.

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddigonedd o staff talentog ac ymroddedig sy'n ymdrechu i wella cynaliadwyedd amgylcheddol eu hadrannau a'r sefydliad. Sefydlwyd Grŵp Gwyrdd Caerdydd a'r Fro sy'n cyfarfod yn rheolaidd i hyrwyddo gwaith a chynhyrchu syniadau a mentrau i wella cynaliadwyedd amgylcheddol ar draws y bwrdd iechyd cyfan.

Fel y cyfeirir ato isod, mae gan y bwrdd iechyd Gynllun Gweithredu Datgarboneiddio ar gyfer 2024-2025 sy'n nodi cynlluniau cyflawni lleihau carbon, gyda meysydd allweddol o ffocws o amgylch cyfleusterau, digidol, ystadau, cyfalaf, a gweithgareddau corfforaethol. Mae'r rhain wedi deillio o asesiadau risg yn unol â pharodrwydd am argyfyngau a gofynion argyfyngau sifil o dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd.

Ym mis Mawrth 2024, cymeradwyodd ein Bwrdd ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio 2024/25.Mae hwn yn mynd ymhellach nag erioed o'r blaen wrth gydnabod y liferi y mae angen eu tynnu i reoli a lleihau ein hallyriadau carbon.

**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Nid yw'r sefydliad wedi cyflawni ei rwymedigaeth i gyflwyno CTCI ar gyfer 2023-2026 fel yr amlinellir o dan Adran 2.3 o'r datganiadau ariannol. Darperir rhagor o fanylion hefyd yn Adran 17.6 o dan Dystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd.

## Y Fframwaith Llywodraethu

### 9.3 Rheolau Sefydlog Enghreifftiol a Chynllun Cadw'n Ôl a Dirprwyo

Ar lefel leol, mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd yng Nghymru gytuno ar Reolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes. Maent wedi'u dylunio i drosi'r gofynion statudol a nodwyd yn y Rheoliadau BILl (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn waith gweithredu dyddiol, ac ynghyd â mabwysiadu cynllun materion a gedwir yn ôl ar gyfer y Bwrdd; Cynllun Dirprwyo ar gyfer swyddogion a phobl eraill; a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, maent yn darparu'r fframwaith rheoliadol ar gyfer cyflawni busnes y Bwrdd Iechyd ac yn diffinio ei 'ffyrdd o weithio'. Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â'r ystod o bolisïau corfforaethol a osodwyd gan y Bwrdd, yn ffurfio'r Fframwaith Llywodraethu.

Mae'r rhain ar gael yn [https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/polisiau-gweithdrefnau-a-chanllawiau/](https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/polisiau-gweithdrefnau-a-chanllawiau/)

Yn ystod 2023-2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Reolau Sefydlog Enghreifftiol diwygiedig ar gyfer cyrff y GIG yng Nghymru, fel yr amlinellir isod:

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2023 - Roedd y prif newidiadau'n ymwneud ag adlewyrchu darpariaethau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) 2020, gan gynnwys:

- Cyflwyno dyletswydd ansawdd a dyletswydd gonestrwydd;
- Newidiadau sy'n gysylltiedig â sefydlu Llais a diddymu'r Cynghorau Iechyd Cymuned a Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned;

Cymeradwywyd y gwelliannau hyn gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd 2023.

### Amrywiad i'r Rheolau Sefydlog

Mae angen i’r Bwrdd, yn amodol ar unrhyw gyfarwyddydau y gall Gweinidogion Cymru eu gwneud,
wneud trefniadau priodol i swyddogaethau penodol gael eu cyflawni ar
ei ran fel y gellir cyflawni busnes dydd-i-ddydd y Bwrdd Iechyd yn effeithiol, ac mewn modd sy'n sicrhau bod ei nodau a'i amcanion yn cael eu cyflawni.

Diwygiwyd terfynau ariannol dirprwyedig gan y Bwrdd yn y cyfarfod ar 30 Tachwedd 2023.

## 9.4 Y Bwrdd a'i Bwyllgorau

Mae'r Bwrdd yn darparu arweiniad a chyfarwyddyd i'r sefydliad ac mae'n gyfrifol am lywodraethu, craffu ac atebolrwydd cyhoeddus. Mae'n sicrhau bod ei waith yn agored ac yn dryloyw drwy gynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus a lle cynhelir cyfarfodydd preifat caiff agendâu'r cyfarfodydd eu cyhoeddi hefyd.  Cefnogir y Bwrdd gan nifer o Bwyllgorau, pob un yn cael ei gadeirio gan Aelod Annibynnol. Cyfansoddir pob Pwyllgor i gydymffurfio â Chanllaw Arfer Da Llywodraeth Cymru – Pwyllgorau
Bwrdd Effeithiol. Mae’r Pwyllgorau, sy'n cyfarfod yn gyhoeddus (ac eithrio'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth) yn darparu eu cofnodion neu adroddiad ysgrifenedig gan Gadeirydd y Pwyllgor i bob cyfarfod Bwrdd. Mae hyn yn galluogi pob aelod o'r Bwrdd i gael golwg ar y prif faterion a chyfrannu at y gwaith o asesu sicrwydd a chraffu yn erbyn cyflawni amcanion strategol.


Caiff papurau'r Bwrdd eu dosbarthu i Aelodau Annibynnol 10 diwrnod cyn pob cyfarfod yn unol â'r Rheolau Sefydlog.  Mae papurau Bwrdd cyhoeddus hefyd yn cael eu cyhoeddi ar y wefan.

Gellir cael gafael ar y papurau ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd yn https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/cyfarfodydd-bwrdd/ a phapurau ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor yn https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/pwyllgorau-a-grwpiau-cynghori/

Mae pob Pwyllgor yn llunio adroddiad blynyddol ar gyfer y Bwrdd.  Gellir gweld adroddiadau blynyddol y Pwyllgorau ar gyfer 2023-2024 yn: https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/adroddiadau-blynyddol-a-chyfrifon/

Amlinellir strwythur Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd Iechyd a oedd ar waith yn ystod 2023-2024 yn Ffigur 13 isod.

Ffigur 13 – Strwythur Llywodraethu BIPCaF 2023-2024




Newidiadau i Strwythur Llywodraethu BIPCaF yn ystod 2023-24

Mae'n bwysig adolygu effeithiolrwydd pwyllgorau'r Bwrdd yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn cefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau. Ymhellach, i sicrhau bod trefniadau Pwyllgor y Bwrdd yn adlewyrchu proffil risg y sefydliad. Amlygodd Fframwaith Sicrwydd Bwrdd y Bwrdd Iechyd risgiau sylweddol i'r Bwrdd Iechyd gyflawni ei amcanion, yn fwyaf nodedig ym meysydd Pobl, Ansawdd a Pherfformiad. Yn unol â hynny, adolygodd y Bwrdd Iechyd ei drefniadau Pwyllgor a gwnaed y newidiadau canlynol i'r trefniadau Pwyllgor yn weithredol o 1 Ebrill 2023:

a) Cyfarfu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn fisol o fis Ebrill 2023 tan fis Tachwedd 2023 ac yna cyfarfu bob 6 wythnos tan fis Mawrth 2024 er mwyn sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i wella ansawdd

b) Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad - Cafodd yr elfen gyflawni/perfformiad a adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni ei chynnwys ym musnes y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad sydd newydd ei gyfansoddi. Cyfarfu'r Pwyllgor hwn yn fisol gyda'i gyfarfod cyntaf ar 19 Ebrill 2023.

c) Pwyllgor Iechyd a Diogelwch – Cafodd y Pwyllgor ei dynnu'n ôl fel Pwyllgor Bwrdd a daeth yn Is-bwyllgor ar gyfer Pwyllgor Bwrdd newydd, sef y Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Cyfarfu'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant bob deufis, gyda'i gyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar 16 Mai 2023.

d) Cynyddodd y Pwyllgor Deallusrwydd Iechyd a Digidol ei gyfarfodydd o dri chyfarfod y flwyddyn i bedwar i neilltuo amser ychwanegol i drafod llwyth gwaith y Pwyllgor.

### 9.5 Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd

Roedd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn ystod 2023-2024, gan ddarparu'r arbenigedd gofynnol, fel a ganlyn:

| Enw | Rôl | Dyddiadau |
|---|---|---|
| **AELODAU ANNIBYNNOL** | | |
| John Union | Cadeirydd y Pwyllgor ac Aelod Annibynnol - Cyllid | Cadeirydd Pwyllgor: Ebrill 2023 - Chwefror 2024<br>Aelod Annibynnol – Cyllid: Ebrill 2023 – Mawrth 2024 |
| Rhian Thomas | Cadeirydd y Pwyllgor ac Aelod Annibynnol – Cyfalaf ac Ystadau | Chwefror 2024 – Ebrill 2024 |
| David Edwards | Is-gadeirydd y Pwyllgor | Ebrill 2023 – Mawrth 2024 |
| Mike Jones | Aelod Annibynnol Undeb Llafur | Ebrill 2023 – Mawrth 2024 |
| Ceri Phillips | Is-gadeirydd | Ebrill 2023 – Mawrth 2024 |

### 9.6 Cyfansoddiad y Bwrdd

**Roedd yr eitemau a ystyriwyd gan y Bwrdd yn 2023-2024 yn cynnwys:**

- Rhaglen Gwella’r 6 Nod
- Diweddariadau Cynllunio Strategol
- Diweddariadau Cynllun Tymor Canolig Integredig / Cynllun Blynyddol
- Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol
- Adolygiad Blynyddol o Reolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog
- Adroddiad Blynyddol
- Cyfrifon Blynyddol
- Trawsnewid Digidol
- Bwriadau Comisiynu 2024-27
- Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2022-23
- Brechiadau a Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau
- Gofal Newyddenedigol
- Llunio Ein Llesiant i’r Dyfodol - Strategaeth Ddiwygiedig
- Fframwaith Tegwch, Cydraddoldeb, Profiad a Diogelwch Cleifion
- Adroddiad Blynyddol Diogelu
- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
- Trosglwyddo Tir yr Eglwys Newydd

Cyflwynir aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau a Rolau Pencampwr yn ystod 2023-2024

er gwybodaeth yn Atodiad 1 i'r DLIB hwn.

Bu nifer o newidiadau i gyfansoddiad y Bwrdd yn ystod 2023-24.

Ffarweliodd y Bwrdd Iechyd â:

- James Quance – Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro ar 4 Awst 2023
- Fiona Kinghorn - Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd ar 31 Rhagfyr 2023
- Meriel Jenney - Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ar 31 Mawrth 2024
- Abigail Harris – Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio ar 31 Mawrth 2024 i ymgymryd â secondiad fel Prif Gomisiynydd Dros Dro ar gyfer Pwyllgor Cydgomisiynu (JCC) newydd GIG Cymru
- Michael Imperato - Aelod Annibynnol Cyfreithiol ar 31 Awst 2023
- Susan Elsmore - Aelod Annibynnol Awdurdod Lleol ar 31 Hydref 2023
- Keith Harding - Aelod Annibynnol Prifysgol ar 31 Tachwedd 2023

Rydym hefyd yn croesawu'r canlynol i'r Tîm Gweithredol:

- Matt Phillips - Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol ar 7 Awst 2023
- Claire Beynon - Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd ar 30 Rhagfyr 2023

### 9.7 Pwyllgorau

Yn unol ag Adran 2 o Reolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd sy'n darparu, *"Gall y Bwrdd a, lle y cyfarwyddir hynny gan LlC, rhaid iddo benodi Pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd naill ai i ymgymryd â swyddogaethau penodol ar ran y Bwrdd neu i roi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd wrth arfer ei swyddogaethau",* mae gan y Bwrdd strwythur pwyllgor sefydledig, gyda phob Pwyllgor Statudol yn cael ei gadeirio gan Aelod Annibynnol.

Roedd y Pwyllgorau Bwrdd canlynol ar waith yn ystod 2023-2024:

| Pwyllgor | Eitemau a Ystyriwyd |
|---|---|
| **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd**<br><br>Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yw cynghori a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd, a'r Swyddog Atebol, ynghylch a oes trefniadau effeithiol ar waith i'w cefnogi yn eu penderfyniadau ac wrth gyflawni eu rhwymedigaethau yn unol â'r safonau llywodraethu da a bennir ar gyfer y GIG yng Nghymru. | • Cyflwynwyd Adroddiadau Archwilio Mewnol i bob cyfarfod gan ddarparu manylion yn ymwneud â chanlyniadau, canfyddiadau allweddol a chasgliadau.<br>• Mae Archwilio Cymru yn adrodd ar archwiliadau cyfredol a chynlluniedig<br>• Adroddiadau Datgan Buddiannau |

| | |
|---|---|
| | • Adroddiadau Tracio Cydymffurfiaeth Reoleiddiol<br>• Adroddiadau Tracio Archwilio Mewnol ac Allanol<br>• Adroddiadau Cydymffurfiaeth Caffael, Cydymffurfiaeth y Gweithlu a Gwrth-dwyll<br>• Mapio sicrwydd a Strategaeth Rheoli Risg<br>• Cyfrifon drafft ac Adroddiad Blynyddol yr Elusen Iechyd<br>• Cyfrifon Blynyddol, Adroddiadau Atebolrwydd a Thaliadau Cydnabyddiaeth ar gyfer 2023-2024<br>• Colledion a Thaliadau Arbennig. |
| **Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad**<br><br>Diben y Pwyllgor hwn yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd wrth gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'i sefyllfa ariannol, ei berfformiad a'i ddarpariaeth bresennol a rhagweledig. | • Adroddiadau perfformiad<br>• Adroddiadau Ariannol Misol<br>• Cofrestr Risg Cyllid<br>• Ffurflenni Monitro Ariannol<br>• Cynllun Ariannol CTCI<br>• Risg FfSB – Cynaliadwyedd Ariannol<br>• Perfformiad Ariannol Byrddau Clinigol<br>• Achosion Busnes amrywiol (gan gynnwys Ehangu Cataractau Rhanbarthol, Datblygu Theatrau Orthopedig Newydd, Thrombectomi De Cymru, Genomeg Cymru Gyfan, Radioleg Ymyriadol, Presgripsiynu Electronig, Clefydau Heintus Pediatrig.) |
| **Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol**<br><br>Mae'r Pwyllgor hwn yn cynghori'r Bwrdd ar unrhyw feysydd sy'n peri pryder sy'n ymwneud â chyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl, ac yn rhoi sicrwydd ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau statudol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol. | • Adroddiadau Monitro Deddf Galluedd Meddyliol ac Iechyd Meddwl;<br>• Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid;<br>• Mesur Iechyd Meddwl;<br>• Adroddiadau archwilio Deddf Iechyd Meddwl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).<br>• Bil Iechyd Meddwl Drafft<br>• Goblygiadau Dyfarniad Adran 117 y Goruchaf Lys |
| **Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad**<br><br>Pwrpas y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yw rhoi cyngor i'r Bwrdd o ran ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd a phrofiad y | • Adroddiadau Sicrwydd y Bwrdd Clinigol<br>• Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd<br>• Adroddiadau Cyngor Iechyd Cymuned (CIC)<br>• Straeon Cleifion |

| | |
|---|---|
| claf, gan gynnwys iechyd y cyhoedd, hybu iechyd a gweithgareddau diogelu iechyd. | • Adroddiad MBRRACE ac Archwiliad Newyddenedigol Cenedlaethol<br>• Plant sy'n Derbyn Gofal – Ôl-groniadau Asesu<br>• Dyletswydd Gonestrwydd<br>• Diweddariad Rhaglen Ymchwil COVID<br>• Adroddiad Dangosyddion Ansawdd<br>• Adroddiad Blynyddol AGIC<br>• Adroddiad Blynyddol Diogelu<br>• Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon |
| **Pwyllgor Cronfeydd Elusennol**<br><br>Pwrpas y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yw gwneud a monitro trefniadau ar gyfer rheoli Cronfeydd Elusennol y Bwrdd Iechyd.<br><br>Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro (yr Elusen) yw'r elusen swyddogol sy'n cefnogi holl waith y Bwrdd Iechyd. Crëwyd yr Elusen Iechyd ar 3 Mehefin 1996 gan Ddatganiad o Ymddiriedolaeth ac, yn dilyn ad-drefnu gwasanaethau iechyd, cafodd ei diwygio gan Weithred Atodol ar 12 Gorffennaf<br>2001 a 2 Rhagfyr 2010.<br><br>Y Bwrdd Iechyd yw Ymddiriedolwr Corfforaethol yr Elusen.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn dirprwyo cyfrifoldeb am reoli'r arian i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol. Nod yr Ymddiriedolwr Corfforaethol (Ymddiriedolwr) yw codi a defnyddio cronfeydd elusennol i ddarparu'r budd mwyaf posibl i gleifion y Bwrdd Iechyd a gwasanaethau iechyd lleol cysylltiedig yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, drwy ategu yn hytrach na dirprwyo cyllid y llywodraeth ar gyfer gwasanaethau craidd y GIG. | • Sefyllfa Ariannol yr Elusen Iechyd<br>• Cynllun Blynyddol yr Elusen Iechyd<br>• Ein Dôl Iechyd<br>• Dros £25,000 o geisiadau i'w cymeradwyo<br>• Adroddiadau Codi Arian<br>• Adroddiad Grŵp Buddiannau Staff<br>• Adroddiadau Panel Cynigion Loteri Staff<br>• Cynllunydd Digwyddiadau'r Elusen Iechyd<br>• Archwilio Mewnol Cronfeydd Elusennol<br>• Gwaredu Ysbyty Rookwood<br>• Adborth ar geisiadau llwyddiannus<br>• Diweddariadau Buddsoddi Rathbones |
| **Pwyllgor Deallusrwydd Iechyd a Digidol**<br><br>Pwrpas y Pwyllgor hwn yw rhoi sicrwydd i'r Bwrdd:<br><br>• Fod prosesau a systemau priodol ar waith ar gyfer data, rheoli gwybodaeth a llywodraethu er mwyn caniatáu i'r Bwrdd Iechyd gyflawni ei | • Adroddiadau Cynnydd Trawsnewid Digidol<br>• Gofynion gwarcheidwad Caldicott<br>• Rhyddid Gwybodaeth<br>• Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR);<br>• Adroddiadau Mynediad Diawdurdod at Ddata; |

| | |
|---|---|
| amcanion, cyfrifoldebau deddfwriaethol ac unrhyw ofynion a safonau perthnasol a bennir ar gyfer y GIG yng Nghymru;<br>• Bod gwelliant parhaus mewn perthynas â llywodraethu gwybodaeth o fewn y Bwrdd Iechyd a bod risgiau sy'n deillio o hyn yn cael eu rheoli'n briodol;<br>• Bod cyfathrebu, ymgysylltu a hyfforddiant effeithiol ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth. | • Data Perfformiad Codio Clinigol<br>• Diwygio'r Strategaeth Ddigidol |
| **Pwyllgor Pobl a Diwylliant**<br><br>Pwrpas y Pwyllgor yw cynghori'r Bwrdd ar ddatblygu, monitro a chyflawni Cynllun Pobl a Diwylliant y Sefydliad yng nghyd-destun y Cynllun Gweithlu Strategol Cenedlaethol | • Straeon Staff<br>• Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd - Gweithlu<br>• Dangosyddion Perfformiad Gweithlu Allweddol<br>• Sbotoleuadau Bwrdd Clinigol<br>• Hysbysiadau Comisiynydd y Gymraeg<br>• Diweddariadau Iechyd a Diogelwch<br>• Amcanion Cydraddoldeb Strategol<br>• Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol<br>• Polisïau (e.e. Awyru, Codi Pryderon) |
| **Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth**<br><br>Diben y Pwyllgor yw darparu'r canlynol:<br><br>(i) cyngor i'r Bwrdd ar daliadau cydnabyddiaeth a thelerau gwasanaeth i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch staff eraill o fewn y fframwaith a osodwyd gan Lywodraeth Cymru; a<br><br>(ii) sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas â threfniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer taliadau cydnabyddiaeth a thelerau gwasanaeth, gan gynnwys trefniadau cytundebol, i'r holl staff, yn unol â'r gofynion a safonau sy'n cael eu pennu ar gyfer y GIG yng Nghymru. | • Materion taliadau cydnabyddiaeth a thelerau gwasanaeth |

Mae'r adroddiadau, cynlluniau gwaith a'r cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgorau yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan: https://cavuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance/committees-and-advisory-groups/

Mae'r tabl yn Atodiad 1 i'r DLIB hwn yn nodi manylion y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol ac yn cadarnhau aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgorau ar gyfer 2023-2024, cyfarfodydd a fynychir yn ystod deiliadaeth yr unigolyn ac unrhyw rolau Pencampwr a gyflawnir. Mae Tabl 1 yn Atodiad 2 y DLIB yn nodi Dyddiadau Bwrdd a Phwyllgorau ar gyfer 2023-2024.

Mae Cadeirydd pob Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd am weithgareddau'r Pwyllgor gan amlinellu risgiau allweddol a thynnu sylw at feysydd y mae angen eu dwyn i sylw'r Bwrdd er mwyn cyfrannu at ei asesiad o sicrwydd a darparu craffu yn erbyn y gwaith o gyflawni amcanion. Mae'r Pwyllgorau, yn ogystal ag adrodd i'r Bwrdd, hefyd yn gweithio gyda'i gilydd ar ran y Bwrdd i sicrhau, lle bo angen, bod croes-adrodd ac ystyriaeth yn digwydd a bod sicrwydd a chyngor yn cael ei roi i'r Bwrdd a'r sefydliad ehangach.

Mae copïau o bapurau a chofnodion pwyllgorau, crynodeb o gyfrifoldebau a chylch gorchwyl pob Pwyllgor ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd: https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/pwyllgorau-a-grwpiau-cynghori/

Mae pob Pwyllgor yn cynnal Cofnod Gweithredu sy'n cael ei fonitro ym mhob cyfarfod.
Cefnogir pob un o brif bwyllgorau'r Bwrdd gan strwythur is-bwyllgor sy'n ategu cylch gwaith ei rolau a'i gyfrifoldebau.

### 9.8 Grwpiau Cynghori a Chydbwyllgorau

I gefnogi'r Bwrdd, gall y Bwrdd Iechyd gael tri Grŵp Cynghori.

Mae'r Grwpiau Cynghori a'r Cydbwyllgor yn cynnwys:

### Grwpiau Cynghori

### Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (GCRh)

Mae'r GCRh yn cynnwys ystod o sefydliadau partner o bob rhan o ardal y Bwrdd Iechyd. Ei rôl yw darparu cyngor annibynnol ar unrhyw agwedd ar fusnes y Bwrdd Iechyd. Mae'n hwyluso ymgysylltiad llawn a thrafodaeth weithredol ymysg rhanddeiliad o ledled y cymunedau a wasanaethir gan y Bwrdd Iechyd, gyda'r nod o gyflwyno persbectif rhanddeiliaid cydlynol a chytbwys er mwyn arwain y Bwrdd Iechyd wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau.

Roedd materion pwysig y bu'r GCRh yn ymgysylltu â nhw yn ystod 2023-2024 yn cynnwys:

- Diwygio'r Strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol

- Trafnidiaeth a theithio cynaliadwy
- Rhwydwaith Cyflenwi Strôc Canolbarth De Cymru
- Fframwaith a Phecyn Cymorth Cydgynhyrchu, Ymgysylltu ac Ymgynghori
- Ymgysylltiad gwasanaethau Offthalmoleg rhanbarthol
- Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan
- Cynllun Blynyddol
- Cynllun Gwasanaethau Clinigol
- Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio
- Amcanion Cydraddoldeb Strategol

## Fforwm Partneriaeth Lleol a Grwpiau Ymgysylltu â Chyflogeion Eraill

Mae gan y BIP ddyletswydd statudol i "ystyried sylwadau a wneir gan bobl sy'n cynrychioli buddiannau'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu". Cyflawnir hyn yn rhannol gan ddau Grŵp Cynghori i'r Bwrdd; un ohonynt yw'r Fforwm Partneriaeth Lleol (FfPLl).

Mae'r FfPLl yn cael ei gadeirio ar y cyd gan Gadeirydd Cynrychiolwyr Staff a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant ac mae'n cwrdd 6 gwaith y flwyddyn. Mae'r aelodau'n Gynrychiolwyr Staff (gan gynnwys yr Aelod Annibynnol dros Undebau Llafur), y Tîm Gweithredol a'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, ac uwch aelodau o'r tîm Pobl a Diwylliant.

Y FfPLl yw'r mecanwaith ffurfiol i'r Bwrdd Iechyd a Chynrychiolwyr Undebau Llafur/Sefydliadau Proffesiynol gydweithio i wella gwasanaethau iechyd.

Mae'r materion pwysig a drafodwyd gan y Fforwm Partneriaeth Lleol yn ystod 2023-24 yn cynnwys:

- Diweddariadau gweithredol rheolaidd, gan gynnwys y Cynllun Gaeaf
- CTCI – ymgysylltu â blaenoriaethau ac adroddiadau cynnydd BIP
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol BIP Caerdydd a'r Fro
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Cynyddu Gwaith Atal mewn Iechyd Cyhoeddus
- Adroddiad blynyddol y Ddeddf Staff Nyrsio
- Fframwaith Tegwch, Cydraddoldeb, Profiad a Diogelwch Cleifion
- Cynllun Cyfathrebu Pobl a Diwylliant
- Cynllun Ystadau a'r dull o reoli risg
- Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 a'r BIP

Mae gan y FfPLl 3 is-grŵp:

1. Grŵp Partneriaeth y Gweithlu
2. Is-grŵp Polisïau Cyflogaeth
3. Grŵp Buddiannau Staff

## Cydbwyllgorau

Nodir bod y PGIAC a'r PGAB wedi'u dirwyn i ben ar 31 Mawrth 2024, a'u disodli gan y Cydbwyllgor Comisiynu o 1 Ebrill 2024.

### Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC)

Sefydlwyd PGIAC yn 2010 gan saith bwrdd iechyd i sicrhau bod gan y boblogaeth fynediad teg a chyfartal at yr ystod lawn o wasanaethau arbenigol. Wedi'i gynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, cynrychiolir y Bwrdd Iechyd ar y Cydbwyllgor gan y Prif Weithredwr ac mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd.

### Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (PGAB)

Mae PGAB yn Gydbwyllgor o'r saith bwrdd iechyd, gyda thair ymddiriedolaeth y GIG yn aelodau cyswllt, ac fe'i sefydlwyd ym mis Ebrill 2014. Mae'n gyfrifol am gynllunio a chomisiynu gwasanaethau ambiwlans brys ar sail Cymru gyfan. Wedi'i gynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, cynrychiolir y Bwrdd Iechyd ar y Cydbwyllgor gan y Prif Weithredwr ac mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd.

### Pwyllgor Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru (PGRGC)

Sefydlwyd Pwyllgor PGRGC yn 2012 ac fe'i cynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae'n gofalu am y swyddogaethau a rennir ar gyfer GIG Cymru, megis caffael, recriwtio a gwasanaethau cyfreithiol. Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd yw Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, a derbynnir adroddiadau rheolaidd gan y Bwrdd.

## 9.9 Penodiadau Cyhoeddus

Penodwyd Lani Tucker yn Gadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ar 17 Ionawr 2024.

Ymunodd yr Aelod Annibynnol Susan Lloyd-Selby â'n Bwrdd ar 1 Mawrth 2024.

## 9.10 Datganiad Budd y Cyhoedd

Mae pob Aelod o'r Bwrdd wedi datgan yn ysgrifenedig ei fod wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd er mwyn gwneud archwilwyr yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol. Mae'n ofynnol i holl Aelodau'r Bwrdd ac Uwch Reolwyr a'u perthnasau agos (gan gynnwys Cyfarwyddwyr yr holl Sefydliadau Cynnal) ddatgan unrhyw fuddiannau ariannol a rolau o ddylanwad a allai arwain at wrthdaro â'u cyfrifoldebau.

Mae cofrestr lawn o fuddiannau ar gyfer 2023-2024 ar gael ar gais gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol neu drwy'r ddolen ganlynol https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/cofrestr-buddiannau/

## 9.11 Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd a Phwyllgorau 2023-2024

Cyfansoddwyd y Bwrdd i gydymffurfio â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009. Mae'r tabl sydd ynghlwm wrth Atodiad 1 i'r DLlB hwn yn amlinellu Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau a'r cofnod o bresenoldeb ar gyfer y cyfnod Ebrill 2023 - Mawrth 2024.

## 10. Risg

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi ei chynllunio i reoli risgiau i lefel resymol yn hytrach na dileu'r holl risgiau; felly gellir ond rhoi sicrwydd rhesymol, nid absoliwt, o effeithiolrwydd.


Seilir y system rheolaeth fewnol ar broses barhaus wedi'i dylunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau er mwyn cyflawni'r polisïau, y nodau a'r amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau a'r effaith pe byddent yn digwydd, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith hyd at y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol.

Mae gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd Bwrdd sy'n nodi, dadansoddi, gwerthuso a rheoli'r risgiau sy'n bygwth y nod o gyflawni ei amcanion strategol. Defnyddir Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (FfSB) y Bwrdd Iechyd gan y Bwrdd i nodi, monitro a gwerthuso risgiau sy'n effeithio ar Amcanion Strategol ac fe'i hystyrir ochr yn ochr ag offer rheoli allweddol arall, megis y Gofrestr Risg Gorfforaethol, dangosfyrddau perfformiad ac ansawdd ac adroddiadau ariannol, i roi darlun cynhwysfawr i'r Bwrdd o'r proffil risg sefydliadol.

Adolygwyd Strategaeth Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd Bwrdd (Strategaeth FfSB) y Bwrdd Iechyd a chymeradwywyd fersiwn ddiwygiedig gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2023. Mae hyn yn nodi cyfrifoldebau ar gyfer rheoli risg strategol a gweithredol i'r Bwrdd a staff ledled y sefydliad ac yn disgrifio'r gweithdrefnau sydd i'w defnyddio wrth nodi, dadansoddi, gwerthuso a rheoli risgiau i gyflawni amcanion strategol.

Mae risgiau strategol yn risgiau sylweddol sydd â'r potensial i effeithio ar y nod o gyflawni amcanion strategol ac sy'n cael eu codi a'u monitro gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd. Mae risgiau gweithredol yn risgiau allweddol sy'n effeithio ar Fyrddau Clinigol unigol a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol ac yn cael eu rheoli o fewn y Byrddau Clinigol a'r Cyfarwyddiaethau Corfforaethol ac, os oes angen, yn cael eu huwchgyfeirio trwy strwythur adrodd risg y Bwrdd Iechyd (gweler Ffigur 14).

Ffigur 14 – Strwythur Adrodd Rheoli Risg




Mae'r FfSB hefyd yn crynhoi'r rheolaethau a'r sicrwydd sydd ar waith neu gynlluniau i'w lliniaru. Mae'r FfSB yn alinio prif risgiau, rheolaethau allweddol a sicrwydd ar reolaethau ochr yn ochr â phob un o amcanion strategol y Bwrdd Iechyd.

Nodir bylchau lle nad yw rheolaethau a sicrwydd allweddol yn ddigonol i leihau'r risg o fethu â chyflawni amcanion. Mae hyn yn galluogi datblygiad cynllun gweithredu ar gyfer cau'r bylchau a lliniaru'r risgiau, sydd wedyn yn cael ei fonitro gan y Bwrdd i'w weithredu.

Mae'r Strategaeth FfSB yn berthnasol i'r aelodau staff hynny sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd ac y mae gan y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb cyfreithiol amdanynt, a'r bwriad yw ymdrin â'r holl risgiau posibl y gallai'r sefydliad fod yn agored iddynt.

Amcanion y Strategaeth FfSB yw:

- lleihau effaith risgiau, digwyddiadau anffafriol, a chwynion drwy adnabod, blaenoriaethu, trin a rheoli risgiau’n effeithiol;
- cynnal fframwaith rheoli risg, sy'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod risgiau strategol a gweithredol yn cael eu rheoli'n effeithiol;
- cynnal dull cydlynol o lywodraethu corfforaethol a rheoli adnoddau rheoli risg yn effeithiol;
- sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o ddiwylliant y Bwrdd Iechyd;
- lleihau colled ariannol y gellir ei hosgoi, neu gost trosglwyddo risg drwy strategaeth ariannol gadarn;
- sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei rwymedigaethau o ran Iechyd a Diogelwch; a
- disgrifio’r adnoddau sydd ar gael ar gyfer rheoli risg yn y sefydliad.

Ym mis Mawrth 2024, nodwyd mai'r risgiau canlynol o fewn FfSB oedd yn peri'r risg fwyaf i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd:

1. Gweithlu - Gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw.

2. Diogelwch Cleifion - Mae risg i ddiogelwch cleifion gan fod yr adferiad ar ôl Covid-19 wedi arwain at ôl-groniad o ofal cynlluniedig, pwysau sylweddol ar y gwasanaethau brys a chymysgedd sgiliau gweithlu neu gymarebau staffio annelfrydol sy'n gysylltiedig â phrinder grwpiau gweithlu arbenigol penodol neu’r angen i ddarparu gofal mewn ôl troed clinigol mwy o faint mewn perthynas â’r adferiad ar ôl Covid-19.

3. Newid Diwylliant Cynaliadwy - Gan gynnwys risgiau sy'n effeithio ar gyflawni nodau'r Bwrdd Iechyd a nodir yn Strategaeth y Bwrdd Iechyd, Llunio Ein Lles i’r Dyfodol (2018).

4. Asedau Cyfalaf - Gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â methiannau parhad gwasanaeth oherwydd seilwaith sy'n heneiddio ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd.

5. Cyflawni ymrwymiadau 23/24 o fewn y CTCI - Gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau iechyd o ansawdd uchel a chyflawni ein cenhadaeth; Gofalu am Bobl, Cadw Pobl yn Iach, a’r weledigaeth fod siawns pobl o fyw bywyd iach yr un fath ble bynnag maen nhw’n byw a phwy bynnag ydyn nhw.

6. Lles Staff - Gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â staff yn dod i gysylltiad â thrallod seicolegol a chorfforol yn y cartref ac yn y gweithle.

7. Anghydraddoldebau Iechyd yn Gwaethygu - Gan gynnwys risgiau a achosir gan anghydraddoldebau iechyd presennol sydd wedi'u gwaethygu gan Covid-19.

8. Cynaliadwyedd ariannol - Gan gynnwys risgiau a berir gan yr argyfwng ynni a'r heriau i ddarparu gofal iechyd sy’n cynnig y gwerth gorau.

9. Gofal Brys a Gofal Argyfwng - Gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni Chwe Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng.

10. Mamolaeth - Gan gynnwys risgiau i gyflawni argymhellion a wnaed yn Adolygiad Ockenden i wasanaethau mamolaeth.

11. Gofal Critigol - Gan gynnwys risgiau diogelwch cleifion sy'n gysylltiedig â lefelau capasiti Gofal Critigol.

12. Canser - Gan gynnwys risgiau i gyrraedd safon llwybr canser sengl y Bwrdd Iechyd i drin cleifion â diagnosis o ganser sydd wedi'i gadarnhau o fewn 62 diwrnod.

13. Strôc - Gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â chynnydd yn y galw am wasanaeth strôc ar ôl y pandemig.

14. Gofal wedi'i Gynllunio - Gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni safonau amser aros a Blaenoriaethau Gweinidogol cysylltiedig.

15. Strategaeth Ddigidol a Map Ffordd - Gan gynnwys risgiau a allai effeithio ar gyflawni Strategaeth Ddigidol bum mlynedd y Bwrdd Iechyd ar gyfer y cyfnod 2020-2025.

Ochr yn ochr â'r FfSB, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnal Cofrestr Risg Gorfforaethol sy'n nodi'r risgiau gweithredol eithafol (y rhai a sgoriwyd yn 20/25 neu uwch) y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu.

Ym mis Mawrth 2024, roedd 91 o risgiau eithafol wedi'u nodi ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol, ac roedd pob un ohonynt wedi cofnodi sgôr o 20/25. Gellir gweld y FfSB a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol mewn unrhyw becyn agenda cyfarfod Bwrdd.

### 10.1 Sicrwydd Archwilio ar Reoli Risg

Nododd Adroddiad Asesu Strwythuredig Archwilio Cymru, a dderbyniwyd ym mis Rhagfyr 2023, y canlynol mewn perthynas â Rheoli Risg o fewn y Bwrdd Iechyd:

“Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â risgiau strategol sydd wedi’u cofnodi’n glir yn ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (FfSB) ac mae wedi cynnal ei drefn sefydledig i sicrhau

craffu priodol gan y Bwrdd, pwyllgorau ac arweinwyr gweithredol. Fel yr argymhellwyd y llynedd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi diweddaru ei FfSB i sicrhau bod y risgiau strategol yn cyd-fynd â'r amcanion, blaenoriaethau a ffrydiau gwaith strategol diwygiedig"

Cynhaliodd Gwasanaethau Sicrwydd PGRGC Adolygiad Archwilio Mewnol o brosesau Reoli Risg ym mis Ebrill 2024 a dderbyniodd sgôr Sicrwydd Rhesymol a daethant i'r casgliad fod "gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar waith ar gyfer rheoli risgiau strategol. Mae'r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (FfSB) yn darparu gwybodaeth allweddol am y risgiau strategol allweddol a allai effeithio ar gyflawni Strategaeth y Bwrdd Iechyd, 'Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol'. Mae'r FfSB yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Tîm Gweithredol ac mae'n eitem agenda sefydlog yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Cadarnhaodd ein hadolygiad o'r Strategaeth a'r Gweithdrefnau Rheoli Risg fod staff yn cael gwybodaeth gynhwysfawr am system rheoli risg y Bwrdd Iechyd."

## 10.2 Rheoli Risg

Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y Strategaeth Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd Bwrdd y dirprwywyd iddo gyfrifoldeb am ddatblygiad a gweithrediad y Strategaeth Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd Bwrdd. Mae trefniadau ar waith i asesu a rheoli risgiau yn effeithiol ar draws y sefydliad, sy'n cynnwys adolygu a diweddaru'r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol fel bod y Bwrdd yn cadw golwg ar risgiau strategol a gweithredol allweddol y Bwrdd Iechyd.

Mae'r FfSB yn ddogfen fyw a gyflwynir ym mhob cyfarfod Bwrdd cyhoeddus gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. Defnyddir newidiadau tracio i ddangos newidiadau ers y cyfarfod diwethaf.

Mae'r Adran Llywodraethu Corfforaethol yn monitro ac yn cynnal y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae gan bob Adran Gorfforaethol a Bwrdd Clinigol gyfrifoldeb i gynnal cofrestr risg gynhwysfawr sy'n sail i'r risgiau sy'n cael eu hadlewyrchu yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae'r Adran Llywodraethu Corfforaethol yn cyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr risg y Bwrdd Clinigol a'r Adran Gorfforaethol i adolygu a monitro eu Bwrdd Clinigol/Adran Gorfforaethol a chofrestrau risg lefel leol i sicrhau eu bod yn cofnodi'n gywir y risgiau y mae eu meysydd yn eu hwynebu ac i gynorthwyo'r meysydd hynny i ystyried risgiau newydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg i'w gwasanaeth. Yn dilyn yr ymarfer hwnnw, cofnodir risgiau gweithredol eithafol - a sgoriodd 20/25 neu uwch - ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol a chânt eu hadrodd i'r Bwrdd at ddibenion craffu a chymeradwyo bob deufis. Mae unrhyw risgiau y nodir eu bod â'r potensial i effeithio ar amcanion strategol y Bwrdd Iechyd yn cael eu hychwanegu at FfSB. Mae pob risg a nodir ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol hefyd yn gysylltiedig â Risg Strategol sydd wedi'i chynnwys yn FfSB i sicrhau bod risgiau'n cael eu monitro a'u huwchgyfeirio'n briodol.

Mae'r risgiau allweddol a nodir yn FfSB a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol hefyd yn cael eu rhannu ym Mhwyllgorau perthnasol y Bwrdd i graffu a thrafod ymhellach, ac mae Risgiau'n eitem sefydlog yn yr adolygiadau Bwrdd Clinigol misol.

Mae'r Adran Llywodraethu Corfforaethol yn darparu hyfforddiant i staff ar reoli prosesau ac asesiadau rheoli risg swyddogaethol yn y gweithle.

Mae'r risgiau a nodir yn FfSB a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael eu hystyried wrth bennu archwaeth risg y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod na ellir cyflawni gofal iechyd heb gymryd risgiau, yn ogystal â'r canlyniadau dilynol a gweithredoedd lliniaru. Mae hefyd yn sicrhau nad yw risgiau'n cael eu hystyried ar wahân ac yn cael eu cymryd ar ôl ystyried yr holl risgiau sy'n llifo trwy'r sefydliad.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymeradwyo gradd Parodrwydd i Dderbyn Risg gyffredinol o 'Ofalus' yn symud tuag at 'Chwilio' a ddiffinnir fel *Yn awyddus i fod yn arloesol ac i ddewis opsiynau sy'n cynnig gwobrau busnes a allai fod yn uwch (er gwaethaf risg gynhenid uwch)* yn FfSB y Bwrdd Iechyd. O fewn FfSB, mae lefelau Parodrwydd i Dderbyn Risg unigol hefyd yn cael eu cofnodi yn erbyn pob un o'r risgiau a fynegwyd fel y gellir rheoli pob un yn rhagweithiol yn ôl y risg a gyflwynir.

Mae cyfathrebu ac ymgynghori â rhanddeiliaid a phartneriaid mewnol ac allanol, fel y bo'n briodol, ar bob cam o'r broses rheoli risg ac ynghylch y broses yn ei chyfanrwydd, yn bwysig. Bydd amlder y cyfathrebu yn amrywio yn dibynnu ar ddifrifoldeb y risg ac yn cael ei drafod a'i gytuno gyda'r rhanddeiliaid a'r partneriaid yn ôl yr angen. Arweinir y broses hon gan yr unigolyn a enwebwyd fel yr arweinydd i reoli'r risg ac, ar gyfer cyfathrebu â rhanddeiliaid allanol, hwn fydd y Cyfarwyddwr Gweithredol arweiniol penodedig ar gyfer y risg. Fel yr arweinydd dynodedig ar gyfer Rheoli Risg, mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn mynychu Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Bwrdd Iechyd i friffio rhanddeiliaid cyhoeddus ar weithgareddau'r Bwrdd gan gynnwys rheoli risg.

## 11. DATGELIADAU GORFODOL

### 11.1 Safonau Iechyd a Gofal Diwygiedig

Mae safonau Iechyd a Gofal wedi cael eu diwygio o dan Ddyletswydd Ansawdd ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein hadroddiad Dyletswydd Ansawdd.

### 11.2 Parodrwydd am Argyfwng

Roedd gan y Bwrdd Iechyd drefniadau argyfwng a pharhad busnes ar waith yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24, yn unol â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 a'r Canllawiau Cynllunio Brys a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Diweddarwyd a chymeradwywyd y Cynllun Digwyddiadau Mawr gan y Bwrdd ar 30 Medi 2021 ac roedd adolygiad wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2024. Fodd bynnag yng ngoleuni gwersi parhaus o'r pandemig, yr hyn a ddysgwyd o gam cyntaf Ymchwiliad Arena Manceinion, ac ymarferion cenedlaethol eraill, cynhaliwyd adolygiad o'r Cynllun Digwyddiadau Mawr yn 2023 a chymeradwywyd fersiwn wedi'i diweddaru o'r Cynllun Digwyddiadau Mawr gan y Bwrdd ar 25 Mai 2023.

Gweithredwyd trefniadau Parhad Busnes mewn ymateb i nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys gollyngiadau carthion a dŵr oherwydd cyflwr ein prif gyfleusterau ysbyty,

problemau capasiti cleifion, methiannau pŵer a gweithredu diwydiannol. Mae ein trefniadau parhad busnes yn ein galluogi i reoli'r gwaith parhaus o ddarparu ein gwasanaethau yn dilyn tarfu ar fusnes.

### 11.3 Cyfarwyddydau Gweinidogol a Chylchlythyron Iechyd Cymru (CICau)

Mae Cyfarwyddydau Gweinidogol a CICau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod Ebrill 2023-Mawrth 2024 wedi cael eu hystyried a'u gweithredu lle y bo'n briodol. Nodir manylion y Cyfarwyddydau Gweinidogol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2023/24 yn Atodiad 3 ynghlwm wrth y DLlB hwn.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 mae diweddariadau rheolaidd ar weithredu Cylchlythyr Iechyd Cymru a manylion CICau newydd wedi'u rhannu â Thîm Swyddogion Gweithredol Rheoli'r Bwrdd Iechyd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i oruchwylio'r broses.

### 11.4 Adroddiadau Rheoleiddio ac Arolygu

Mae gan yr Adran Llywodraethu Corfforaethol system ffurfiol ar waith i dracio adroddiadau rheoleiddio ac arolygu yn erbyn gofynion statudol. Cyflawnir hyn drwy adroddiad Traciwr Deddfwriaethol a Rheoleiddiol a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i roi sicrwydd bod argymhellion a wneir o fewn adroddiadau o'r fath yn cael eu gweithredu'n briodol. Cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, mae'r traciwr yn cael ei boblogi â gwybodaeth gan Gyfarwyddwyr Gweithredol Arweiniol ac unigolion sy'n atebol am gydymffurfiaeth reoleiddiol.

Mae'r Traciwr Deddfwriaethol a Rheoleiddiol yn cynnwys y canlynol:

- Pob Corff Rheoleiddio sy'n archwilio'r Bwrdd Iechyd.
- Y Safon Reoleiddio sy'n cael ei harchwilio.
- Arweinydd Gweithredol ar gyfer pob archwiliad.
- Pwyllgor sicrwydd lle gellir cyflwyno adroddiadau Rheoleiddio hefyd ynghyd â chynlluniau gweithredu ar gyfer gwella lle bo angen.

Cafodd y Broses Tracio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol ei hadolygu ddiwethaf gan Archwilio Mewnol ym mis Gorffennaf 2023 a chafodd sgôr sicrwydd sylweddol. Mae'r Gyfarwyddiaeth Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn tracio'r holl Argymhellion Archwilio Mewnol ac Argymhellion Archwilio Cymru ynghyd ag ymatebion rheoli. Ychwanegir argymhellion at y tracwyr i'w monitro unwaith y bydd yr adroddiadau wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

### 11.5 Diogelwch Data a Llywodraethu Gwybodaeth

Rheolir risgiau sy'n ymwneud â gwybodaeth yn unol â gofynion Polisi Llywodraethu Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd drwy'r Pwyllgor Deallusrwydd Iechyd a Digidol, sy'n cael ei gadeirio gan Aelod Annibynnol.

Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, fel Gwarcheidwad Caldicott, sy'n gyfrifol am ddiogelu gwybodaeth cleifion. Mae'r holl faterion Llywodraethu Gwybodaeth yn cael eu huwchgyfeirio drwy'r Pwyllgor Deallusrwydd Iechyd a Digidol (PDID).

Gellir gweld papurau'r PDID yma: https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/pwyllgorau-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-deallusrwydd-iechyd-a-digidol/

Cafodd yr eitemau canlynol eu hystyried gan PDID yn 2023-2024:

- Strategaeth Ddigidol Ddiwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Adroddiad Cynnydd Trawsnewid Digidol a’r Strategaeth Ddigidol
- TRhD ar y cyd a Chofrestr Risg Gorfforaethol Llywodraethu Gwybodaeth
- Data a Chydymffurfiaeth Llywodraethu Gwybodaeth (Offerynnau Statudol, Diogelu Data, GDPR, Rhyddid Gwybodaeth, Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth, Staffio a Hyfforddiant Gorfodol)
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol Gwasanaethau Digidol

Y Cyfarwyddwr Deallusrwydd Iechyd a Digidol sy’n ymgymryd â’r rôl Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) sy'n cyflawni rôl hanfodol wrth sicrhau bod risgiau diogelwch gwybodaeth a nodwyd yn cael sylw a bod digwyddiadau'n cael eu rheoli'n briodol.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldebau llym i sicrhau bod data a gwybodaeth bersonol yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n ymwneud â llywodraethu gwybodaeth yn cael eu hymchwilio a'u hadolygu gan y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth.

Yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, cyrhaeddodd cyfanswm o 17 o achosion o dorri data y trothwy i adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn unol â GDPR y DU. Amlinellir crynodeb o'r themâu allweddol isod;

- Achoswyd pum achos o dorri rheolau gan ddata personol yn cael ei anfon i'r cyfeiriad anghywir. Mae hyn yn cynnwys gohebiaeth bost ac e-bost. Yn yr achosion hyn, rydym yn argymell bod gwasanaethau'n adolygu eu harferion mewnol i sicrhau bod llythyrau'n cael eu gwirio ddwywaith cyn cael eu hanfon. Gydag e-byst allanol, mae yna rybudd sy’n rhybuddio'r anfonwr bod y cyfeiriad e-bost yn un allanol cyn i'r e-bost gael ei anfon.

- Roedd pedwar achos o dorri rheolau o ganlyniad i aelodau staff yn cael mynediad at gofnodion clinigol cleifion heb reswm busnes cyfreithlon. Ym mhob achos, mae'r BIP wedi dilyn gweithdrefnau mewnol ac mae ymchwiliad llawn wedi bod i'r toriadau.

- Adroddwyd tri achos o dorri rheolau gan nad oedd cofnodion clinigol papur ar gael. Cynhaliwyd chwiliadau llawn am y cofnodion hyn ac yn o leiaf un achos, rydym yn ymwybodol bod y cofnodion meddygol wedi'u darganfod wedi hynny.

Mae'r holl achosion o dorri data a adroddwyd wedi cael eu cau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth heb unrhyw gamau pellach, er mewn nifer o achosion, cafodd nifer o argymhellion eu gwneud a'u gweithredu.

Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, ni wnaeth BIP Caerdydd a'r Fro ddioddef unrhyw ddiffygion diogelwch data, ac eithrio'r toriadau data hynny a amlinellir yn yr adran uchod a adroddwyd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

### 11.6 Cynllun Pensiwn y GIG

Fel cyflogwr staff sydd â hawl i fod yn aelod o Gynllun Pensiwn y GIG, caiff mesurau rheoli eu rhoi ar waith i sicrhau bod holl rwymedigaethau cyflogwyr yn cael eu cynnwys yn rheoliadau'r Cynllun ac y cydymffurfir â nhw. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau cyflog, cyfraniadau cyflogwyr a thaliadau i'r Cynllun yn unol â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion Cynllun Pensiwn aelodau yn cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r amserlenni â nodir yn y Rheoliadau.

### 11.7 Cod Llywodraethiant Corfforaethol y DU

Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU (y Cod) yw'r prif gyfeiriad a throsolwg o arfer da ar gyfer llywodraethu corfforaethol yn Adrannau'r Llywodraeth Ganolog. Er nad oes gofyniad i gydymffurfio â phob elfen o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, mae'r Bwrdd Iechyd o'r farn ei fod yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod, lle bo hynny'n berthnasol, ac yn dilyn ysbryd y Cod yn effeithiol, yn cynnal ei fusnes mewn modd agored a thryloyw, ac yn unol â'r Cod.

Cynhaliwyd asesiad yn erbyn y Cod ym mis Ebrill 2023. Ni adroddwyd/nodwyd unrhyw wyriadau o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ystod y flwyddyn.

### 11.8 Adolygiad Effeithiolrwydd

Fel y Swyddog Cyfrifol, mae gennyf gyfrifoldeb am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o'r system rheolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, a'r Swyddogion Gweithredol o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wnaed gan Archwilio Cymru yn eu Llythyr Archwilio Blynyddol ac mewn adroddiadau eraill.

| Ffynonellau Mewnol | Ffynonellau Allanol |
|---|---|
| • Adroddiadau rheoli perfformiad<br>• Adroddiadau rheoli newid gwasanaethau | • Gwybodaeth Iechyd y Boblogaeth<br>• Archwilio Cymru<br>• Adroddiadau Asesu Cronfa Risg Cymru (CRC) |

| | |
|---|---|
| • Gwybodaeth ac arolygon o'r gweithlu<br>• Meincnodi<br>• Adroddiadau archwilio mewnol a chlinigol<br>• Adroddiadau Bwrdd a Phwyllgor<br>• Gwaith Gwrth-dwyll lleol<br>• Asesiadau Safonau Iechyd a Gofal<br>• Archwiliadau Cerdded Diogelwch Aelodau Gweithredol ac Annibynnol<br>• Canlyniadau ymchwiliadau mewnol ac adroddiadau Digwyddiadau Difrifol<br>• Pryderon a chanmoliaeth<br>• Chwythu'r Chwiban<br>• Adroddiadau atal a rheoli heintiau<br>• Hunanasesiad pecyn cymorth llywodraethu gwybodaeth<br>• Arolygon ac adroddiadau profiad cleifion<br>• Cydymffurfio â deddfwriaeth (e.e. y Ddeddf Iechyd Meddwl/Iechyd a Diogelwch, Diogelu Data) | • Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)<br>• Adroddiadau ymweliadau a chraffu Cyngor Iechyd Cymuned<br>• Adborth gofal iechyd a phartneriaid trydydd sector<br>• Ymweliadau'r Coleg Brenhinol a'r Ddeoniaeth<br>• Cyrff rheoleiddio, trwyddedu ac arolygu<br>• Meincnodi allanol ac ystadegau<br>• Cynlluniau Achredu<br>• Archwiliadau cenedlaethol<br>• Adolygiadau cymheiriaid<br>• Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth<br>• Rhwydweithiau lleol (e.e. rhwydweithiau canser)<br>• Adroddiadau ac adborth Llywodraeth Cymru |

Nodir ffynonellau sicrwydd pellach o fewn fframwaith rheoli perfformiad a sicrwydd y Bwrdd ei hun ac maent yn cynnwys, heb fod yn gyfyngedig i:

- Sicrwydd uniongyrchol gan reolwyr ar weithredu rheolaethau mewnol trwy'r gadwyn atebolrwydd ar-i-fyny
- Perfformiad a asesir yn fewnol yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal
- Canlyniadau swyddogaethau cydymffurfio mewnol gan gynnwys Dilysu Gwrth-dwyll, Ôl-Dalu Lleol, a rheoli risg
- Cydymffurfiaeth â Chronfa Risg Cymru ynghylch safonau hawliadau a safonau arbenigol penodol eraill a adolygwyd yn ystod y cyfnod

- Adolygiadau a gwblhawyd gan gyrff rheoleiddio ac arolygu allanol gan gynnwys Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Mae effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei gynnal a'i adolygu gan Bwyllgorau'r Bwrdd mewn perthynas â sicrwydd a dderbynnir. Cefnogir hyn hefyd gan FfSB gyda risgiau uchel yn cael eu monitro'n agos gan y Bwrdd a'r Pwyllgorau priodol.

## Llywodraethiant, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

### 11.9 Effeithiolrwydd y Bwrdd a Phwyllgorau

Er mwyn gwerthuso a dangos effeithiolrwydd y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd, cymerwyd y camau canlynol yn ystod 2023-2024:

- Mae Cadeirydd y Bwrdd a Chadeirydd pob Pwyllgor yn adolygu effeithiolrwydd cyfarfodydd unigol fel rhan o'r agenda ym mhob cyfarfod priodol.
- Datblygodd holl Bwyllgorau'r Bwrdd Adroddiad Blynyddol a adolygir gan bob Pwyllgor cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyhoeddus. Mae'r Adroddiadau Blynyddol yn cael eu cymeradwyo gan Gadeirydd y Pwyllgor ac yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod y Pwyllgorau wedi cyflawni eu Cylch Gorchwyl.
- Cynhaliodd y Bwrdd ddiwrnod i ffwrdd ym mis Rhagfyr lle ystyriodd rai o'r gwersi a nodwyd o gyfarfodydd Bwrdd ledled Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

### 12. Archwilio Mewnol

Mae Archwilio Mewnol yn rhoi i mi, fel y Swyddog Cyfrifol, a'r Bwrdd trwy'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, lif o sicrwydd ar y system rheolaeth fewnol. Rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio sydd wedi'i wneud yn unol â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru. Cytunir ar gwmpas y gwaith hwn gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ac mae'n canolbwyntio ar feysydd sydd â risgiau sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol.

Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethiant a rheoli risg yn rhan o swyddogaeth y rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg, ac mae'n cyfrannu at y darlun sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hawydd i weld gwelliant parhaus.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y cafwyd cwmpas archwilio mewnol digonol yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn darparu Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. Wrth ffurfio'r Farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr archwiliadau nad ydynt wedi'u cwblhau'n llawn.

### 12.1 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC), mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol (PAM) ddarparu barn flynyddol, yn seiliedig ar ac yn gyfyngedig i'r gwaith a gyflawnir ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad. Cyflawnir hyn drwy ddarparu cynllun archwilio sydd wedi canolbwyntio ar feysydd risg strategol a gweithredol allweddol a chyfleoedd gwella hysbys, y cytunwyd arno â rheolwyr gweithredol ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio, a ddylai ddarparu lefel briodol o sicrwydd.
Pwrpas barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yw cyfrannu at y sicrwydd sydd ar gael i'r Swyddog Atebol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n sail i asesiad y Bwrdd ei hun o effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y sefydliad.

Mae'r farn gyffredinol yn seiliedig yn bennaf ar ganlyniad y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn archwilio 2023/24. Rydym hefyd yn ystyried gwybodaeth arall sydd ar gael i ni megis ein gwybodaeth gyffredinol am y sefydliad, canfyddiadau darparwyr ac arolygwyr sicrwydd eraill, a'r gwaith rydym yn ei wneud mewn sefydliadau eraill yn GIG Cymru. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn ystyried canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ac yn arfer barn broffesiynol i lunio'r farn fwyaf priodol ar gyfer pob sefydliad.

Nodir barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd cyffredinol ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad isod.

| | | |
|---|---|---|
| **Sicrwydd Rhesymol** |  - + Melyn | Gall y Bwrdd gael **sicrwydd rhesymol** bod trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, wedi'u dylunio'n addas a'u rhoi ar waith yn effeithiol. Mae angen sylw'r rheolwyr ar rai materion yn y meysydd dylunio rheolaeth neu gydymffurfiaeth ag effaith isel i gymedrol o ran y lefel risg bosib, nes y cânt eu datrys. |

Nid yw'r farn yn awgrymu bod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r holl risgiau a sicrwydd sy'n ymwneud â'r Bwrdd Iechyd. Mae'r farn yn deillio'n sylweddol o gynnal gwaith archwilio sy'n seiliedig ar risg a luniwyd o amgylch detholiad o systemau a risgiau sefydliadol allweddol. O'r herwydd, mae'n elfen allweddol y mae'r Bwrdd yn ei hystyried ond ni fwriedir iddi ddarparu barn gynhwysfawr.

Crynhoir manylion yr archwiliadau a gynhaliwyd yn y flwyddyn a'r canlyniadau yn y tabl canlynol:

| Sicrwydd Sylweddol | Sicrwydd Rhesymol |
|---|---|
| • Tracio Argymhellion<br>• Adnewyddu Strategaeth y Bwrdd Iechyd | • Camau Dilynol System TG ChemoCare<br>• System Paris |

| | |
|---|---|
| • Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng - Rhaglen Chwe Nod Llywodraeth Cymru<br>• Systemau Ariannol Craidd (Rheoli Cofrestr Asedau)<br>• Gweithredu'r Cynllun Pobl a Diwylliant (Drafft) | • Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl<br>• *Systemau Cyfalaf*<br>• Parhad Technegol<br>• Atal a Rheoli Heintiau<br>• Rheoli Digwyddiadau Diogelwch Cleifion<br>• Llywodraethu Gwybodaeth<br>• *Datblygiad Endosgopi Ysbyty Athrofaol Llandochau*<br>• Camau dilynol: Seiberddiogelwch<br>• Rheolaeth Ariannol mewn Byrddau Clinigol<br>• Adolygiadau Marwolaethau<br>• Gwasanaethau Canser<br>• Fframwaith Rheoli Risg / Sicrwydd Bwrdd<br>• Camau dilynol: Tracio Cofnodion Meddygol (Diagnosteg Glinigol a Therapiwtig)<br>• Camau dilynol: Rheoli Polisïau'r Bwrdd Iechyd<br>• Rhaglen Digideiddio Gofal Llygaid<br>• Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Clinigol GSCCh<br>• Proses Datblygu CTCI<br>• Sesiynau Ychwanegol Staff Meddygol (o Gynllun 22/23) (Drafft) |
| Sicrwydd Cyfyngedig | Cynghorol a Dim Barn |
| • Bwrdd Clinigol Meddygfeydd – Cynlluniau swyddi ymgynghorol (o Gynllun 22/23)<br>• *Sicrwydd Ystadau – Cyflwr Ystadau*<br>• Safonau Alcohol<br>• System HealthRoster<br>• Costau Staffio Dros Dro<br>• Datgarboneiddio | • *Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol – Rhaglen Ysbytai'r Dyfodol (o Gynllun 22/23)*<br>• Hyfforddi a Datblygu Arweinwyr a Rheolwyr<br>• Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Llywodraethu<br>• Datblygiad Meddygfa Pentyrch – Proses Gwerthuso Safle |

### 12.2 Sicrwydd Cyfyngedig

Yn ystod y flwyddyn cyhoeddodd Archwilio Mewnol chwe adroddiad archwilio gyda chasgliad o sicrwydd cyfyngedig. Roeddent yn cynnwys:

- Bwrdd Clinigol Llawfeddygaeth – Cynlluniau Swyddi Ymgynghorol
- Cyflwr Ystadau
- System Health Roster
- Safonau Alcohol
- Costau Staffio Dros Dro
- Datgarboneiddio

Mae rheolwyr y Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar gamau gweithredu i weithredu argymhellion Archwilio Mewnol ac felly'n mynd i'r afael â'r meysydd gwendid sylweddol a nodwyd trwy'r adroddiadau archwilio sicrwydd cyfyngedig hyn. Mae cynnydd tuag at weithredu'r camau rheoli y cytunwyd arnynt yn cael ei fonitro drwy broses tracio argymhellion y Bwrdd Iechyd ac yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn rheolaidd.

Nid oedd unrhyw feysydd archwiliedig lle cafodd y Bwrdd Iechyd sgôr asesu "Dim sicrwydd".

## 13. Archwiliad Allanol - Archwilio Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Archwilydd Allanol statudol y Bwrdd Iechyd ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal archwiliadau ar ei ran. Gelwir Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gyda'i gilydd yn Archwilio Cymru. Mae Archwilio Cymru yn craffu ar systemau a phrosesau ariannol y Bwrdd Iechyd, rheoli perfformiad, meysydd risg allweddol a'r swyddogaeth Archwilio Mewnol (https://www.audit.wales/)

### 13.1 Adroddiad Archwilio Blynyddol 2023

Mae rhaglen waith flynyddol Archwilio Cymru yn y Bwrdd Iechyd wedi'i nodi yn y Cynllun Archwilio. Ar 4 Ebrill 2023 derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Gamau Amlinellol Archwilio Cymru 2023. Trafododd y Pwyllgor y cynllun archwilio manwl ym mis Mai 2023.

Mae adroddiadau a gynhyrchwyd gan Archwilio Cymru yn unol â'r Cynllun Archwilio yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae Ymateb Rheolwyr yn cael ei baratoi ar gyfer adroddiadau sy'n cynnwys argymhellion. Mae'r holl argymhellion yn cael eu cofnodi wedyn yn y Traciwr Argymhellion Archwilio Allanol. Darperir Adroddiad Tracio i bob Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i roi sicrwydd ar ei weithrediad.

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith y Bwrdd Iechyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd:

| Adroddiad | Mis |
|---|---|
| Diweddariadau Archwilio Ariannol | Ebrill, Medi a Thachwedd 2023 Chwefror 2024 |
| Diweddariadau Archwilio Perfformiad | Ebrill, Medi a Thachwedd 2023 Chwefror 2024 |
| Adroddiad Archwilio Cyfrifon - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Gorffennaf 2023 |
| Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r Afael â'r Ôl-groniad Rhestr Aros | Gorffennaf 2023 |
| Adroddiad Orthopedig ac Ymateb Rheolwyr Archwilio Cymru<br><br>Adroddiad Atodol Archwilio Cyfrifon | Medi 2023 |
| Cronfeydd Elusennol (Cyfrifon 2023-24) | Ionawr 2024 |
| Asesiad Strwythuredig 2023<br><br>Adolygiad o Drefniadau Cynllunio'r Gweithlu | Chwefror 2024 |
| Adroddiad Archwilio Blynyddol 2023<br><br>(Gellir cael copi gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:<br><br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Adroddiad Archwilio Blynyddol 2023 \| Archwilio Cymru | Chwefror 2024 |

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd hefyd yn adolygu canlyniadau adolygiadau cenedlaethol traws-sectoraidd yn y cyfarfod cynharaf posibl yn dilyn eu cyhoeddi.

Nid oedd Adroddiad Archwilio Blynyddol 2023 yn nodi unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel sy'n berthnasol i'r archwiliad)

Cafodd Cynllun Archwilio manwl ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 11 Mai 2023.

### 13.2 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Asesiad Strwythuredig

Mae Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru ar gyfer 2023 yn darparu asesiad o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Gwnaeth yr Asesiad Strwythuredig ar gyfer 2023 nifer o ganfyddiadau y mae rhai ohonynt yn cynnwys:

- Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal systemau sicrwydd corfforaethol da, mae cyfleoedd i wella trefniadau rheoli risg gweithredol, adrodd ar berfformiad, a goruchwylio tracio argymhellion.

- Mae gan y Bwrdd drefniadau da o hyd ar gyfer goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol ac mae wedi diweddaru ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd i alinio risgiau ag amcanion, blaenoriaethau a ffrydiau gwaith strategol diwygiedig y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn parhau i wella trefniadau rheoli risg gweithredol. Mae'r Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth dda o berfformiad sefydliadol, ond mae yna gyfleoedd i gryfhau'r Adroddiad Perfformiad Integredig gwell yn ogystal ag adolygu'r Fframwaith Rheoli Perfformiad i sicrhau ei fod yn cefnogi’r gwaith o gyflawni'r amcanion strategol diwygiedig. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau newydd o ran ansawdd a gonestrwydd ac mae'n gwella ei ddull cyffredinol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cryf ar gyfer tracio argymhellion archwilio ac adolygu, mae cyfleoedd yn bodoli i wella'r trefniadau hyn ymhellach i gefnogi dysgu a gwella.

- Canfuwyd, er gwaethaf prosesau clir ar gyfer cynllunio ariannol, rheoli a monitro, fod sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-24 yn heriol.

- Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau a'i amcanion ariannol ar gyfer 2022-23, ac mae'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2023-24 yn parhau i fod yn heriol. Mae gan y Bwrdd Iechyd agwedd dda tuag at gynllunio ariannol, ac mae wedi gosod targed arbedion uchelgeisiol gyda ffocws clir ar welliannau ansawdd a sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Mae trefniadau ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth a rheolaethau ariannol wedi cael eu cryfhau. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn o hyd ar gyfer goruchwylio a chraffu ar berfformiad ariannol, gydag adroddiadau ariannol clir sy'n agored am heriau a risgiau ariannol.

Gellir cael gafael ar yr Asesiad Strwythuredig trwy'r ddolen ganlynol:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Asesiad Strwythuredig 2023 | Archwilio Cymru

## 14. Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 - Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi

Cyhoeddwyd Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ym mis Mai 2017 i dynnu sylw at yr angen, ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi, i sicrhau bod arferion cyflogaeth da yn bodoli ar gyfer pob gweithiwr, yn y DU a thramor. Mae disgwyl y bydd holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn cofrestru ar gyfer y Cod.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi egwyddorion a gofynion y Cod a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn llawn ac mae wedi ymrwymo i chwarae ei rôl fel cyflogwr sector cyhoeddus mawr i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesol, megis:

- Caethwasiaeth Fodern a Thorri Hawliau Dynol;
- Gweithredu cosbrestrau/rhestrau gwaharddedig;
- Hunangyflogaeth ffug;
- Defnydd annheg o gynlluniau ymbarél a chontractau dim oriau; a
- Thalu'r Cyflog Byw.

Mae'r **camau canlynol ar waith** sy'n cyflawni ymrwymiadau'r Cod:

- Mae gennym Bolisi Codi Pryderon (Chwythu'r Chwiban), sy'n rhoi proses deg a thryloyw i'r gweithlu, i'w grymuso a'u galluogi i godi amheuon am unrhyw fath o gamymddwyn gan naill ai ein staff neu gyflenwyr/contractwyr sy'n gweithio ar safle'r Bwrdd Iechyd;
- Mae gennym darged ar waith i dalu ein cyflenwyr o fewn 30 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys;
- Rydym yn cydymffurfio â chwe gofyniad gwiriadau cyn cyflogaeth y GIG i wirio bod ymgeiswyr yn bodloni rhagamodau'r rôl y maent yn gwneud cais amdani. Mae hyn yn cynnwys gwiriad hawl i weithio;
- Rydym wedi cyflwyno prosesau IR35 cadarn i sicrhau ymgysylltiad teg a phriodol i'r holl weithwyr ac atal unigolion rhag osgoi talu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol;
- Nid ydym yn cyflogi staff na gweithwyr ar gontractau dim oriau;
- Mae gennym Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith sy'n sicrhau nad oes unrhyw ymgeisydd, cyflogai neu weithiwr posibl, yr ymgysylltir â nhw mewn unrhyw ffordd, o dan anfantais ormodol o ran cyflog, hawliau cyflogaeth, cyflogaeth na chyfleoedd gyrfa;
- Rydym hefyd yn gofyn am sicrwydd gan gyflenwyr, drwy'r broses dendro, nad ydynt yn defnyddio cosbrestrau/rhestrau gwaharddedig. Rydym hefyd yn gallu darparu cadarnhad a sicrwydd nad ydynt yn defnyddio gwybodaeth cosbrestrau/rhestrau gwaharddedig;
- Yn unol â'r Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) bydd unrhyw staff Bwrdd Iechyd y gallai fod gofyn iddynt drosglwyddo i drydydd parti yn cadw eu Telerau ac Amodau Gwasanaeth GIG;
- Rydym yn defnyddio traciwr cydymffurfiaeth Deddf Caethwasiaeth Fodern (2015) ar ffurf contractau a gaffaelwyd gan Bartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru (PGRGC) ar ran y Bwrdd Iechyd. Mae PGRGC yr un mor ymrwymedig i sicrhau bod gweithgarwch caffael a gynhelir ar ran GIG Cymru yn cael ei gynnal mewn ffordd foesegol. Ar ein rhan, maent yn sicrhau bod gweithwyr o fewn y cadwyni cyflenwi y maent yn dod o hyd i'n nwyddau a'n gwasanaethau drwyddynt yn cael eu trin yn deg, yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol ac undebau llafur partner i ddatblygu a gweithredu camau gweithredu

sy'n nodi ein hymrwymiad i sicrhau bod egwyddorion cyflogaeth foesegol o fewn ein cadwyni cyflenwi yn cael eu gweithredu a'u dilyn.

## 15. Casgliad

Fel Swyddog Cyfrifol, yn seiliedig ar y broses sicrwydd a amlinellir uchod, rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a'r sicrwydd perthnasol mewn perthynas â rheolaeth fewnol. Gallaf gadarnhau bod y Bwrdd a'i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn effro i'w rhwymedigaethau mewn perthynas â rheolaeth fewnol.

Yn ystod 2023-2024, rydym unwaith eto wedi nodi meysydd sydd angen eu gwella yn rhagweithiol ac wedi gofyn i Archwilio Mewnol gynnal asesiadau manwl er mwyn rheoli a lliniaru risgiau cysylltiedig. Mae nifer o adroddiadau a gyhoeddwyd gan Archwilio Mewnol yn cytuno â'n barn ac o ganlyniad wedi rhoi argymhellion clir i'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod camau rheoli penodol a brys ar waith i fynd i'r afael â diffygion a nodwyd. Yna caiff y camau hyn eu monitro drwy'r Bwrdd a'i Bwyllgorau i sicrhau y gellir rhoi sicrwydd priodol. Roedd Asesiad Strwythuredig 2023 y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru yn rhoi darlun cadarnhaol o drefniadau corfforaethol y sefydliad i gefnogi llywodraethu da a’r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau yn y rhan fwyaf o feysydd.

Mae’r ymateb a'r adferiad parhaus o’r pandemig Covid-19, ynghyd â’r argyfwng costau byw, lefelau chwyddiant uchel iawn ac effaith rhyfel Wcráin ar brisiau ynni, wedi cael effaith sylweddol ar y sefydliad, y GIG ehangach a chymdeithas yn ei chyfanrwydd. Mae wedi gofyn am ymateb deinamig sydd wedi cyflwyno nifer o gyfleoedd yn ogystal â risgiau. Bydd yr angen i barhau i wella o'r pandemig yn pwyso ar y sefydliad a chymdeithas yn ehangach drwy gydol 2024-2025 a thu hwnt. Byddaf yn sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu yn ystyried ac yn ymateb i'r angen hwn.

Mae adnewyddu Strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd yn cynnig cyfleoedd i gryfhau ein trefniadau ymhellach drwy sicrhau strwythurau, prosesau ac adnoddau allweddol yn erbyn yr hyn sy'n parhau i fod yn amgylchedd heriol iawn i weithredu ynddo. Bydd ein hymrwymiad i ansawdd yn rhan annatod o'n Strategaeth ac yn ein Cynllun Blynyddol, a bydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn parhau i esblygu o ran cefnogaeth.
Rwy'n hyderus bod ein systemau rheolaeth fewnol wedi parhau'n gadarn drwy gydol y pandemig ac yn awr i mewn i’r cyfnod adfer, ac rwyf wedi cael sicrwydd na fu unrhyw broblemau rheolaeth fewnol neu lywodraethu sylweddol yn ystod 2023-24.

I grynhoi, mae fy adolygiad yn cadarnhau bod gan y Bwrdd systemau cadarn o reolaeth fewnol ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni nodau polisi a'n hamcanion corfforaethol ac nad oes unrhyw faterion rheolaeth fewnol neu lywodraethu sylweddol i'w hadrodd ar gyfer 2023-2024.

**Llofnodwyd gan**

| | | |
|---|---|---|
| Suzanne Rankin<br>Prif Weithredwr | | Dyddiad: |

## Atodiadau

## Atodiad 1

**Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd a Phwyllgorau 2023-2024**

| Enw | Lleoliad a dyddiadau | Maes Arbenigedd / Rôl Gynrychioli | Aelodaeth a Chofnod Presenoldeb Pwyllgorau Bwrdd | Rolau Pencampwr |
|---|---|---|---|---|
| **Yr Athro Charles Janczewski** | **Cadeirydd**<br><br>1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024 | | • Bwrdd 6/6<br>• Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (ByY) 3/3<br>• ADPh 1/10<br>• Cyllid a Pherfformiad (CaPh) 10/12<br>• Archwilio a Sicrwydd (AaS) 1/7 | Gweithio i Wella<br><br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
| **Yr Athro Ceri Phillips** | **Is-gadeirydd**<br><br>1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024 | | • Bwrdd 6/6<br>• ByY 3/3<br>• CaPh 10/12<br>• AaS 5/7<br>• DIMDGM 4/4<br>• ADPh 9/10 | Iechyd Meddwl |
| **Yr Athro Keith Harding** | **Aelod Annibynnol**<br><br>1 Ebrill 2023 i 30 Tachwedd 2023 | **Prifysgol** (yn wag ar hyn o bryd) | • Bwrdd 3/4<br>• ByY 1/2<br>• CaPh 5/8<br>• Cronfeydd Elusennol 2/2<br>• Deallusrwydd Iechyd a Digidol (DID) 1/3<br>• CaPh 5/8<br>• ADPh 5/7 | |
| **David Edwards** | **Aelod Annibynnol**<br><br>1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | • Bwrdd 5/6<br>• ByY 2/3<br>• CaPh 8/12<br>• AaS 3/7<br>• DID 4/4 | Y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Y Cynghorydd Susan Elsmore** | **Aelod Annibynnol**<br><br>1 Ebrill 2023 i 31 Hydref 2023 | **Awdurdod Lleol** | • Bwrdd 2/3<br>• ByY 1/2<br>• Cronfeydd Elusennol 2/2<br>• DIMDGM 1/3<br>• PaD 3/3 | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) |
| **Akmal Hanuk** | **Aelod Annibynnol**<br><br>1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024 | **Cymuned Leol** | • Bwrdd 6/6<br>• ByY 3/3<br>• ADPh 10/10<br>• DID 4/4<br>• PaD 4/6 | Atal a Rheoli Heintiau |
| **Sara Moseley** | **Aelod Annibynnol**<br><br>1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024 | **Trydydd Sector (Gwirfoddol)** | • Bwrdd 5/6<br>• ByY 2/3<br>• Cronfeydd Elusennol 4/5<br>• DIMDGM 4/4<br>• PaD 6/6 | Cydraddoldeb |
| **Dr Rhian Thomas** | **Aelod Annibynnol**<br><br>1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024 | **Cyfalaf ac Ystadau** | • Bwrdd 6/6<br>• ByY 3/3<br>• AaS 6/6<br>• DIMDGM 3/4<br>• ADPh 9/10<br>• PaD 6/6 | Plant a Phobl Ifanc |
| **John Union** | **Aelod Annibynnol**<br><br>1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024 | **Cyllid** | • Bwrdd 5/6<br>• ByY 3/3<br>• CaPh 12/12<br>• AaS 7/7<br>• Cronfeydd Elusennol 5/5 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mike Jones** | **Aelod Annibynnol**<br><br>1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024 | **Undeb Llafur** | • Bwrdd 6/6<br>• ByY 3/3<br>• AaS 7/7<br>• ADPh 8/10<br>• PaD 5/6 | Mynegi Pryderon |
| **Michael Imperato** | **Aelod Annibynnol**<br><br>1 Ebrill 2023 - 31 Awst 2023 | **Cyfreithiol** (yn wag ar hyn o bryd) | • Bwrdd 1/2<br>• ByY 1/1<br>• CaPh 5/5<br>• DID 1/2 | |
| **Sam Austin**<br><br><br><br><br><br>**Lani Tucker** | **Aelod Cyswllt**<br><br>1 Ebrill 2023 i 30 Medi 2023<br><br>1 Ionawr 2024 i 31 Mawrth 2024 | **Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid** | • Bwrdd 1/3<br><br><br><br><br><br>• Bwrdd 2/2 | |
| **Lance Carver** | **Aelod Cyswllt**<br><br><br>1 Ebrill 2023 i 28 Chwefror 2024 | **Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg** | • Bwrdd 0/5 | |
| **Suzanne Rankin** | **Prif Swyddog Gweithredol**<br><br>1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024 | | • Bwrdd 6/6<br>• ByY 1/3<br>• CaPh 1/12<br>• DIMDGM 1/4<br>• ADPh 3/10<br>• DID 2/4 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Catherine Phillips** | **Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid**<br><br>1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024 | **Cyllid** | • Bwrdd 3/6<br>• ByY 3/3<br>• CaPh 12/12<br>• AaS 7/7<br>• Cronfeydd Elusennol 5/5 | |
| **Yr Athro Meriel Jenney** | **Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol**<br><br>1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024 | **Meddygol / Ansawdd a Diogelwch** | • Bwrdd 4/6<br>• ByY 1/3<br>• ADPh 8/10<br>• PDID 1/4 | Caldicott |
| **Jason Roberts** | **Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio**<br><br>1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024 | **Nyrsio / Ansawdd a Diogelwch** | • Bwrdd 6/6<br>• ByY 2/3<br>• DIMDGM 1/4<br>• ADPh 10/10<br>• PaD 2/6 | Plant a Phobl Ifanc<br><br>Gweithio i Wella |
| **Paul Bostock** | **Prif Swyddog Gweithredu**<br><br>1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024 | **Gweithrediadau** | • Bwrdd 5/6<br>• ByY 2/3<br>• CaPh 12/12<br>• DIMDGM 1/4<br>• ADPh 6/10<br>• PaD 1/6 | Nodwedd warchodedig oedran |
| **Abigail Harris** | **Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol**<br><br>1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024 | **Ystadau a Chynllunio** | • Bwrdd 5/6<br>• ByY 2/3<br>• CaPh 9/12 | Cynllunio at Argyfwng |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dr Fiona Jenkins** | **Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd**<br><br>1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024 | **Therapïau a Gwyddorau Bywyd** | • Bwrdd 5/6<br>• ByY 2/3<br>• ADPh 7/10<br>• Cronfeydd Elusennol 3/5<br>• DID 2/4<br>• PaD 2/6 | Y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr |
| **Rachel Gidman** | **Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant**<br><br>1 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2023 | **Y Gweithlu** | • Bwrdd 6/6<br>• ByY 3/3<br>• AaS 5/7<br>• Cronfeydd Elusennol 3/5<br>• PaD 4/6 | Diogelwch Tân<br><br>Trais ac Ymddygiad Ymosodol<br><br>Y Gymraeg |
| **Fiona Kinghorn**<br><br><br><br><br><br><br><br><br>**Claire Beynon** | **Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd**<br><br>1 Ebrill 2023 i 31 Rhagfyr 2023<br><br><br><br><br>1 Ionawr 2023 i 31 Mawrth 2024 Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd | **Cyhoeddus Iechyd** | • Bwrdd 4/4<br>• ByY 2/2<br>• ADPh 4/8<br>• PaD 4/4<br><br><br><br><br><br>• Bwrdd 1/2<br>• ByY 1/1<br>• ADPh 1/2<br>• PaD 2/2 | Nodwedd warchodedig Rhyw/Rhywedd |

| Enw | Swydd | Maes Arbenigedd / Rôl Gynrychioli | Aelodaeth a Chofnod Presenoldeb Pwyllgorau Bwrdd | Rolau Pencampwr |
|---|---|---|---|---|
| **Aelodau nad ydynt yn pleidleisio** | | | | |
| **James Quance** | **Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro** | **Llywodraethiant** | • Bwrdd 2/2<br>• ByY 1/1<br>• CaPh 4/4<br>• AaS 4/4<br>• DID 1/1 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Matt Phillips** | 1 Ebrill 2023 i 31 Gorffennaf 2023<br><br>**Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol** | | • Cronfeydd Elusennol 0/3<br>• DIMDGM 2/2<br>• ADPh 3/3<br>• PaD 2/2<br><br>• Bwrdd 4/4<br>• ByY 1/2<br>• AaS 3/3<br>• CaPh 8/8<br>• DID 3/3<br>• ADPh 5/6<br>• DIMDGM 2/2<br>• Cronfeydd Elusennol 4/4<br>• PaD 4/4 | |
| **David Thomas** | **Cyfarwyddwr Deallusrwydd Iechyd a Digidol**<br><br>1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024 | **Digidol** | • Bwrdd 6/6<br>• ByY 0/3<br>• DID 4/4<br>• PaD 4/6<br>• AaS 2/7 | |

## Atodiad 2

## Dyddiadau cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod 2023-2024

Mae Tablau 1 a 2 yn amlinellu, yn y drefn hon, (i) dyddiadau'r cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod **2023-2024,** a (ii) dyddiadau cyfarfodydd Grŵp Cynghori a gynhaliwyd yn ystod **2023-2024**, gan dynnu sylw at unrhyw gyfarfodydd lle nad oedd cworwm:

Tabl 1 - Dyddiadau cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod **2023-2024**

| Bwrdd/Pwyllgor | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwef | Maw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bwrdd** | | 25 | | 27 | | 28 | | 30 | | 25 | | 28 |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Bwrdd yr Ymddiriedolwyr** | 20 | | | | | | 05 | | | 18 | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd** | 04 | 11 | | 04 a 25* | | 05 | | 07 | | | 06 | |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Cronfeydd Elusennol** | | | 20 | | | 19 | | | 05 | 30* | | 19 |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Deallusrwydd Iechyd a Digidol** | | 30 | | | 15 | | 03 | | | | 13 | |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Cyllid** | 19 | 17 | 21 | 19 | 23 | 20 | 18 | 22 | 13 | 17 | 21 | 20 |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Pobl a Diwylliant** | | 16 | | 11 | | 12 | | 14 | | 23 | | 12 |
| | | | | | | | | | | | | |
| Deddfwriaeth Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol | | 02 | | | 01 | | 31 | | | 30 | | |
| | | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad** | 11 | 09 | | 18 | 30 | 26 | 25 | 28 | 19 | | 13 | 26 |
| | | | | | | | | | | | | |

<u>*Cyfarfodydd Arbennig</u>

Cafwyd cworwm yn yr holl gyfarfodydd a gynhaliwyd.

Lle nad oedd cworwm, roedd trefniadau uwchgyfeirio ar waith i sicrhau y gellid codi unrhyw faterion o bryder sylweddol na ellid eu dwyn i sylw'r Pwyllgor gyda Chadeirydd y Bwrdd Iechyd.

<u>Tabl 2 - Dyddiadau'r cyfarfodydd Grŵp Cynghori a gynhaliwyd yn ystod 2023-2024</u>

| Grwpiau Cynghori | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwef | Maw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid** | | 23 | | 25 | | 26 | | 28 | | 29 | | 26 |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Fforwm Partneriaeth Lleol** | 13 | | 08 | | | | 12 | | 12 | | 08 | |
| | | | | | | | | | | | | |

Cynrychiolwyd y Bwrdd Iechyd hefyd ar y Cydbwyllgorau canlynol:

- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC)
- Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (PGAB)
- Pwyllgor Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru (PGRGC)

Mae adroddiadau/bwletinau sicrwydd o'r Pwyllgorau uchod yn cael eu cofnodi ar agenda'r Bwrdd yn ôl yr angen

## Atodiad 3

### Cyfarwyddydau Gweinidogol

| Cyfarwyddydau Gweinidogol (CGau) | Dyddiad / Blwyddyn Mabwysiadu | Cam Gweithredu i Ddangos Gweithredu / Ymateb |
|---|---|---|
| **(WG23-14) Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol o ran Cyfarwyddydau Datganiad o Hawliau Ariannol (Diwygio) (Rhif 2) 2023** | 30.08.2023 | Lledaenwyd |
| **(WG23-27) Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Cynllun Peilot E-Bresgripsiynu) 2023** | 01.06.2023 | Dd/B Mae hwn yn newid mewn deddfwriaeth a oedd yn ofynnol i alluogi peilot e-bresgripsiynu cenedlaethol |
| **(WG23-36) Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Y Ffliw a'r Cynllun Imiwneiddio Niwmococaidd) (Gwasanaeth Ychwanegol dan Gyfarwyddyd) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2023** | 28.07.2023 | Fframwaith yn bodoli pe bai contractwyr Gofal Sylfaenol yn bwriadu cyflwyno'r brechlyn |
| **(WG23-37) Cyfarwyddydau Cynllun Llaeth Meithrin (Cymru) (Diwygio) 2023** | 31.07.2023 | Lledaenwyd |
| **(WG23-40) Cyfarwyddydau i Gyfarwyddydau Byrddau Iechyd Lleol o ran y Datganiad o Hawliau Ariannol (Diwygio) (Rhif 3) 2023** | 07.08.2023 | Lledaenwyd |
| **(WG23-47) Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru) (Cymru) 2023** | 26.10.2023 | Lledaenwyd i bractisau |
| **(WG24-01) Cyfarwyddydau Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru (Rhestr Weinyddol) (Cymru) 2024** | 05.01.2024 | Fel uchod |
| **(WG24-02) Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru) (Cymru) 2024** | 05.01.2024 | Lledaenwyd |
| **(WG24-04) Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol o ran Datganiad o Hawliau Ariannol (Diwygio) 2024** | 09.02.2024 | Lledaenwyd |
| **(WG24-06) Cyfarwyddydau Pwyllgor Cydgomisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024** | 07.02.2024 | Dd/B – i'w weithredu gan Bwyllgor Cydgomisiynu GIG Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| **(WG24-08) Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2024** | 01.04.2024 | Dd/B – i'w weithredu gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre |
| **(WG24-09) Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru) (Cymru) (Rhif 2) 2024** | 01.04.2024 | Lledaenwyd |
| **(2016 Rhif (W)) Cyfarwyddydau Pwyllgor Gwasanaeth Golwg Isel (Cymru) 2016 (gyda diwygiadau wedi'u cydgrynhoi)** | 26.10.2023 | Nodwyd |
| **(2016 Rhif 10) Cyfarwyddydau Pwyllgor Archwiliadau Iechyd Llygaid (Cymru) 2016 (gyda diwygiadau wedi'u cydgrynhoi)** | 26.10.2023 | Nodwyd |
| **(2016 Rhif 10) Cyfarwyddydau Pwyllgor Archwiliadau Iechyd Llygaid (Cymru) 2016 (gyda diwygiadau wedi'u cydgrynhoi)** | 05.01.2024 | Nodwyd |
| **(2016 Rhif (W)) Cyfarwyddydau Pwyllgor Gwasanaeth Golwg Isel (Cymru) 2016 (gyda diwygiadau wedi'u cydgrynhoi)** | 05.01.2024 | Nodwyd |

## Cylchlythyrau Iechyd Cymru

Mae holl Gylchlythyrau Iechyd Cymru yn cael eu hadolygu a'u brysbennu i'r Weithrediaeth ac Arweinwyr Gweithredol o fewn y sefydliad. Mae gweithrediad cynnydd yn erbyn pob cylchlythyr yn cael ei dracio gan Dîm Risg a Rheoleiddio'r Bwrdd Iechyd a'i adrodd o bryd i'w gilydd mewn Cyfarfodydd Swyddogion Gweithredol Rheoli.

| CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU | DYDDIAD / BLWYDDYN MABWYSIADU | CAM GWEITHREDU I DDANGOS GWEITHREDU / YMATEB |
|---|---|---|
| **(WHC/2023/003) Canllaw ar gyfer ymchwilio i nam datblygiadol cynnar cymedrol neu ddifrifol neu anabledd deallusol (EDI/ID)** | 04.04.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/008) Argymhellion SaBTO FAIR III i'r broses rhoi meinwe a chelloedd** | 25.09.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/009) Brechu plant rhwng 6 mis a 4 oed mewn grŵp risg clinigol COVID-19** | 06.04.2023 | |
| **(WHC/2023/010) Ardystio Nam ar y Golwg mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol** | 28.06.2023 | |
| **(WHC/2023/011) Canllawiau NICE ar Hunan-niweidio: asesu, rheoli ac atal ailadrodd** | 21.04.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Ansawdd, Diogelwch a Gwella a'r Byrddau Clinigol Iechyd Meddwl a Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol i'w lledaenu i Glinigwyr Gofal Sylfaenol ac Eilaidd. |
| **(WHC/2023/012) Ffurflenni monitro ariannol GIG Cymru, 2023 i 2024** | 26.04.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/013) Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023** | 02.05.2023 | |
| **(WHC/2023/015) Cyfnodau arsylwi/brechiadau COVID-19 ar ôl gwella o COVID-19** | 09.05.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/016) Gweithredu'r symudiad i un dos o'r brechlyn HPV yng Nghymru** | 10.05.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/017)** | 12.05.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er |

| | | |
|---|---|---|
| **Polisi Cenedlaethol Gweithredol GIG Cymru ar Adrodd a Rheoli Digwyddiadau Diogelwch Cleifion** | | gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/018) Cyflwyno HL7 FHIR fel safon sylfaenol yn holl Gyrff GIG Cymru** | 14.06.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/019) I gefnogi atal hunanladdiad a hunan-niweidio: Canllawiau CMC a NICE ar ddatgelu gwybodaeth ar gyfer amddiffyn cleifion ac eraill** | 01.06.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol a chydweithwyr er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/021) Diweddariad Caniatâd i Archwiliad neu Driniaeth** | 08.08.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/022) Cyfamod y Lluoedd Arfog – Blaenoriaeth Gofal Iechyd / Ystyriaeth Arbennig i Gyn-filwyr / Cyn-bersonél y Lluoedd Arfog** | 24.06.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/023) Rhaglen Imiwneiddio Ffliw Genedlaethol 2023-24** | 22.06.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/024) Newid Brechlyn ac Ehangu Carfan ar gyfer Rhaglen Frechu'r Eryr (o fis Medi 2023)** | 28.06.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/025) Llwybr amheuaeth o ganser: canllawiau** | 20.07.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol a chydweithwyr er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/026) Fframwaith y GIG ar gyfer ymchwil a datblygu – Research Matters – sut olwg sydd ar ragoriaeth yn GIG Cymru** | 28.07.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â chydweithwyr perthnasol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/028) Tynnu WHC/2019/042 yn ôl mewn perthynas â datganiadau ansawdd blynyddol** | 01.08.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol a chydweithwyr er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/029) Rhaglen Frechu Anadlol y Gaeaf: Hydref a Gaeaf 2023 i 2024** | 17.08.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol a chydweithwyr er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/030) Safonau Diogelwch Cenedlaethol 2023 newydd ar gyfer Gweithdrefnau Ymledol (NatSSIPS2) gan y Ganolfan Gofal Amdriniaethol (CPOC) a Hysbysiad Diogelwch Cleifion PSN 034** | 22.08.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |

| | | |
|---|---|---|
| **(WHC/2023/031) Nodau gwella heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd 2023-24** | 22.08.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/032) Diwygiadau i Reolau Sefydlog Enghreifftiol a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol – GIG Cymru** | 24.10.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/033) Cynhyrchion Brechlyn i'w defnyddio yn Rhaglen Frechu COVID-19 Hydref 2023** | 01.09.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/034) Cynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd GIG Cymru** | 25.09.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol a chydweithwyr er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/035) Diweddariad ar y canllaw ar glirio a rheoli gweithwyr gofal iechyd sy'n byw gyda firws a gludir yn y gwaed (BBV) a neges atgoffa am gliriad iechyd ar gyfer Twbercwlosis** | 01.10.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/036) Fframwaith Codi Llais yn Ddiogel – GIG Cymru** | 15.09.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol a chydweithwyr er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/037) Fframwaith Profi Cleifion ar gyfer Hydref / Gaeaf 2023** | 26.09.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/038) Cwrs eDdysgu Cychwyn Iach** | 09.11.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol a chydweithwyr er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/039) Awdurdodi trallwysiad cydrannau gwaed yn annibynnol (IABT) – 2023 i 2026** | 27.11.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu ag Arweinwyr Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/040) GIG Cymru: Archwiliad Corfforol Newydd-anedig a Babanod Cymru (NIPEC)** | 09.11.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu ag Arweinwyr Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/041) Adnewyddu'r cynllun gweithredu clefydau prin 2022 i 2026** | 05.01.2024 | |
| **(WHC/2023/043) Brechu Staff Gofal Iechyd i Amddiffyn Rhag y Frech Goch** | 14.12.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/044) Newid i'r rhaglen frechu rhag y ffliw 2023 i 2024** | 11.12.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/045) Cofnodi codau darllen dementia** | 21.02.2024 | |
| **(WHC/2023/046) Fframwaith rheoli Cymru gyfan ar gyfer capasiti gweithlu hyblyg** | 13.12.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu ag Arweinwyr Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/047) Brechlynnau ffliw a charfannau cymwys ar gyfer tymor 2024 i 2025** | 21.12.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2023/048) Dyraniad Refeniw Bwrdd Iechyd 2024-25** | 21.12.2023 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2024/001) Newidiadau i'r ffordd y mae'r unigolion sydd â'r risg uchaf o COVID-19 yn cael profion llif unffordd a thriniaethau COVID-19** | 11.02.2024 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2024/002) Safonau ar gyfer Sicrhau Cymhwysedd Presgripsiynwyr Anfeddygol yng Nghymru** | 08.03.2024 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2024/004) Paratoi meddyginiaeth ddiheintiedig yn GIG Cymru** | 12.02.2024 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2024/005) Llawdriniaeth gordewdra breifat a'r GIG yng Nghymru** | 01.02.2024 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2024/006) Y canllaw clinigol cenedlaethol ar gyfer strôc** | 22.03.2024 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2024/008) Brechu plant i amddiffyn yn erbyn y frech goch** | 02.02.2024 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2024/009) Pigiad atgyfnerthu'r gwanwyn COVID-19 2024** | 08.02.2024 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2024/010) Cynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd GIG Cymru: dyddiad newydd** | 04.03.2024 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |
| **(WHC/2024/011) Newidiadau i gyngor dietegol Llywodraeth Cymru ar gyfer plant ifanc** | 06.03.2024 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |

| | | |
|---|---|---|
| **(WHC/2024/012)**<br>**Tiwtoriaeth nyrsio a goruchwyliaeth glinigol adferol: datganiad sefyllfa** | 21.03.2024 | Cylchlythyr wedi'i rannu â'r Arweinydd Gweithredol er gwybodaeth ac er mwyn gweithredu. |

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff

## Rhan 2b

## 16. Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff

### 16.1 Niferoedd Staff

Mae proffil gweithlu'r Bwrdd Iechyd yn nodi bod tua 76% o'r gweithlu yn fenywaidd. Nid yw hyn yn gynrychioliadol o'r gymuned leol lle mae ychydig dros hanner y boblogaeth yn fenywaidd. Roedd nifer y cyfarwyddwyr, rheolwyr a chyflogeion benywaidd a gwrywaidd ar 31 Mawrth 2024 fel a ganlyn:

| | **Benywaidd** | **Gwrywaidd** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwr | 9 | 8 | 17 |
| Rheolwr | 189 | 119 | 308 |
| Cyflogai | 13,335 | 4,202 | 17,537 |
| **Cyfanswm** | 13,533 | 4,329 | 17,862 |

### 16.2 Cyfansoddiad Staff

Mae gennym weithlu amrywiol o 17,862 o staff sy'n gweithio mewn sawl math gwahanol o rôl, ac ynghyd â gwirfoddolwyr, cydweithwyr gofal cymdeithasol a gofalwyr, rydym yn cael effaith enfawr ar ein poblogaeth. Mae'n rhaid i ni wybod a deall siâp ein gweithlu os ydym am fonitro ac adolygu cynlluniau sy'n arwain yn llwyddiannus at greu'r gweithlu cywir ar yr adeg gywir, gan alluogi a grymuso'r gweithlu i weithio i 'frig eu trwydded' neu gwmpas ymarfer. Mae ein Cynllun Pobl a Diwylliant yn cydnabod, yn ogystal â'r heriau a ddaw yn sgil y pandemig a'r cyfnod adfer angenrheidiol, ein bod ni, ynghyd â'r GIG ehangach yng Nghymru, yn wynebu newidiadau cymdeithasol, economaidd, technolegol a demograffig. O ganlyniad i hyn, mae angen i ddemograffeg ein gweithlu newid hefyd, a rhaid i ni addasu'r ffordd yr ydym yn recriwtio, cadw a chefnogi ein pobl.

Mae'r siartiau isod yn nodi'r heriau canlynol wrth benderfynu ar y ffyrdd gorau posibl o ddefnyddio'r gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol a sut i ystyried cyflenwad yn erbyn blaenoriaethau gwasanaeth yn y dyfodol:

- Mae gan y BIP weithlu sy'n heneiddio a'r categorïau oedran mwyaf yw 31-35 oed (2,389 o staff), 36-40 oed (2,388 o staff) a 41-45 oed (2,148 o staff).

- Y categorïau gradd mwyaf yw'r staff ym Mandiau Agenda ar gyfer Newid 2, 5 a 6. Mae adolygu cymysgedd sgiliau a ffyrdd newydd o weithio yn barhaus yn bwysig er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o sgiliau yn y dyfodol yn y lle cywir ac ar y radd gywir. Mae hefyd angen moderneiddio'r gweithlu ymhellach, rolau newydd a sgiliau estynedig, wedi'i ategu gan ddeallusrwydd gweithlu a

sgiliau cynllunio'r gweithlu gwell.  Mae hyn yn cynnwys datblygu mesurau effeithlonrwydd a chynhyrchiant priodol sy'n helpu i hwyluso meincnodi a dangos gwerth wrth i siâp ein gweithlu barhau i newid.


- Mae'r rhan fwyaf o'r gweithlu'n fenywaidd (75.76%) gyda rhaniad gweddol gyfartal yn y grŵp hwn rhwng waith llawn-amser (52.57%) a rhan-amser (47.42%).  Mae defnyddio ein polisïau cyflogaeth, fel y Polisi Gweithlu Addasadwy a'r Weithdrefn Gweithio Hyblyg, yn hanfodol i gadw talent a chadw diddordeb staff.


- Mae mwyafrif y gweithlu yn wyn (73.98%) gyda 14.20% mewn categorïau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a 11.82% heb ddatgan.  Mae gan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol nifer o gamau i barhau i adolygu ein gweithlu yn hyn o beth er mwyn sicrhau ei fod yn ymdrechu i adlewyrchu'r boblogaeth leol lle bo hynny'n berthnasol e.e. mewn arferion recriwtio.


- Mae staff nyrsio a bydwreigiaeth cofrestredig a staff nyrsio anghofrestredig yn cyfrif am ychydig dros 42% o'r gweithlu cyfan.  O ystyried bod prinder cenedlaethol cydnabyddedig o nyrsys cofrestredig, mae'r BIP wedi gwneud cynaliadwyedd nyrsio yn flaenoriaeth uchel ar ei agenda gweithlu.   Er na allwn ddylanwadu ar y cyflenwad o weithlu cofrestredig yn y tymor byr, gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion ar ddenu pobl drwy wella brandio'r BIP, hyrwyddo manteision gweithio yma, a thargedu grwpiau penodol mewn cymdeithas.


Mae gwybodaeth proffil y gweithlu a gasglwyd ar gyfer y BIP ym mis Mawrth 2024 yn dangos bod 7% o staff yn ystyried bod ganddynt anabledd, ond nid yw'r wybodaeth hon yn hysbys ar gyfer nifer sylweddol o staff (19%).


Mewn ymdrech i wella data cydraddoldeb a sgiliau Cymraeg ein gweithlu, lansiodd y swyddogaeth Pobl a Diwylliant ymgyrch ar draws y sefydliad yn annog staff i ddiweddaru eu Electronic Staff Record (ESR).  Amlygodd yr ymgyrch y rhesymau pam mae casglu data yn bwysig a sut y byddai'n cefnogi'r sefydliad i ddod yn fwy cynhwysol.  Er mwyn cefnogi'r ymgyrch, a gwella cywirdeb ein data, mae'r BIP hefyd yn archwilio ffyrdd eraill o gefnogi staff i ddiweddaru eu gwybodaeth, gan gynnwys sesiynau 'galw heibio' ar y safle.


Proffil Oedran
16%
14%
12%
10%
8%
6%
4%
2%
0%
<=20 oed
21-25
26-30
31-35
36-40
41-45
46-50
51-55
56-60
61-65
66-70
>=71 oed



Rhyw a Chontract
Dynion rhan amser 5%
Dynion Llawn Amser 19%
Benyw (wag) 0%
Benyw rhan amser 36%
Benyw Llawn Amser 40%


Grŵp Ethnig
Gwyn
74%
Asiaidd neu Asiaidd
Prydeinig
8%
Heb ei Nodi
3%
Du neu Ddu
Prydeinig
2%
Arall
26%
Tsieineaidd
neu Unrhyw
Grŵp Ethnig
Arall
2%
Gwag
9%
Cymysg
2%


Cyfeiriadedd Rhywiol
Amhenod
19%
Hoyw neu Lesbïaidd
2%
Deurywiol
2%
Other
8%
Heb benderfynu
0%
Heterorywiol neu
Syth
73%
Heb nodi (gofynnwyd
i'r person ond ni
roddodd ateb)
4%



Grŵp Staff
Gwyddonol a Thechnolegol Proffesiynol
Myfyrwyr 0%
Wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 31%
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol 20%
Meddygol a Deintyddol 7%
Gweinyddol a chlercaidd 17%
Gwyddonwyr Gofal Iechyd 4%
Ystadau ac Atodol 8%
Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd 9%

Coeden Nadolig yn ôl Band Cyflog
Ymgynghorydd
Graddau Meddygol Eraill
Band 9
Band 8d
Band 8c
Band 8b
Band 8a
Band 7
Band 6
Band 5
Band 4
Band 3
Band 2
Band 1
-25%
-20%
-15%
-10%
-5%
0%
5%
10%
15%
20%
25%

## 16.3 Data Absenoldeb Salwch

Mae iechyd a lles staff BIP Caerdydd a'r Fro o'r pwys mwyaf, yn enwedig ar yr adeg ddigynsail hon, ac mae llawer o'r gwaith a wnaed yn 2023-24 wedi'i ddisgrifio yn yr Adroddiad Perfformiad.

Mae **absenoldeb salwch** yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r BIP. Y gyfradd salwch gronnol ar gyfer y cyfnod o 12 mis hyd at a chan gynnwys mis Mawrth 2024 yw 6.22%, sydd 0.22% yn uwch na tharged diwedd blwyddyn 2023-24, sef 6.00%.

Priodolwyd 65.59% o'r salwch hwn i absenoldeb tymor hir a 34.41% i absenoldeb tymor byr. Y prif resymau a gofnodwyd gan y BIP am absenoldeb yn ystod 2023-24 oedd Gorbryder/Straen ac Annwyd, Peswch a Ffliw.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth am nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch yn ystod 2022-23 a 2023-24.

| | **2023-24** | **2022-23** |
|---|---|---|
| | **Nifer** | **Nifer** |
| Diwrnodau a gollwyd (tymor hir) | 220,631.64 | 232,000.47 |
| Diwrnodau a gollwyd (tymor byr) | 115,748.36 | 124,923.33 |
| **Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd** | **336,380.00** | **356,923.80** |
| **Cyfanswm blynyddoedd staff** | **14,813.19** | **14,154.02** |
| Diwrnodau gwaith a gollwyd ar | 22.72 | 25.22 |
| Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn | 17,096 | 15,918 |
| Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod heb absenoldeb | 5,404 | 5,250 |
| **Canran y staff heb absenoldeb** | **31.61%** | **31.25%** |

## 16.4 Polisïau Staff

Yn BIP Caerdydd a'r Fro mae gennym 6 Pholisi cyflogaeth BIP lleol:

- Recriwtio a Dethol
- Gweithlu Addasadwy
- Iechyd a Lles Cyflogeion
- Dysgu, Addysg a Datblygu
- Polisi Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol
- Mamolaeth, Mabwysiadu, Tadolaeth ac Absenoldeb Rhiant a Rennir

Mae'r rhain yn nodi ein hymrwymiadau sefydliadol a'r hyn yr ydym yn anelu at ei gyflawni. Cefnogir pob un ohonynt gan nifer o Weithdrefnau sy'n disgrifio'r prosesau i'w dilyn, rolau a chyfrifoldebau, ac unrhyw hawliau neu rwymedigaethau. Mae hyn yn golygu bod llai o ddyblygu, mwy o dryloywder a gwybodaeth sy'n haws ei deall. Mae'r rhain yn ychwanegol at y Polisïau Cymru Gyfan sy'n berthnasol i ni a phob Bwrdd Iechyd arall yng Nghymru

Mae'n ofynnol i bob polisi, gweithdrefn a chanllaw cyflogaeth, ynghyd â rhai eraill sy’n gysylltiedig â Gwasanaethau Pobl (Adnoddau Dynol) a Phobl a Diwylliant, gael o leiaf ddau awdur, h.y. cynrychiolydd rheolwyr a staff, a rhaid iddynt fod yn destun prosesau ymgynghori cadarn. Mae hyn yn cynnwys cael eu cyhoeddi ar safle Sharepoint y BIP am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf ac ystyriaeth yn Is-Grŵp Polisïau Cyflogaeth y Fforwm Partneriaeth Lleol.

Fel cyflogwr, rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfle cyfartal a chynhwysiant ystyrlon i bob gweithiwr, waeth beth yw eu nodweddion gwarchodedig, fel y dangosir gan ein **Polisi Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol**. Mae ei gylch gwaith yn mynd y tu hwnt i gydymffurfiad llym â'r gyfraith ac mae'n gweithredu fel pwynt cyfeirio pe bai unrhyw anghydfodau dilynol.

Mae'r BIP wedi ymrwymo i gyfle cyfartal wrth recriwtio, ac yn dangos hyn drwy arddangos y symbol Arweinydd Hyderus o ran Anabledd (sy'n disodli'r cynllun 'dau dic') ym mhob hysbyseb, yn ogystal â symbolau Oed-gyfeillgar, Cyflogwr Ystyriol a Stonewall Cymru.

Mae’r **Polisi Iechyd a Lles Cyflogeion** yn amlinellu ein hymrwymiad i annog a grymuso pob aelod o staff i gymryd cyfrifoldeb personol am eu ffordd o fyw ac iechyd a lles. Mae hefyd yn nodi ein hymrwymiad i arwain a chefnogi rheolwyr yn eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cefnogi gweithleoedd ac arferion gwaith iach, ac i gymryd rhan mewn sgyrsiau effeithiol gydag unigolion a thimau. Cydnabyddir hefyd gyfrifoldeb y BIP yw darparu gweithle, diwylliant ac amgylchedd sy'n galluogi pobl i fod yn iach ac iawn yn y gwaith.

Dyfarnwyd **Safonau Iechyd Corfforaethol** Aur a Phlatinwm i'r BIP ym mis Ebrill 2023 yn dilyn ailasesiad. Cafodd y Grŵp Llywio Iechyd a Lles ei ddiwygio yn hydref 2023 ac ar hyn o bryd mae'n goruchwylio datblygiad Fframwaith Iechyd a Lles y BIP, yn ogystal â nodi blaenoriaethau iechyd a lles sefydliadol gan ddefnyddio deallusrwydd sy'n dod i'r amlwg o bob rhan o'r BIP, ymchwil ac arfer gorau.

Mae **Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith** GIG Cymru yn cynorthwyo rheolwyr i gefnogi staff pan fyddant yn sâl, rheoli eu habsenoldeb a helpu i hwyluso eu dychweliad amserol i'r gwaith mewn ffordd dosturiol. Mae'r polisi'n rhagweithiol drwy roi cyfrifoldeb ar reolwyr llinell i nabod eu staff a chanolbwyntio ar eu hiechyd a'u lles i'w cadw'n iach ac yn y gwaith.

Mae'r Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith yn cynnwys nifer o becynnau cymorth. Mae un o'r rhain yn ymdrin ag addasiadau rhesymol/wedi'u teilwra – mae'n atgoffa rheolwyr o'n dyletswydd gyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw gweithwyr ag anableddau, neu namau corfforol neu iechyd meddwl, dan anfantais wrth wneud eu gwaith neu yn ystod y broses recriwtio. Mae'r Polisi yn nodi nad yw pob salwch yn anabledd, fodd bynnag, os yw gweithiwr yn gofyn am gymorth gyda chyflwr iechyd a lles, y peth gorau yw darparu'r cymorth yn unol â hynny, gan dybio bod gwneud hynny'n gymesur. Mae llawer o fanteision i hyn gan gynnwys cefnogi'r gweithiwr yn ôl i'r gwaith a'i helpu i aros yn y gwaith.

Mae hyfforddiant Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith wedi'i gyflwyno'n rhithwir i dros 200 o reolwyr yn 2023, gyda sesiynau rheolaidd wedi'u cynllunio wyneb yn wyneb ac yn rhithwir yn 2024. Mae Sesiynau Siarad Pecyn Cymorth wedi'u trefnu i reolwyr a staff i roi cyngor ar yr opsiynau a'r prosesau, a fydd hefyd yn eu cyfeirio at amrywiol rwydweithiau iechyd, lles a chymorth. Mae'r rhain yn cynnwys:

